

Cyfrol I, Rhif 1, Ebrill 2007 • ISSN 1741-4261


GWERDDON

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams



Cyhoeddwyd gyda chymorth



Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg
...addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg

Welsh Medium Teaching Development Centre
...Welsh medium university education

ISSN 1741-4261

Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Cyfrol I, Rhif 1, Ebrill 2007

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

Cyhoeddwyd gyda chymorth Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg



Bwrdd Golygyddol

Golygydd:	Yr Athro Ioan Williams
Golygydd Cynorthwyol:	Anwen Jones, Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Cynorthwydd Golygyddol:	Esyllt Griffiths
Aelodau'r Bwrdd Golygyddol:	Dr Prys Gruffydd, Prifysgol Cymru, Abertawe Yr Athro Aled G. Jones, Prifysgol Cymru, Aberystwyth Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Cymru, Bangor Dr Eleri Pryse, Prifysgol Cymru, Aberystwyth Wyn Thomas, Prifysgol Cymru, Bangor Yr Athro Colin Williams, Prifysgol Caerdydd Dr Daniel Williams, Prifysgol Cymru, Abertawe Dr Einir Young, Prifysgol Cymru, Bangor

e-Gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we ddwywaith y flwyddyn. Arferir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisiau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.org

Cyllidir *Gwerddon* gan y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.org neu drwy'r post: Gwerddon, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.org

Cynnwys

Golygyddol	5
Rhagair	7
Crynodebau	9
Summaries	11
Erthygl 1: Yr Athro Mike Pearson, "D.J. a fi"	13
Erthygl 2: Gwennan Schiavone, "Llais y genhades Gymreig, 1887-1930"	27
Erthygl 3: Dr Diarmait Mac Giolla Chríost, "Dinasyddiaeth, Bwrdd yr Iaith, a marchnata'r Gymraeg"	43
Erthygl 4: Dr Enlli Thomas, "Natur prosesau caffael iaith gan blant: marcio cenedl enwau yn y Gymraeg"	53
Cyfranwyr	82

Golygyddol

Codwyd y syniad am gyfnodolyn electronig gogyfer â chyhoeddiadau academaidd yn y Gymraeg yn ystod trafodaethau'r Bwrdd Dysgu Drwy'r Gymraeg rai blynyddoedd yn ôl bellach. Y ddadl oedd bod angen dybryd am gyfnodolyn lle gellid cynnal trafodaeth academaidd yn y Gymraeg, a hynny ar draws yr holl feysydd sydd wedi eu cynnwys yn y cyfadrannau traddodiadol.

Pan ddywedwyd bod angen hyn, ni ddadleuwyd bod hynny'n ganlyniad i unrhyw ofyn a leisiwyd o du mewn i'r cymunedau academaidd yng Nghymru. I'r gwrthwyneb! Roedd pawb yn y Bwrdd y pryd hwnnw'n ymwybodol iawn bod rhywfaint o ragfarn yn erbyn cyhoeddi gwaith academaidd yn y Gymraeg, a bod y rhagfarn honno wedi ei chryfhau gan aelodau blaenllaw o rai o baneli'r Asesiad Ymchwil. Y rhagfarn honno oedd ffynhonnell ein teimlad ni bod arnom eisiau rhyw fath o offeryn y gellid ei ddefnyddio er mwyn dechrau'r dasg o'i thanseilio.

Yr un yw'r frwydr ers y dyddiau pan ddarlithid drwy gyfrwng y Saesneg hyd yn oed yn Adrannau'r Gymraeg yng ngholegau Prifysgol Cymru, a gwelir agweddau gwahanol ohoni ym mhob rhan o'r gyfundrefn addysg hyd heddiw. Byddai buddugoliaeth yn y maes hwn yn golygu y cymerai academyddion o Gymru yn ganiataol eu hawl i ddatblygu eu meysydd ymchwil, ac i ledaenu ffrwythau'r ymchwil honno, drwy gyfrwng y Gymraeg, ac y disgwylient hefyd weld y gweithgarwch hwnnw'n cael ei drin o ddifrif. Mae hynny wedi digwydd yn barod mewn sawl maes academaidd, lle mae paneli perthnasol yr Asesiad Ymchwil yn llwyr ymwybodol o'r rheidrwydd i ganiatáu gwaith a gyhoeddir yn y Gymraeg yn unig. Canfyddir hefyd newid er gwell yng nghanllawiau cyffredinol yr Asesiad presennol, lle cyfeirir at y Gymraeg ar delerau cyfartal â'r Saesneg mewn perthynas ag iaith yr allbynnau gwahanol.

Gwelir gwelliant yn y canllawiau newydd hefyd mewn perthynas â ffynhonnell y cyhoeddiadau. Tan yn ddiweddar iawn bu llawer o sôn am bwysigrwydd ffynhonnell y cyhoeddiadau sy'n cael eu cofrestru yn yr Asesiad Ymchwil, a chryn anfodlonrwydd i dderbyn cynnyrch cyhoeddiadau electronig. Y mae'n debyg gennyf fod y rhagfarn hon yn parhau mewn rhai meysydd eto, ond os felly, bydd hynny yn nannedd datganiad croyw panel canolog yr Asesiad.

Rhaid, felly, imi fel golygydd fynegi diolch i awduron y canllawiau hynny am iddynt esmwytho llwybr *Gwerddon* i raddau. Mae diolch hefyd yn ddyledus i Dr Ioan Matthews, Cyfarwyddwr Canolfan Datblygu'r Gymraeg, a'i gyd-weithwraig, Lowri Gruffydd, am gadw ffydd yn y prosiect dros gyfnod hir, i aelodau'r panel golygyddol am eu cymorth hael a pharod, ac i'r golygydd cynorthwyol, Anwen Jones, am ei diwydrwydd a'i hymrwymiad parhaus.

Y bwriad yw i gyhoeddi o leiaf dau rifyn o *Gwerddon* bob blwyddyn. Croesewir cyfraniadau sy'n cynrychioli pob maes academaidd, yn cynnwys rhai gwreiddiol a rhai sydd wedi eu cyhoeddi mewn ieithoedd eraill, lle gellir dadlau bod rheswm priodol am iddynt ymddangos hefyd yn y Gymraeg. Derbynnir hefyd waith sydd wedi ei gyfansoddi'n wreiddiol mewn ieithoedd eraill lle mae yna ddadl amlwg dros wneud hynny. Rhoddir croeso arbennig i waith academyddion ifainc, yn cynnwys y rheiny sy'n hyfforddi drwy'r cynllun cymrodoriaethau ac ysgoloriaethau a gyllidir gan CCAUC.

Canllawiau cyflwyno

Mae *Gwerddon* yn cyhoeddi erthyglau academaidd ar draws ystod eang o bynciau yn y Dyniaethau, y Gwyddorau a'r Celfyddydau. Gellir cyflwyno erthyglau rhwng 5,000 a 8,000 o eiriau ar ffurf dogfen Word i sylw'r golygydd cynorthwyol, Anwen Jones, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gofynnir hefyd am gopi ychwanegol ar far data neu ddisg i'w anfon trwy'r post cyffredin i'r cyfeiriad isod:

Golygydd cynorthwyol Gwerddon
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
Adeilad Parry Williams
Campws Penglais
Aberystwyth
SY23 3AJ

Dylid dilyn canllawiau Gwasg Prifysgol Cymru wrth baratoi'r ddogfen. Gweler www.uwp.co.uk; dilynwch y ddolen gyswilt 'cysylltu' i gyrraedd 'Canllawiau ar gyfer testunau Cymraeg i'w cyhoeddi'. Rhaid cynnwys unrhyw luniau, ffotograffau, tablau neu ddeunydd gweledol o fath arall fel rhan o'r ddogfen. Ni ellir eu derbyn fel ffeiliau ar wahân. Ar ôl derbyn erthyglau, fe'u hanfonir at olygydd iaith a diwyg ac yna at ddau arfarwr a fydd yn argymhell cyhoeddi ai peidio. Bydd y broses hon yn cymryd hyd at dri mis. Cysylltir ag awduron wedi hyn i nodi ymateb yr arfarnwyr cyn bwrw ymlaen gyda'r broses olygu.

Rhagair

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas

Dyw ysgolheictod ddim yn gallu stopio. Neu os yw hi mae bywyd diwylliant yn darfod. Gan fod ysgolheictod o bob math yn ymarfer ieithyddol yn arbennig yn y dyniaethau mae codi cwestiynau neu ymholi yn dasg greiddiol. Does dim yn wahanol yn hyn o beth mewn ysgolheictod a sgrifennir mewn iaith 'lleiafrifol', gan nad oes dim yn lleiafrifol yn yr iaith ei hun, dim ond y nifer sy'n ei siarad. Pan fo'r nifer sy'n ei siarad a'r peuoedd lle'i siaredir ar gynnydd fel yn achos yr iaith hon, bydd ysgolheictod blaengar o ran ffurf a chynnwys, methodoleg a thestun, yn rhan o ymdrech ehangu peuoedd iaith ei hun, ac o ymestyn ffiniau dealltwriaeth gymdeithasol yr un pryd.

Yn hyn o beth mae'r gyfrol hon y caf y fraint o rageirio iddi yn arloesiad blaengar ysgolheigaidd. Yn ei dull a'i deunydd y mae'r un mor gynhyrfus-flaengar â gwaith yn nyddiau mawr ysgolheictod llenyddol-destunol y ganrif o'r blaen. Roedd temtasiwn weithiau i ysgolheigion testunol yn gweithio ar ddeunyddiau hanesyddol dybio bod y gwaith wedi'i wneud a bod y testun hwn neu'r llall wedi'i olygu. Ond nid gwir hynny ychwaith gan fod dealltwriaeth pob darlleniad gan unrhyw ddarllenydd o destun hanesyddol yn amrywio a bod yr amrywiaeth yn dwysáu o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'r ymgais i ailddarllen ac aildeall ymhob oes wrth wraidd ein hermeniwteg Ewropeaidd.

Mae'r hyn y gorfu i ni ei ddysgu am berthnasoldeb ysgolheictod llenyddol ac ieithyddol yn ystod chwedegau'r ganrif a fu yn fwy gwir, os gellir dweud y fath beth a bod yn athronyddol gywir, am ysgolheictod astudiaethau diwylliannol a chymdeithasol. Yn y rheini ni ellir ymguddio yn y testun gan fod hwnnw neu honno yn symud. Ar lawer cyfrif ysgolheictod perfformio sy fwyaf heriol, ac nid yn unig am y rheswm gor-symf fod pob perfformiad mewn celf fel mewn bywyd yn darfod. Osgoi'r ymgais i aralleirio yw llwyddiant celf ddramatig leoliadol, ac nid yw hyd yn oed y dull clyweledol fel cofnod neu atgynhyrchiad o foment perfformiad yn datrys pos atgynhyrchu.

Ond mae modd mynd ati drwy dirweddau a thirluniau, atgofion teuluol a lleoliad pensaernïol, i ddeall a dehongli'r penodol, fel yn ysgrif yr Athro Mike Pearson, gŵr y mae ei gywreinrwydd wrth ysgolheica'r un mor gyfriniol i mi â'i berfformiadau gwreiddiol.

Nid mewn perfformiad gweledol symudol yn unig y cynhyrchir delwedd ond drwy naratif print a geirfa ac ymddangosiadau cyrddau cyhoeddus a adroddir yn y wasg a'r cyfryngau. Dyma faes astudiaeth ddiwylliannol hanesyddol Gwennan Schiavone. Profa'n ddigamsyniol nad yw'r cysyniad o 'enwogrwydd' yn un anachronistaidd wrth drin y wasg dorfal ar dro'r ddwy ganrif o'r blaen.

Mae cenedl enwau gramadegol wedi profi yn ail dadleuol i hunaniaeth genedligol ethnig a gwleidyddol ei hun. Yn Gymraeg am gyfnod fe drodd dadleuon gwleidyddol am gydraddoldeb cymdeithasol yn ffrae am derfyniadau, mewn dryswch dwys rhwng ffurf yr arwyddiadur a natur yr arwyddedig. Dadl rhwng 'pawb a'i gender' fel y dwedir yn y de-orllewin. Mwy dadleuol fyddai honni bod astudiaeth Dr Enlli Thomas yn arwyddo

tuag at symleiddiad treigladau cytseiniaid dechreuol fel modd o hyrwyddo caffaeliad ieithyddol ieuencid ac oedolion!

Ar ôl chwe blynedd yn broffesiynol gyfrifol am y broses ddegawd yn ôl, doeddwn i fawr cliriach am y cysyniad o 'farchnata iaith'. Cododd Dr Diarmaid McGiolla Chríost fwy o gwestiynau am y broses o geisio cyfreithloniad gwleidyddol i hyrwyddo ieithyddol. Er efallai mai hen werthoedd amlieithedd ac amlddiwylliannedd fel sail resymol dinasyddiaeth luosaid yw'r llinell foesol orau yn y diwedd.

Diben rhagair yw annog darlennydd i ddarllen y deunydd. Yr hyn y mae'r cynnwys sy'n dilyn yn ei brofi yw bod y ddwy efaill-ysfa ysgolheigaidd sylfaenol i gyffredinolli am strwythurau ac i fanylu ar brofiadau a phethau penodol yn fyw ac yn iach yn ein Prifysgolion ar waethaf tanwariant difrifol ar addysg uwch ac ymchwil yng nghyllideb debygol pob darpar lywodraeth yng Nghymru. Bydded darllen yr ysgrifau hyn yn ysbrydoliaeth i ni fynd ati i newid hynny.

Crynodebau

Yr Athro Mike Pearson, "D.J. a fi"

Mae 'D.J. a fi' yn tynnu ar agweddau ar waith yr awdur Cymraeg, D.J. Williams, ac yn archwilio eu potensial i ysbrydoli'r broses o greu perfformiad cyfoes sy'n benodol i safle, a hysbysu'r dadansoddiad ohono. Mae hunangofiant Williams, *Hen Dŷ Fferm*, yn rhoi cipolygon unigryw ar dirwedd plentyndod, natur leoledig y cof, dramayddiaeth adrodd storïau a rôl y storïwr. Mae'r awdur yn defnyddio'r cipolygon hyn i ddatblygu ac awgrymu nifer o ddulliau ymarferol a damcaniaethol o ran defnyddio cofiant, hanes teuluol, saernïaeth ddomestig a gwybodaeth leol mewn perfformiad a ddyfeisir.

Gan gyfeirio'n helaeth at ei waith ei hun, 'Bubbling Tom' (2000), sef perfformiad unigol peripatetig a lwyfannwyd ym mhentref ei fagwraeth yn Swydd Lincoln wledig: taith dywysedig o amgylch y lleoedd yr oedd yn eu hadnabod yn saith oed – mae'n trafod pwysigrwydd gwaith Williams o ran ysbrydoli ffurfiau dramatig sy'n ceisio datgelu graen profiad drwy roi sylw i'r personol a'r cyfarwydd, manylion bywyd pob dydd a'i gyfansoddiad.

Gwennan Schiavone, "Llais y genhades Gymreig, 1887-1930"

Mae'r erthygl hon yn archwilio goblygiadau diwylliannol enwogrwydd merched a enillwyd drwy gymryd rhan yng ngweithgarwch cenhadol trefedigaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cafodd merched eu gorchymyn i gyflawni swyddogaethau penodol yn y broses o greu cymunedau Cristnogol mewn trefedigaethau Prydeinig, gan gynnwys troi merched eraill a rhoi disgrifiadau ac esboniadau o'r genhadaeth i gynulleidfa gartref. Yn ogystal â darlithoedd a phregethau gan genhadon, ac arddangosfeydd cenhadol, y prif lwybr trosglwyddo ar gyfer y cyfathrebu hwn oedd y wasg genhadol enwadol. Mae'r erthygl hon yn archwilio sut yr oedd y cenhadon benywaidd yn eu cyflwyno eu hunain a'u gwaith i'r gynulleidfa gartref yn y wasg genhadol rhwng 1887 a 1930, ac yn awgrymu mai'r delweddau yr oeddent yn eu cyflwyno, a'r isleisiau y gellir eu cael yn eu hysgrifennu, oedd y brif ysbrydoliaeth i ferched Presbyteraidd Cymru gefnogi'r achos cenhadol, ac ymfurfio'n fudiad hynod a ddaeth yn sianel hollbwysig ar gyfer noddi gwaith cenhadol.

Dr Diarmait Mac Giolla Chríost, "Dinasyddiaeth, Bwrdd yr Iaith, a marchnata'r Gymraeg"

Mae'r papur hwn yn cynnig archwiliad cryno o'r dull a ddefnyddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sef y prif gorff ar gyfer polisi a chynllunio ieithyddol yng Nghymru, o ran agweddau ar gynllunio bri a'r iaith Gymraeg. Mae'n disgrifio sut y mae datganoli, a'r

adolygiad cenedlaethol cyntaf erioed yn ddiweddar, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o bolisi'r iaith Gymraeg, yn darparu cyd-destun uniongyrchol ar gyfer gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r ddogfen bolisi allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad hwnnw, *Iaith Pawb*, yn cael ei dadansoddi'n feirniadol ac mae ei pherthynas â chynllunio bri yn cael ei nodi. Mae arfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran cynllunio bri yn cael ei drafod mewn perthynas â'r trafodaethau ynghylch neo-ryddfrydiaeth ac ôl-wladychiaeth mewn ffordd sy'n amlygu ffocws y Bwrdd ar ddefnyddwyr yn hytrach na dinasyddion.

Dr Enlli Thomas, "Natur prosesau caffael iaith gan blant: marcio cenedl enwau yn y Gymraeg"

Mae ymchwil ynghylch caffael cenedl ramadegol wedi dangos, mewn nifer o ieithoedd, fod plant yn cael meistrolaeth ar genedl yn gynnar. Yn aml, yn yr ieithoedd hyn, mae marcio cenedl yn eithaf amlwg ac mae'n cynnig cyfatebiaeth un-i-un glir rhwng marciwr a'r genedl a godiwyd. Yn y Gymraeg, fodd bynnag, mae marcio cenedl yn fwy cymhleth. Mae'n cael ei marcio drwy dreigladau, sef cyfres o newidiadau morffo-ffonolegol sy'n effeithio ar gytseiniaid cyntaf geiriau, ac mae'r mapio rhwng treiglad a chenedl yn eithaf anhryloyw. Defnyddir dau fath o dreiglad i farcio cenedl fenywaidd: mae enwau benywaidd yn cael eu newid gan y fannod benodol ac mae ansoddeiriau sy'n dilyn enwau benywaidd yn cael eu treiglo'n feddal, ac mae cenedl fenywaidd yr ansoddair meddiannol 'ei' yn cael ei marcio drwy dreiglo'r enw a newidir yn llaes. Mae'r papur hwn yn cyflwyno dwy astudiaeth sy'n archwilio meistrolaeth gynhyrchiol plant ac oedolion ar genedl fel y'i mynegir drwy dreiglo enwau a newidir gan y fannod benodol, ac ansoddeiriau yn newid enwau.

Gwahoddwyd plant, rhwng 4½ a 9 oed, ac oedolion i gymryd rhan yn yr astudiaethau. Yn gyntaf, cynhaliwyd astudiaeth led-naturiolaidd i gael gwybodaeth am ddefnydd y siaradwyr o farcio cenedl. Yna, defnyddiwyd gweithdrefn Cloze i gymell y siaradwyr i greu ffurfiau gwrywaidd a benywaidd, gyda geiriau go iawn a ffurfiau disynnwyr, mewn amrywiaeth o gyd-destunau ieithyddol. Roedd rhai o'r cyd-destunau hyn yn rhoi awgrym o statws cenedl, ond nid oedd rhai eraill.

Roedd y data a gafwyd yn dangos bod caffael y system genedl Gymraeg yn broses hirfaith, ac nad yw plant wedi meistrolï'r system hyd yn oed erbyn 9 oed. Mae siaradwyr Cymraeg, hyd yn oed pan maent yn oedolion, yn rhoi ychydig o sylw, neu ddim, i'r awgrymiadau posibl sy'n bresennol yn y mewnbwn. Mae'r canlyniadau yn awgrymu, pan fo gan iaith system genedl gymhleth sydd wedi'i marcio gan brosesau morffo-ffonolegol anhryloyw, fod y cwrs datblygu yn faith ac yn amrywiol.

Summaries

Professor Mike Pearson, "D.J. and me"

'D.J. a fi' draws on aspects of the work of Welsh author D.J. Williams and examines their potential to inspire the creation and inform the analysis of contemporary site-specific performance. Williams's memoir, *The Old Farmhouse*, provides unique insights into the landscape of childhood, the located nature of memory, the dramaturgy of storytelling and the role of the teller. The author employs these insights to develop and suggest a number of practical and theoretical approaches to the use of biography, family history, domestic architecture and local knowledge in devised performance.

Referring extensively to his own work, 'Bubbling Tom' (2000), a peripatetic solo performance staged in the village of his own upbringing in rural Lincolnshire: a guided tour of the places he knew at the age of seven – he discusses the importance of Williams's work in inspiring dramatic forms that seek to reveal the grain of experience by addressing the intimate and familiar, the details of everyday life and its fabric.

Gwennan Schiavone, "The voice of Welsh missionary women, 1887-1930"

This article explores the cultural implications of female celebrity acquired through involvement in the colonial missionary activity of the Welsh Presbyterian Church. Women were directed to perform particular functions in the process of constructing Christian communities in British colonies, among which were the conversion of other women and the provision of descriptions and explanations of the mission to a home audience. Along with lectures and sermons by missionaries on furlough, and missionary exhibitions, the main transmission route for this communication was the denominational missionary press. This article examines the ways in which the female missionaries presented themselves and their work to the audience at home in the missionary press between 1887 and 1930, and suggests that the images they presented, and the undertones that can be found in their writing, were the main inspiration for Welsh Presbyterian women to support the missionary cause, and form themselves into a remarkable movement that became a vital channel for the sponsorship of missionary work.

Dr Diarmait Mac Giolla Chríost, "Citizenship, the Welsh Language Board, and marketing the Welsh language"

This paper offers a brief examination of the approach taken by the Welsh Language Board, as the principal language policy and planning body in Wales, to aspects of prestige planning and the Welsh language. It describes how devolution, and the recent,

first ever, national review by the Welsh Assembly Government of Welsh language policy, provide the immediate context for the work of the Welsh Language Board. The key policy document resulting from that review, *Iaith Pawb*, is critically analysed and the relationship to it of prestige planning is identified. The Welsh Language Board's practice of prestige planning is discussed in relation to the discourses of neo-liberalism and post-colonialism in a way that highlights the Board's focus on consumers rather than citizens.

Dr Enlli Thomas, "The nature of language acquisition processes in children: marking grammatical gender in Welsh"

Research on the acquisition of grammatical gender has shown that in many languages children gain an early command of gender. Often in these languages gender marking is quite overt and provides a clear one-to-one correspondence between a marker and the gender encoded. In Welsh, however, gender marking is more complex. It is marked by mutations, a set of morpho-phonological changes that affect the initial consonants of words, and the mapping between mutation and gender is quite opaque. Two mutation types are used to mark feminine gender: both feminine nouns modified by the definite article and adjectives following feminine nouns undergo soft mutation, and the feminine gender of the possessive adjective 'ei' is marked by aspirate mutation of the modified noun. This paper presents two studies that examine children's and adults' productive command of gender as expressed in the mutation of nouns modified by the definite article, and adjectives modifying nouns.

Children, between the ages of 4½ and 9 years old, and adults were invited to take part in the studies. First, a semi-naturalistic study was conducted to obtain knowledge about speakers' usage of gender marking. A Cloze procedure was then used to elicit speakers' production of masculine and feminine forms, with both real words and nonsense forms, in a variety of linguistic contexts. Some of these contexts provided cues to gender status, some did not.

The data obtained indicated that the acquisition of the Welsh gender system is a long drawn-out process, and children have not mastered the system even by 9 years of age. Welsh speakers, even in adulthood, pay little or no attention to the possible cues present in the input. Results suggest that when a language has a complex gender system that is marked by opaque morpho-phonological processes the course of development is protracted and variable.

Yr Athro Mike Pearson

D.J. a fi

GWERRDON

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyfrol I, Rhif 1, Ebrill 2007 • ISSN 1741-4261

D.J. a fi

Yr Athro Mike Pearson

Crynodeb

Dyw fy nheiti i ddim yn dweud y gwir i gyd. Efallai y byddai wedi bod yn well petawn i wedi rhoi 'D.J., Ned a fi' yn deitl ar yr erthygl hon am mai yn llawlyfr Ned Thomas i'r mewnfudwr myfyrgar - *The Welsh Extremist* (1973) - y deuthum ar ei draws ef gyntaf. Neu efallai 'D.J., Ned, Waldo a fi' gan mai yn y cyfieithiad i'r Saesneg gan Waldo Williams - o dan gynllun gan UNESCO i roi 'to the bigger nations of the world some understanding of the smaller ones' (Williams, 2001) - y darllenais i gyntaf am Benrhiw, Nwncwl Jâms, Pegi'r Llofft a'r Cribyn Flyer: am yr 'Hen Dŷ Ffarm'. Neu hwyrach 'D.J., Ned, Waldo, Raymond a fi' gan mai Raymond Williams sy'n ysgogi'r myfyrdodau isod ar blentyndod ac ar ddadleoliad diwylliannol (gweler Williams, 1993).

Yn ei ddisgrifiad o'i fywyd tan iddo fod yn chwech oed mewn cymuned amaethyddol yn Shir Gâr ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg - molawd i ffordd o fyw sydd byth a beunydd fel petai hi ar fin diflannu - mae D.J. Williams yn tynnu ynghyd linydd di-dor o atgofion am bobl ac anifeiliaid a digwyddiadau a theithiau, a'r cyfan yn gyforiog o ddisgrifiadau o diroedd ac achau ac eiliadau o ddyheadau gwleidyddol. Mae'n sôn lawn cymaint am 'pheasants and horses and pubs and stories and singers' (Thomas, 1973: 86) ag am y pethe. Yma, mae Ned Thomas ei hun yn adleisio strategaeth hanfodol y cyfarwydd, sef *parataxis* - 'a hyn, a hyn, a hyn'. Ond ceir ffigurau eraill hefyd: *hypotaxis* - 'hyn nesaf at hyn, yr un pryd â hyn'; a *katachresis* - 'hyn, hyn, hyn' (gweler Pearson a Shanks, 2001: 25). Ac mae pob un ohonyn nhw i'w cael yng ngwaith D.J.

Llyfr am le, am weithrediad y cof ac am greu hunaniaeth yw *Hen Dŷ Ffarm* ac mae iddo ddyfnder mawr am fod agwedd hanfodol-hanesyddol i'r stori y mae'n ei hadrodd am y teulu ac am ddatblygiad hwsmonaeth effeithiol yn y fan honno. 'The urge to keep hold of one's family history D.J. saw as part of a valuable instinct to hold the present and the past together, the process which makes civilisation possible' (Thomas, 1973: 85-6).

Yn ystod blynyddoedd cynnar Brith Gof, y cwmni theatr y bûm i'n gysylltiedig ag ef am rai blynyddoedd, bu *Hen Dŷ Ffarm* yn ffynhonnell deunydd i berfformiadau megis Rhydcymerau (1981) pryd y bu Lis Hughes Jones a Nic Ros yn perfformio golygfeydd a grëwyd o ryddiaith D.J. a barddoniaeth Gwenallt, ac y byddai Matthew Aran a minnau'n mynd ati bob nos, gan ddefnyddio technegau seiri oes Victoria, a'r rheiny'n unig, i saernïo arch plentyn o foncyff pinwydden. Yn fwy diweddar, mae'r llyfr wedi goleuo amryw o ymagweddau beirniadol, damcaniaethol ac ymarferol at le, at y cof ac at adrodd storïau mewn perfformiad cyfoes, ac wedi bod yn ysbrydoliaeth uniongyrchol i 'ngwaith unigol i fy hun.

Nid wyf yn siwr a ddiffiniodd D.J. erioed y syniad o'r 'filltir sgwâr' mewn print, ond mae'n sicr mai yn *Hen Dŷ Ffarm* y ceir y traethu a'r ymhelaethu cywreiniaf ar y syniad hwnnw. Dyma dir cyfarwydd ein blynyddoedd cynharaf, y tir yr ydym ni'n ei adnabod yn fanwl, ac yn fanylach nag y byddwn ni'n adnabod unman arall byth. Ac mae'r cyfan wedi'i selio mewn amlen arbennig yn y cof. 'Rwyf wedi bod o'r farn, ers tro byd,' ysgrifennodd D.J., '... fod cof a sylw plentyn o'r hyn sy'n mynd ymlaen o'i gwmpas yn ei ddyddiau cynnar, cynnar, yn rhywbeth llawer iawn dyfnach a dwysach nag y mae pobl, yn gyffredin, wedi arfer ei gredu' (Williams, 2001: 4).

Mae'n werth sylwi bod ei atgofion am ddigwyddiadau yn yr ardal honno wedi'u lleoli'n fanwl-gywir a bod gofod, lle ac atgof ynddynt wedi'u gwau i'w gilydd yn glôs.

Pa bryd y digwyddodd y llu mawr o bethau a gofiat yn ddigon clir - yn gynnar neu'n ddiweddar yn ystod y chwe blynedd hyn - nid oes gennyf fawr o syniad. Ond gallaf eu lleoli, heddiw, yn lled sicr, y rhan fwyaf ohonynt, a nodi ymhle y digwyddodd y peth a'r peth; a'r fan ble'r o'n i'n sefyll arno, weithiau, pan glywais i hyn a hyn - ai yn y ty, ar y clos, yn y tai ma's, yn yr ydlan, y berllan, yn un o'r gelltydd, neu ar ryw gae neilltuol.
(Williams, 2001: 6)

Yn ei eiriau ef hefyd, mae i'w atgofion gynnwys lleol a darluniadol er na ddygir hwy i gof â chynneddf y meddwl ond â phob '... nerf a gewyn sydd yn fy nghyfansoddiad' (Williams, 2001: 168).

Awgrym y daearyddwr David Sibley yw bod plant yn profi pethau'n ddwys, mewn ystyr gorfforol, a bod y profiad o le lawn cymaint ynghlwm wrth gas bethau a phryderon ag wrth ddymuniadau a phleserau. Mae yno hefyd bobl a phethau i'w hosgoi: 'Places, events, relationships with others may be experienced as butterflies in the stomach, nausea, or may engender a pleasant physical sensation' (Sibley, 1995: 124). Mae'n nodi'r honiadau croes ynghylch amserlen a phoblogaeth y cartref a'r tensiynau sy'n deillio o hynny. Ond wrth gyfeirio at blant sydd allan yn yr awyr agored, mae Chris Philo yn sôn am '... the active, creative and often highly imaginative ways in which rural children colonise, utilise and transform particular niches in their surrounding natural and human environments' (Philo, 1992: 197-8). 'Children often respond more immediately to environmental conditions as they are often freer of the overlay of symbolic, cultural, and past experiences that influence adult relations' (James, 1990: 280). Ac maen nhw'n rhydd i fanipiweiddio'r amgylchedd hwnnw (gweler Ward, 1990: 99). Yn aml, lleoedd sydd yn weddill o fyd oedolion ydyn nhw, yn fannau lle bydd plant yn defnyddio arwynebau a malurion i fodelu'r dirwedd â chuddfannau ac argaeau (gweler Philo, 1992: 198). Byddan nhw'n coloneiddio gofodau rhyfedd a thros dro - rhai a adawyd gan rawd dymhorol a beunyddiol byd amaeth - tir diffaith a chorneli anniben. 'And they spend a remarkable amount of time changing the landscape as they make it their own, not through the legalisms of the adult world, but through their own rites of occupation and experience' (Hart, 1974: 354). Draw o fyd yr oedolion, fe greant encilfeydd a manau byw sy'n perthyn i neb ond iddyn nhw. Y syndod, yn aml, yw mai diben y newidiadau yw creu manau cartrefol clyd: *nythod* o gwmpas y *nyth*.

Dyma'r lleoedd gorau i wneud hyn a'r llall. Y nant sy'n mynd â bryd Ward:

It can be paddled in; turned into a moat in the imagination; crossed by means of stepping stones or home-made bridges; and of course children can simply sit and watch the water or ride their bikes along the muddy banks. (Ward, 1990: 99)

Mannau clyd, manau cyfrin, manau hoff: manau golau a thywyll, cynnes ac oer, manau cyffwrdd ac arogl, manau cysurus ac anghysurus. A manau i gadw draw oddi wrthyn nhw: y bont lle crogodd Herbert Hudson ei hun; y moch canibalaidd yn *Nebraska Farm*; y darn o borfa farw lle cafodd gwas ffarm ei guro i farwolaeth yn oes Victoria; bwthyn y dyn sy'n gwisgo fel menyw. Dyma lle y dechreuwn ni fapio, y dysgwn ni'r ddaearyddiaeth o walliau, drysau, ffenestri a grisiau sy'n uno ac yn gwahanu, yn dadlennu ac yn diogelu: cip drwy ddrws lled-agored ar fyd cyfrin ystafell wely Wncwl Wilf.

Mae hi hefyd yn dirwedd o chwarae ac o arbrofi, lle y crëwn ni fydoedd sydd dan ein rheolaeth ni ein hunain: manau lle y gallwn ni ymlafnio i gyrraedd Pegwn y Gogledd, i ddringo mynyddoedd y lleuad, ac i ddawnsio dawns y cyntefigion ar brynhawn gwlyb. Mae deialog drawsffurfiannol rhwng gweithgareddau plant - yn chwarae a gêmiau - a'r amgylchedd. Gall manylion pensaernïaeth a thirwedd awgrymu natur, math ac ansawdd y chwarae. Fe welir mai manau penodol - coed, perthi, bryniau, dŵr - yw'r lleoedd gorau i gyflawni gwahanol fathau o weithgarwch ynddyn nhw. 'We saw them as remote island refuges, where we could have a kind of tribal independence, and cook, invent, fight and tell tall stories to our hearts' content - or at least until tea-time' (Mabey yn Ward, 1990: 7). Ar y llaw arall, gall plant newid yr amgylchedd mewn ffyrdd real a ffantasiol. Byddan nhw'n adeiladu, yn codi argaeau ac yn chwalu pethau i greu'r amodau amgylcheddol y bydd eu hangen i gyfoethogi eu gweithgareddau. Byddan nhw hefyd yn gweithredu newidiadau ffantasiol yn y meddwl. Gall y gweithgarwch y byddan nhw'n ymwneud ag ef, y dôn nhw ag ef i'r man hwnnw, awgrymu mai yn rhywle arall y digwydd hyn: 'Rwy'n cerdded fel hyn am fy mod i yn yr anialwch.' 'Rwy'n gwisgo bwced am fy mhen am fy mod i'n ymladd yn rhyfeloedd y Croesgadau.' 'Rwy'n chwythu'r awyr allan o 'mochau ac yn chwifio 'mreichiau'n araf am fy mod i ar waelod y môr.'

I remember the feeling of being truly separate from the world of adults and parents for the first time. At the top of the tree my life had become literally my own, dependent on a mixture of skill, agility, judgement and above all risk taking. (Macnaughten, 1998: 232)

Drwy brosesau dysgu dynwaredol a llunio'n llawn dychymyg, 'y filltir sgwâr' yw man cychwyn creu'r hunan; plant fel 'half-opened beings' (Metcalfe a Ferguson, 2001: 241). Dyma lle y byddwn ni'n mynd ati gyntaf i ddywared, ac i ddramateiddio'n bywydau ni a bywydau pobl eraill. A ninnau'n trafod dyfaliadau a sïon, ac achosion o or-ddweud a chleber amherthnasol, fe ddechreuwn ni weu naratifau. Dyma fan darganfod, yn ôl Ned Thomas, '(where) the child first learns everything which is of real importance' (Thomas, 1973: 86): hanfodion tacsonomi - gweithio gyda gwahaniaeth a thebygrwydd, a rhoi

enwau i bethau, pobl a lleoedd. 'Nature yields delectable sensations to the child, with his openness of mind, carelessness of person, and lack of concern for the accepted canons of beauty' (Tuan, 1974: 96). Yma y bydd manylion byd natur yn eu hamlygu eu hunain ac y bydd y plentyn yn graddol ddysgu gwahaniaethu rhwng planhigyn a phlanhigyn; ar y bwrdd natur, mewn rhwyd bysgota, ac yn achos D.J., ar ddiwedd baril.

Ac fel yna, cyn camu dros drothwy'r un ysgol, y dechreuais i ddysgu hanes a daearyddiaeth Sir Gaerfyrddin; ei ddysgu, lawer ohono yn y man a'r lle, wrth ochr fy mam ar sêr y car, a gwranddo arni'n sôn am ddynion a thai a choed a chaeau, am nant ac afon a llyn a welwn ... (Williams, 2001: 66)

Yma, mae'r cof presennol yn un o eiliadau ffurfiannol, yn ddigwyddiadau allweddol ein blynyddoedd cynnar, yn frith o ddyfeisio a dychmygu; o dirwedd a drowyd yn un hanner-mytholegol. Ond tir llithrig fu hwn erioed, yn fan heb iddo ffiniau pendant, lle'r oedd y gorwelion yn cyson ehangu - a hynny'n aml yn sgil dyfodiad cludiant ar bedair olwyn, tair olwyn, dwy olwyn. Yma, roedd ffordd o fyw yn cyson ystumio, chwalu a thorri'n ysgyrion: drwy ymyrraeth dieithriaid a gwesteion di-wahoddiad, megis dyfodiad baban o frawd heb ddim rhybudd yn y byd. Dyfais hanesyddol yw'r darlun hwn eisoes, wrth gwrs, gan fod y tu allan bellach yn frith o bobl a allai ymyrryd â phlant a'u cipio; peth dramatig a diweddar fu'r cilio o'r strydoedd.



Ond wrth gyrchu byd y profiadau cyntaf, mae D.J. yn ymwybodol o broblem datrys dimensiwn amser:

Wrth geisio chwilio'n ôl yng nghelloedd cynharaf y cof a chroniclo'r hyn a geir yno daw rhai anawsterau. Yn gyntaf, y mae ceisio gosod digwyddiadau yn ôl eu trefn hanesyddol yn waith go anodd gan fel y tawdd pob peth i'w gilydd yn y darlun sefydlog hwn sy'n aros mor glir ym meddwl y rhan fwyaf o bobl. Un heddiw diderfyn yw'r cyfan. (Williams, 2001: 2)

Ac o wahanu, yn y lle cyntaf, realiti oddi wrth y dychymyg:

Yn ail, y mae ei ddychymyg, hefyd, yn fyw rhyfeddol yn ystod y cyfnod hwn, a ffaith a ffansi'n gwau'n rhwydd i'w gilydd. O glywed adrodd gan eraill am ryw ddigwyddiad, nifer o weithiau, yn enwedig os y'i hadroddir yn weddol fywiog a dramatig, mae'n bosib i blentyn ddod i greu'n gwbl onest ei fod ef yn y man a'r lle ar y pryd, yn gweld ac yn clywed y cyfan. Dyna pam y mae rhai plant bach o'r tair i'r wch oed, weithiau'n mynd trwy gyfnod o gelwydda arswydus ... (Williams, 2001: 4)

We see and learn from the ways our families live and get their livings; a world of work and of place, and of beliefs so deeply dissolved into everyday actions that we don't at first even know that they are beliefs, subject to change and challenge. (Williams, 1993: 198)

Sut, felly, y gallai'r canfyddiadau hyn oleuo'r broses o greu fy mherfformiadau i fy hun?

Dros y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi sôn llawer am Johnny Dent yr heliwr baeddod, a'r clampiau tatws a'r siediau o garreg galch, a hynny mewn cyfres o weithiau i mi eu perfformio ar fy mhen fy hun, gan gynnwys From Memory, gwaith a gyflwynais gyntaf yn Amgueddfa Werin Cymru ym 1992: atgofion o bobl, lleoedd a digwyddiadau fy mhentyndod. Ond a allai'r nosiynau gofodol hyn sy'n disgrifio 'ymwybyddiaeth o le' yng Nghymru - y gyfres honno o fapiau gwybyddol o amgylch y cartref a'r filltir sgwâr, y fro a'r cynefin, lle caiff gwahanol ddisgyrsiau, gwahanol 'ffyrdd o adrodd stori' eu meithrin - oleuo a chyfeirio gwaith ar fy nharddle i: 'ar garreg fy nrws'; 'yn fy milltir sgwâr i'; yn y man, fel yr awgryma D.J., y dysgais innau ei garu, rwy'n meddwl, cyn i mi ddysgu cerdded?

Ar 25 Ebrill 2000, fe es i am dro ym mhentref Hibaldstow yng ngogledd swydd Lincoln gyda fy mam, fy ngwraig Heike, fy mrawd a'i deulu, fy ewythr Geoff a'm modryb Joan, cefnder fy niweddar dad, sef Pete, a'i wraig Sheila, Margaret, sy'n ffrind i Mam, Marion, fy athrawes yn yr ysgol gynradd, Tony, fy nghyfaill o'm dyddiau ysgol, amryw o drigolion lleol, ac ymwelwyr o Sheffield a Llundain. Dros gyfnod o ddwyawr, fe ymwelson ni â deg man - ysgol, mynwent, nant, cornel stryd ddi-nod. A dyma fi'n sôn: am fy hen wncwl Freddie a gafodd bolio pan oedd yn blentyn ac a fu'n byw mewn carafán ar waelod yr ardd, am sut mae dal gwiniadau barfog, am ddrewdod y dynion carthffosiaeth, am dorri gwair y fynwent, am y Lone Ranger a ... Ac fe eisteddais ar stepen siop sglodion fy nhad-cu, lle y bydden ni - Tony a minnau - yn arfer eistedd a gwylio'r traffig. A cheisiais ddringo wal iard yr ysgol, a sefais yn y nant mewn *Wellingtons*.



Ac fe bwyntiais at y peth yma sy'n dal i oroesi, bedd fy hen fam-gu; at y peth acw a oedd wedi diflannu, y bont droed dros y nant; ac at y peth draw acw a oedd wedi newid, clwyd yr ysgol - clwyd sydd bellach wedi'i llenwi â brics. Ac fe ddygais i gof gyfeillion sydd bellach yn farw. Ac fe ddatgelais ambell gyfrinach deuluol, yn bennaf am Freddie a'i foch. Ac fe gyffyrddais ag arwynebau pethau: gronellfaen meddal wal ffarm. A chynhwysais ambell eiliad o fyfyrddod damcaniaethol, o Gaston Bachelard (1964), Georges Perec (1997) a D.J. ei hun (2001); efallai y dylwn i fod wedi gwneud dim mwy na galw'r erthygl hon yn 'Mynd â D.J. i gwrrd â "Mam"' yn y lle cyntaf. Yn raddol bach, fe ddyfnhaodd fy acen a brigodd fy nhafodiaith i'r wyneb: 'By, she's slaape, duck; put sneck ont doar.'

Cawsai pob un o'm cymdeithion lyfryn bach gwyn ac ynddo ddwy dudalen o sôn am bob un o'r manau lle'r arhoson ni - ynghyd â chyfeirnod map; lleoliad; dyfyniad enigmatig - 'yet another goldfish-in-a-bag' - a lluniau o'r cyfnod. Roedden ni i gyd yn dilyn Bubbling Tom, taith dywys - 'a journey, not an object' (Turner, 2004: 377) - o gwmpas y dirwedd roeddwn i'n ei nabod yn chwech a saith oed, pan symudon ni i'r pentref nesaf - symud a oedd bron cyn bwysiced i mi â'r symud o Benrhiw i Abernant i D.J. - ac yn cerdded fel petai hi'n ddechrau'r 1950au: 'a quest and narrative of return' (Wilkie, 2002: 3). Taith gerdded hamddenol gan oedi yma ac acw i gofio digwyddiadau a phobl o bwys mewn dilyniant o destunau a berfformiwyd ac o sgysiau anffurfiol, a'r ffaith fod y cyfan yn cael ei dywys yn pwysleisio 'the importance of place itself' (Wilkie, 2002: 3) wrth gynulleidfa na fyddai, o bosibl, yn gwybod dim am gonfensiynau arferion cyfoes y theatr.

Roeddwn i wedi llunio ac wedi dysgu testun hir - hynny ynddo'i hun yn gamp i'r cof - ond ar brydiau go brin y gallwn i gael fy mhig i mewn. Byddai pobl yn torri ar fy nhraws i'n gyson - i 'nghywiro, i ychwanegu, i groes-ddweud. A hynny am fod yno rai, bob amser, sy'n ein cofio ni, yn cofio droson ni, yn well nag a wnawn ni'n hunain. A chyn gynted ag y byddwn i'n tewi, dechreuai pawb arall sôn am atgofion eraill o'r union fannau hyn ar adegau eraill gan mai tirwedd eu plentyndod hwythau, lawer ohonyn nhw, oedd hon

hefyd: '... there were murmurs and laughs of recognition, sparking conversations on the walks between stopping places' (Wilkie, 2002: 3). Mae gwaith fel hwn yn ysgogi storïau eraill, a storïau am storïau. Mae'n sbarduno myfyrdod personol ac awydd ar ran y sawl sy'n gwranddo i ddatgelu ei brofiadau ei hun ac aildramwyo'r profiadau sy'n gyffredin i eraill. Mae'n gweithio gyda'r cof: yn codi atgofion parhaus i'r wyneb, yn cyffroi elfennau ategol lled-anghofiedig. Gall ef ddarlunio gwahanol ddwyseddau o brofiadau ar wahanol adegau mewn lleoliad penodol: lle fel palimpsest, wedi'i enwi a'i farcio gan weithredoedd y cyndadau. Ac wrth draethu'r cof, ym moment ei berfformiad, fe all, am ennyd awr, feithrin cymunoldeb dros dro ar draws amrywiol genedlaethau. Onid oedd pob copa walltrog ohonon ni wedi sefyll yn erbyn wal yr un ysgol i gael tynnu'n llun, boed ym 1935, 1955 neu 1975? Onid oedden ni i gyd yn blant yn y lle hwn? Heb i ni allu symud rhyw lawer iawn o'n bro, heb allu dianc, fe fuon ni'n byw'n bywydau o fewn cwmpas yr un dyrnaid o strydoedd. Mae'r ysgolhaig ymweld, Fiona Wilkie, yn tynnu sylw at y gofal a gymerwyd, wrth lunio sgrïpt *Bubbling Tom*, i nodi'r union fannau y digwyddodd pethau: 'In this window'; 'on that door over there'; 'here'; 'there'. Iddi hi, caiff lleoedd eu synied fel petaent yn 'containers (of memories, stories and legends)', yn 'aggregations of metaphorical and physical layers'. Mae darfodoldeb perfformio a materoldeb y lleoliad ynghlwm wrth ei gilydd, a'r naill yn goleuo'r llall.

Yn sgïl mecaneiddio byd amaeth, ymyrraeth y cyfryngau torfol, a'r awch cynyddol i brynu mwy a mwy, cyfnod o ddyheu ac o newid fu'r pumdegau cynnar ym Mhrydain wledig. Ond fe oroesodd yr hen hefyd - pobl ac arferion o oes Victoria a chyn hynny sydd bellach wedi darfod o'r tir. Ac yma mae D.J. yn rhagfynegi fy mhrofiad i fy hun:

Clywswn yn blentyn lawer o siarad am bethau 's lawer dydd, a rhaid fy mod i, yn anymwybodol, wedi gwranddo'n dda arnynt, gan fod toreth o'r cyfryw wedi aros gyda mi ar hyd fy oes. (Williams, 2001: xvii)

Ymhen hir a hwyr, fe gerddais allan, i ffwrdd, ymaith, yn y mudo mawr a ddigwyddodd yn y 1960au, wedi fy hudo gan fflam kannwyll byd addysg, i fod yn fyfyrwr archaeoleg yng Nghaerdydd: 'to submit personal facts, the incidents of a family, to a total record' (Williams, 1993: 6). Es i byth yn ôl: yn wir, fel yr awgryma John Berger, pererindod fawr yr ugeinfed ganrif yw honno o'r pentref i'r ddinas. Rwyf wedi byw fy mywyd proffesiynol mewn man arall, ymhell i ffwrdd, ac weithiau mewn iaith wahanol a oedd yn anweladwy ac yn annealladwy i'r byd a adewais ar fy ôl. Ond wnes i erioed adael Hibaldstow o'm hól yn llwyr. Fwy a mwy, mae fy ngwaith mewn perfformiad wedi trin a thrafod materion y cof a hunaniaeth, lle a thirwedd. Ymboeni rydw i wedi'i wneud â'r 'complex relationship between ourselves, our bodies and our environment, with our physical and sensual experience of place, and in the impact a particular location can have on our lives' (Roms, 1998: 80). Ond mae'r perfformiadau naratif hyn bob amser wedi digwydd mewn man arall, byth yn y man-a'r-llle hwnnw. Byddai'n rhyfedd ac yn amhriodol - ac yn aflonyddu tipyn arna i - petawn i'n gwneud gwaith 'gartref'. Rheswm digon da, felly, i roi cynnig arni - cyn i mi anghofio, a thra bo eraill yn dal yno ac yn dal i 'nghofio i yno.

Crëwyd *Bubbling Tom* o fewn milltir sgwâr benodol ac at y filltir sgwâr honno y cyfeiria. Wrth ei chreu, dechreuais ailymweld â'r lleoedd roeddwn i gynt yn eu hadnabod, ar raddfa wahanol, gan obeithio o hyd ac o hyd y deawn ar draws yr olion roeddwn i

wedi'u gadael yno; y printiau llaw mewn paent gwyn llachar rwy'n cofio'u gadael ar ddrws y sied; yr ystafelloedd y breuddwydiwn ac y synfyfyriwn ynddynd nhw ac sy'n rhoi i ddyn ei fapiau gwybyddol ar gyfer pobman arall. O'i hailddarganfod, defnyddiais y dirwedd honno i'm symbylu i gofio digwyddiadau a phobl a theimladau a synfyfyrion personol: fy adleoli fy hun i le a arferai fod yn gynefin; ailymgorffori, ar raddfa wahanol, y gweithredoedd y cofiwn eu cyflawni: sefyll yn y nant; cynnal ymladdfa â gynnu cowbois y tu allan i dŷ Tony. Chwiliais am gofnodion a ffotograffau ohonof i yn y manau hynny, gan astudio'r manylion, yr osgo a'r safiad, ac yn y pen draw fe es ati i fabwysiadu'r rheiny'n union yn y perfformiad, ar raddfa wahanol, gan dynnu sylw at bopeth sydd wedi newid, ynof i ac ynddo fe. Cofnodais atgofion y rhai a oedd yn fy nghofio i a 'ngweithredoedd tan i mi fod yn wyth oed, yn enwedig atgofion y rhai nad oedden nhw'n aelodau o 'nheulu i, am ddigwyddiadau penodol fel Diwrnod y Coroni ym 1953. Ystyriais batholeg fy nghorff fy hun, fy mhryd a 'ngwedd, fy morffoleg, f'ystum, f'yddygiad, y cyfuniad hwnnw o etifeddiaeth, arfer a chyflyru a gafodd eu meithrin yn y dirwedd honno: sut mae 'mhennau gliniau'n dal i fwrw ychydig yn erbyn ei gilydd, sut y bydd fy nwylo'n cydio yn ei gilydd fel y gwnâi dwylo fy nhad. Meddyliais hefyd am greithiau corfforol am fod y corff yn dwyn olion ei hanes arno a bod y croen yn fap o ddamweiniau ac anafiadau. Uwchben fy llygad dde mae'r cwt lle syrthiais ar stepen y siop sglodion wrth gario potel o lemonêd. Does gen i ddim cof o'r digwyddiad ond, wrth gwrs, mae eraill, er prinned ydynt bellach, yn cofio drosaf i. Mae'r graith yn dal yno, yn dipyn o gysur bod amser wedi mynd heibio. Ac fe gesglais wrthrychau, cylllell fy nhad, tegan o wn, ac ar bob un ohonyn nhw olion amser a defnydd. A cheisiais ddwyn i gof yr holl ddigwyddiadau dirprwyol, y trothwyon, y mynd a'r dod sy'n britho'n bywydau. Edrychais ar fapiau, gan weld y lle oddi uchod, ac ar ffotograffau, gan fy ngweld i ynddynt hwythau'n awr. Gweithiais gyda thameidiau, gydag olion materol, gyda thystiolaeth, i greu rhywbeth, ystyr, naratif, stori, sy'n cynrychioli ddoe heddiw. Y sylw hwn i gof mewn prosiect cyfoes, heb ofni na rhamantiaeth feirniadol na hiraeth, a arweiniodd at ysgrifennu gwaith.

Wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, fe ysgrifennodd Walter Benjamin yn ei draethawd, 'The Storyteller':

Less and less frequently do we encounter people with the ability to tell a tale properly. More and more often there is embarrassment all around when the wish to hear a story is expressed. It is as if something inalienable to us, the securest among our possessions, were taken from us: the ability to exchange experiences. (Benjamin, 1999: 83)

Ond mae D.J. yn dal i ddod o hyd i botensial. Ac yntau'n dal i fod yn blentyn bach ar ben-lin John Ifans Bryndafydd Isa, fe ddisgrifiai '... hanes popeth a wyddwn' (Williams, 2001: 14).

Anhepgor cyntaf yr hunan-gofiannydd yw cof da. Yr ail yw'r hunanhyder talog hwnnw a bair i ddyn gredu fod yr hyn sydd o ddiddordeb iddo ef yn rhwym o fod o ddiddordeb i bawb arall, hefyd. A'r trydydd yw dewrder, didwylledd, neu ynteu ryw fath o symlrwydd cynhenid a'i gwna hi'n hawdd iddo wisgo'i galon ar ei lawes. (Williams, 2001: 164)

Dawn D.J. oedd gwrthbrofi gosodiad Freud bod cynneddf ynom ni i anghofio popeth hyd at chwech oed. Fy nod i fy hun oedd dyfeisio 'ffyrdd o adrodd stori' sy'n agos-atoch ac yn fyfyrion, sy'n cymysgu gwybodaeth ddefnyddiol - am fanylion brodorol, pobl, digwyddiadau - â phleser yr adrodd, sy'n gallu cynnwys anecdotau, cyfrinachau a straeon celwydd golau, sy'n fy ngosod i wrth galon y digwyddiadau, fel y storiwr a phwnc y stori, ac sy'n dramateiddio'r 'gorffennol cyfarwydd'. Ac fe ddigwyddodd hyn yn ystod fy mhentyndod i ar adeg pan oedd cyfathrebu wyneb-yn-wyneb yn dal i fod yn bwysig a lle gellid dweud bod '(e)veryone in the community is joined to everyone else by a mesh of stories and incidents if not by family relationships' (Thomas, 1973: 85), a lle byddai fy mam a'm mam-gu'n hel clecs yn feunyddiol. Roedd eu technegau'n hynod soffistigedig: yn uchel, yn isel, yn rhethregol, yn areithyddol, yn fud. Ond doedd dim gronyn ohono'n faleisus nac yn ddifäol. Roedd hi'n ffordd o ddal ynghyd gorff enfawr o wybodaeth - yn hanesion, yn ddaearyddiaethau, yn achau. Fe wydden nhw pwy oedd yn byw ymhle, pwy oedd yn perthyn i bwy, beth oedd yn digwydd, dros ugeiniau o filltiroedd sgwâr. Yno y dysgais y patrymau rhyngdestunol mwyaf soffistigedig hynny a allai symud ar amrantiad o faterion patholeg a hinsawdd i seicoleg heb ymdrech na bwch, yn llawn chwilfrydedd, yn ddigon parod i fynegi barn, neu heb hidio'r un iot. Yn y gegin - man y moli a'r marwnadu - clywais gymeradwyo ac anghymeradwyo chwedlau'r teulu a thraddodiadau'r gymdeithas; straeon a adroddwyd soto voce dan sibrwd, safbwyntiau a leisiwyd yn agored wrth greulon fyd; digwyddiadau, hanes bywydau pobl, unigolion yn 'dweud eu dweud' gan lunio ac ail-lunio'u straeon yn ddi-ben-draw. Yma, felly, lle y meithrinwyd fy 'ymwybyddiaeth o le', y meithrinwyd yr un pryd fy 'ffyrdd o adrodd stori'. 'Ac fel troi tap pan fyddo cron y dŵr yn rymus, felly'n union o roi cyfle iddynt, y daw i mi lif o atgofion am bethau bychain ...' (Williams, 2001: 14).



Yr atyniad ynddo yw llais y perfformiwr - yn sgwrsio, yn darlithio, yn adrodd, yn traethu, yn hudo - gan amrywio a dwysáu cyflymder, tön, sain, rhythm a phwyslais y dweud. A'r acen, wrth gwrs. Dyma lle, yn yr hyn y mae Roland Barthes yn ei alw'n 'raen' y llais - 'the materiality of the body speaking its mother tongue' (Barthes, 1977: 182) - y daw'r stori'n fyw. Bydd ymarfer lleisiol yr adroddwr felly'n denu ac yn ail-ddenu'r gynulleidfa â

deunydd sy'n gynefin o gyfarwydd ac yn anhraethol o anghyfarwydd, mor gyfarwydd â'u hanes nhw eu hunain neu mor egsoftig â golygfeydd ac aroglau dieithr disgrifiad y sawl fu'n fforio gwledydd pell y byd: gweithio gyda thameidiach, olion materol, tystiolaeth i greu rhywbeth - ystyr, naratif, stori - sy'n cynrychioli ddoe heddiw, sy'n amgáu'r cof mewn prosiect cyfoes, heb ofni na rhamantiaeth feirniadol na hiraeth, er, fel y noda Raymond Williams, 'Nostalgia is universal and persistent; only other men's nostalgias offend' (Williams, 1993: 12). Gall fod llawer iawn o ryngdestunoleb, o ddeialog rhwng testunau, i fonolog yr adroddwr storïau. Gall gwmpasu'r tameidiog, y crwydrol, yr amwys, y trawsfeddianedig, eu cyfosod a'u croes-ddweud; gan blethu ynghyd hanes, daearyddiaeth, achau, atgofion a hunangofiant a chan gynnwys barddoniaeth, gwybodaeth ffrensig, dyfyniadau, celwyddau, jôcs, sylwadau byrfyfyr wrth-fynd-heibio, actio, chwarae rhannau gwahanol gymeriadau, a lleisio myfyrdodau personol wrth geisio dal diddordeb y gwrandawr: 'the collection process disperses any ownership of memory across a range of sources of varying levels of authority' (Wilkie, 2002: 6).

Er hynny, gadawodd natur anffurfiol ac achlysurol-ddamcaniaethol testun *Bubbling Tom*, a'i eiliadau penodol o fynegi amheuaeth, le i'r unigolyn fyfyrrio, 'gaps in its fabric' (Wilkie, 1993: 1), a photensial i ddeialog ac anghydfod, ac ebychiadau'r gynulleidfa'n troi'n rhan o wead perfformiad y câi ystyr ei negodi'n gyson ynddo. Gan gydnabod mai ymwelydd oedd hi, mae Wilkie'n nodi gwahanol 'horizons of expectation' (Wilkie, 1993: 3) a gwahanol lefelau'r dwyn-i-gof a geir mewn perfformiad mor ddiymhongar i'r gwahanol garfanau sy'n cymryd rhan ynddo. Mae hi'n awgrymu ymhellach i mi symud, yn *Bubbling Tom*, rhwng sawl cywair; fel tywysydd, rhoddwn gyfarwyddiadau; fel 'mab a chyfaill', siaradwn yn anffurfiol wrth fynd o fan i fan; fel perfformiwr, arddangoswn dechneg cyflwyno ac amseru; fel sylwebydd, brithwn f'atgofion personol â dyfyniadau o waith awduron eraill, gan dynnu 'other places into the mnemonic archaeology of Hibaldstow' (Wilkie, 1993: 6).

Fy amcan oedd dyfeisio modd o berfformio a ddefnyddiai rethreg syml â'r dwylo: dangos, arddangos, lleoli a siapio manylion darn o 'ysgrifennu' nad oedd ar wahân i'r 'adrodd stori'. Dull agos-atoch-chi, anffurfiol, ar ymyl y perfformiad ei hun.

Mae Michael Shanks, sydd bellach yn Athro'r Clasuron ym Mhrifysgol Stanford, a minnau wedi dweud mai bwriad ein rhaglen yw creu digwyddiadau byw lle daw archaeoleg a pherfformiad ynghyd i alw ar y gorffennol, i wneud defnydd creadigol o'i wahanol dameidiau, i ffurfio cof diwylliannol o wahanol ddiddordebau ac olion, wrth ddatblygu ecolegau diwylliannol (gan berthnasu gwahanol feysydd o brofiad cymdeithasol a phersonol yng nghyd-destun diddordebau amrywiol a chroes) ac i roi - ar y cyd - sylw i safleoedd a themâu penodol, iddyn nhw gael bod yn adnodd o bwys wrth lunio a bywhau hunaniaethau cyfoes - rhai personol, diwylliannol a chymunedol. I wneud hynny, rhaid wrth ddiffiniad ehangach o'r gwrthrychau y gellid eu galw i gof, wrth ymagweddau newydd at gymeriadu ymddygiad a gweithred, wrth wahanol ffyrdd o adrodd stori, ac wrth wahanol fathau o gofnodi ac arysgrifio, a'r rheiny'n gallu ymgorffori gwahanol lefelau o naratif: adlunio dogfennau, adfeillion, ac olion yn ddigwyddiad mewn amser go-iawn. Gall hyn gynnwys perfformiad ffurfiol a chelfydd ei gyfrwng ynghyd â theithiau tywys syml o amgylch manau darfodedig fel *Bubbling Tom*. Mae ystumiau perfformio o'r fath yn fodd i broblemateiddio ac integreiddio safle'r arsylwr

- drwy ddyfeisiau fel naratif person-cyntaf - wrth geisio gwneud synnwyr o rywbeth nad oedd mor glir â hynny yn y lle cyntaf beth bynnag.

Fe allwn i alw *Bubbling Tom* yn waith o archaeoleg bersonol. Ond y tu hwnt i'r trosiad, rwy'n credu ei fod yn cynnig cyfraniad tuag at ddatblygu'r syniad o 'archaeolegau'r gorffennol cyfoes'. Gallai gwaith o'r fath ddangos - i'r dychymyg poblogaidd - sut rydyn ni ein hunain a'n cynefin yn rhan o'r broses hanesyddol, sut mae gwahanol elfennau diwylliant materol yn bod o fewn gwahanol lwybrau amser ('Yr oedd bryd hynny, y mae yn awr ac ar hyd yr amser rhyngddynt'), a'r ffyrdd yr ydym ni'n cyson gynhyrchu'r cofnod archeolegol. Mae'n dadlennu mai'r cof - y cof byw - yw un o brif amcanion y galw i gof, ac yn astudio'r curaduro cymhleth ar y cof ei hun. Mae'n tynnu sylw at natur aml-amserol y presennol: sut y gwnawn ni farciau dro ar ôl tro - y treuliwn ni batrymau o amgylch drysau a marciau taro yn erbyn sgertins, a chyttau, crafiadau, staeniau, rhwbiadau, printiau sydd oll yn tystio i bresenoldeb ac i absenoldeb. Mae marciau o'r fath yn dangos sut y mae gweithredoedd cyson wedi llunio'r lle: arwyddion o fynd a dod pobl, o berfformiad bywyd bob dydd - canlyniad i weithredoedd beunyddiol, traddodiad, damwain; digwyddiad a defod gymdeithasol; symudiadau, eiliadau, a chyfarfyddiadau. Mae i hyd yn oed y set fwyaf di-nod o amgylchiadau ddyfnder neu ddwysedd: cymeriad y lle. Mae'r stepen wedi'i threulio, mae'r ysgubor yn syrthio i'r llawr, a go brin y sylwn ni: yr anfwriadol; y digwyddiad ar hap; cyffyrddiad agos a digynllun hanes yn mynd heibio. Ond mae cydnabod hynny'n dibynnu ar edrych arnyn nhw mewn ffyrdd ar osgo a sylwi ar weadwaith a manylion. O graffu arno, mae'r hyn sydd, o edrych arno ar un raddfa, i'w weld yn ddigon di-nod, mewn gwirionedd, yn frith o fanylion, yn haenau o addurn a newid sy'n llercian yn y cartrefol a'r cyffredin. Bydd yn tynnu sylw hefyd at y ffyrdd y bydd prosesau ffurfio arferion yn gadael eu hól arnon ni, sut y daw'r tŷ y cawson ni'n magu ynddo yn rhan ohonon ni a sut y cariwn gyfnodau o'n gorffennol gyda ni: o ddewisiadau a dyheadau gan ein hynafiaid sy'n dod â ni i'n dydd ni heddiw, i'r storfa o anecdotau a straeon teuluol am ddigwyddiadau ers talwm sydd bellach ar fin troi'n ddim ond stori.

Go brin fod rhyw lawer mewn perygl mewn gwaith syml fel *Bubbling Tom*, ond gallai pethau o werth - cymunoldeb, cyfathrebu rhwng y cenedlaethau, ymwybyddiaeth o le - fod yn y fantol. Mae'r gwaith hwn yn galw'r gorffennol i gof gan ddal drysau'n agored: mae ei ffurf ddeialogaidd - er mai damweiniol yw hi - yn agor y dehongli i lu o leisiau: try cynrychioli'n negodi; try'r personol yn wleidyddol; y corff fel safle.

Wrth gwrs, allwn i byth wneud *Bubbling Tom* yng Nghymru: mae gen i berthynas y mewnfudwr â lle a chymuned yma: o ysu am gael perthyn, ac eto ysu lawn cyn gryfed am ddal gafael ar rywbeth, a rhywle, arall. Ond rwyf wedi bod yn ffodus yn fy mhrofiadau diwylliannol yng Nghymru, wrth ddarganfod D.J. Williams (a phopeth arall), er mai prin y galla' i ddychmygu'n union sut y byddai yntau wedi teimlo ynghylch byw, yn y pen draw, mewn pentref yn Lloegr. Hoffwn awgrymu fod i'w strategaethau o naratif a chyfansoddi a dramayddiaeth - o *parataxis*, *hypotaxis*, *katachresis* - eu gwerth o hyd ac y gallen nhw eto gael eu mynegi'n fwyaf effeithlon yn y perfformiadol, ac nid, bellach, yn rhan o ddelfryd iwtopaidd UNESCO, efallai, ond mewn gweithredoedd bach o wrthsafiad lleol i elfennau gormodol y diwylliant byd-eang a gyfryngir i ni.

A than chwerthin llawer yn y gwyll, dechreuodd grŵp o bentrefwyr a gwesteion chwilio a phwyntio a chynnig barn awdurdodol ac arbenigol - pa mor dros-dro a pha mor amodol bynnag ar fod yn bresennol yma, heno, ar ôl iddynt fynd drwy brofiad penodol, ar ôl cronni math penodol o wybodaeth, a chael caniatâd - mewn man nad ydyn nhw wedi ymweld ag ef ers blynyddoedd, man y gallan nhw, o bosib, fod heb ymweld ag ef erioed o'r blaen.

By the end of the event, *Bubbling Tom* itself becomes a symbol within the performance of the same name, standing for competing and conflicting memories, local lore, and the displacement of 'truth' in terms of remembering. The reference to this local spring in the performance title (heightening its importance when it does 'appear' at the end, having not been mentioned during the rest of the performance) draws on the trope of the journey as quest; in this case, the quest is both for *Bubbling Tom* and for the memory of a childhood place.

"They say if you drink from *Bubbling Tom* you'll always come back. I don't think I ever did ... probably because I was never quite sure where it was. All that's left then is to have a big argument as to where it really is." (Pearson, 2000)

Pearson's final words are at once an invitation to try to remember and to recognise that you don't, or can't remember or that your memories differ from those of someone else. This final moment, therefore, points ultimately to the failure of memory by creating a possibility for dispute about the past. (Wilkie, 2002: 7)

Bubbling Tom oedd y tro cyntaf erioed i fy mam fy ngweld i'n perfformio.

Cydnabyddiaeth

Seiliwyd yr erthygl hon ar bapur a gyflwynwyd yn Saesneg yng nghynhadledd gyntaf *Cyfrwng*, ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, ar 18 Ebrill 2004. Tynnwyd y lluniau gan Hugo Glendinning.

Llyfryddiaeth

Bachelard, G., *The Poetics of Space* (Efrog Newydd, 1964)

Barthes, R., *Image Music Text* (Llundain, 1977)

Benjamin, W., *Illuminations* (Llundain, 1999)

Hart, R., 'Children know best', *Landscape Architecture*, 65, 5 (1974), 354-5

James, S., 'Is there a "place" for children in geography?' *Area*, 22, 3 (1990), 278-83

- Macnaghten, P. a Urry, J., (goln.), *Contested Natures* (Llundain, 1998)
- Metcalfe, A. a Ferguson, L., 'Half-opened being' yn May, J. a Thrift, N., (goln.), *Timespace: Geographies of Temporality* (Llundain ac Efrog Newydd, 2001)
- Pearson, M., 'Bubbling Tom', yn Heathfield, A., (gol.), *Small Acts: Performance, the Millennium and the Marking of Time* (Llundain, 2000)
- Perec, G., *Species of Spaces and Other Pieces* (Harmondsworth, 1997)
- Pearson, M. a Shanks, M., *Theatre/Archaeology* (Llundain ac Efrog Newydd, 2001)
- Philo, C., 'Neglected rural geographies: a review', *Journal of Rural Studies*, 8, 2 (1992), 193-207
- Roms, H., 'Making Landscapes', *Planet*, 126 (1998), 79-92
- Sibley, D., 'Families and domestic routines: constructing the boundaries of childhood', yn Pile, S. a Thrift, N., (goln.), *Mapping the Subject: Geographies of Cultural Transformation* (Llundain ac Efrog Newydd, 1995)
- Thomas, N., *The Welsh Extremist (Tal-y-bont, 1973)*
- Tuan, Y-F., *Topophilia: A Study of Environmental Perception, Attitudes, and Values* (Englewood Cliffs, 1974)
- Turner, C., 'Palimpsest or potential space? Finding a vocabulary for site-specific performance', *New Theatre Quarterly*, 20, 4 (2004), 373-90
- Ward, C., *The Child in the Country* (Llundain, 1990)
- Wilkie, F., 'Archaeologies of memory: Mike Pearson's *Bubbling Tom*', papur heb ei gyhoeddi (2002)
- Williams, D.J., *Hen Dy Ffarm* (Llandysul, 2001)
- Williams, R., *The Country and the City* (Llundain, 1993)

Gwennan Mair Schiavone

**Llais y genhades Gymreig,
1887-1930**

GWERDDON

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyfrol I, Rhif 1, Ebrill 2007 • ISSN 1741-4261

Llais y genhades Gymreig, 1887-1930

Gwennan Mair Schiavone

Crynodeb

Gyda lawnsio'r rhifyn cyntaf o *Gwerddon*, gwelwn gyfnodolyn Cymraeg sy'n gwthio ffiniau'r traddodiad print Cymreig. Y mae yng Nghymru draddodiad cryf o gyfnodolion Cymreig, a bydd *Gwerddon* yn awr yn sefyll yn gadarn yn gyfraniad cyfoes i'r traddodiad hwnnw. Dros ganrif a hanner yn ôl gwelwyd hefyd ohebiaeth o fath newydd yn cyrraedd cartrefi Cymru. Drwy gyfrwng y wasg, daeth y gynulleidfa Gymreig i gyffyrddiad â'r wlad fawr honno yn y Dwyrain - India. Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Calfniaidd Cymreig oedd craidd y cyswllt hwn, a thrwy gyfrwng ei chyhoeddiadau daeth y gynulleidfa Gymreig, ac yn arbennig felly'r gynulleidfa Bresbyteraidd Gymreig, i wybod am ei gwaith, a daethant i gyswllt â'i chenhadon. Drwy gyfrwng yr ohebiaeth, daethant i adnabod gwlad a diwylliant newydd.

Sefydlwyd y Genhadaeth Dramor yng Nghapel Rose Place, Lerpwl, ym mis Ionawr 1840, ac yn y flwyddyn ddilynol, ar yr 22ain o Fehefin, cyrhaeddodd Thomas Jones - yn genhadwr cyntaf y Genhadaeth - ei faes ym Bryniau Khasia, yng ngogledd-ddwyrain India. Ym 1850, ehangwyd y maes cenhadol i Wastadedd Sylhet dan ofal y Parchedig William Pryse. Daeth y gwaith hwn ar y Gwastadedd i ben fodd bynnag ym 1872, hyd nes yr anfonwyd John Pengwern Jones, a'i wraig, a Miss Sarah A. John - cenhades gyntaf y Genhadaeth - i ailafael yn y gwaith ym 1887. Ymhen deng mlynedd ehangwyd y maes ymhellach i gynnwys Bryniau Gogledd Lushai, ac ym 1905 mabwysiadwyd Bryniau Gogledd Cachar yn faes ychwanegol. Parhaodd gweithgarwch y Genhadaeth hyd at ganol y 1960au, a thros gyfnod o ganrif a mwy yn oes y Genhadaeth daeth ei gwaith yn fyw i Gymru drwy gyfrwng y Wasg Genhadol. Er mai hanes gwaith ar gyfandir pellennig sydd gennym yma, y mae'r hanes hwnnw yr un mor berthnasol ac yr un mor greiddiol i hanes Cymru yn ganolog. Roedd y cenhadon eu hunain yn gweithredu'n uniongyrchol yng ngogledd-ddwyrain India, ond yr hyn sy'n allweddol i'w sylweddoli yw'r ffaith eu bod ar yr un pryd yn 'weithredol' yng Nghymru. Cenhadaeth Gymreig oedd hon ym mhob ystyr, cenhadaeth a reolid gan Bwyllgor yn ninas Lerpwl, a chenhadaeth a ariennid fwy neu lai yn gyfan gwbl gan Eglwysi'r enwad Cymreig.¹ Yr oedd y Genhadaeth a'r cenhadon eu hunain yn rhan o brofiad y gynulleidfa hon, a'r llinyn cyswllt rhwng y cenhadon ar y maes, a'r Eglwys a'i chynulleidfa gartref yng Nghymru yn cael ei feithrin a'i gynnal drwy gyfathrebu uniongyrchol o'r naill gyfandir i'r llall.

Er mor fawr ac mor gymhleth oedd gweithgarwch y cenhadon ar y maes cenhadol ei

¹ Yr Eglwys a'r Gyfundeb ei hun oedd yn gyfrifol am y gyfran helaethaf o'r nawdd a gyfrannwyd tuag at sefydlu a chynnal y Genhadaeth. Serch hynny, dros gyfnod ei gweithgarwch, gwelwyd cyfraniadau o du Cymry alltud yn America, ac yn ogystal gwelwyd cyfraniadau - mewn arian ac mewn eiddo - o du'r Llywodraeth Brydeinig ar y maes cenhadol ac o du rhai o'r brodorion eu hunain.

hun, yr oedd gan y cenhadon ddyletswydd ddeublyg i'w chyflawni - yn ogystal â chludo Methodistiaeth Galfniaidd Gymreig i'r gymdeithas honno 'a drigai mewn tywyllwch' yn India, yr oedd ganddynt gyfrifoldeb i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn Lerpwl a chyflwyno eu gwaith i'r gynulleidfa Gymreig mewn modd a fyddai'n sicrhau eu diddordeb ac yn cynnal y fflam genhadol yn eu plith.² Yr oedd diogelu a chynnal y cyswllt hwn yn rhan ganolog o'r gwaith ers ei ddechrau, ac er bod y cenhadon, yn sgil eu penodiad, yn cyflwyno eu hunain i wasanaeth tramor am oes yn enw'r Genhadaeth, nid mudwyr parhaol mohonynt. Yr oedd yn orfodol iddynt gadw cyswllt rheolaidd drwy lythyr ac adroddiad, ac yr oedd yn rhaid iddynt ddychwelyd i Gymru am gyfnodau o 'ffyrlo' - seibiant o'r maes - ar derfyn cyfnodau penodol o wasanaeth. Roedd y rheolau hyn wedi eu hamlinellu'n eglur, a'r cenhadon eu hunain yn ymwybodol fod ganddynt gyfrifoldeb dros ddwy wlad, a thros ddwy gynulleidfa yn ystod cyfnod eu gwasanaeth. Roedd cyfnodau o ffyrlo yn darparu llwyfan uniongyrchol i'r cenhadon gyflwyno eu hunain, a hyrwyddo eu gwaith drwy apêl bersonol. Byddai eu darlithoedd a'u pregethau gerbron yr eglwysi yn cael eu hysbysebu'n frwd a'u mynychu gan gynulleidfa oedd niferus, a'r 'Arddangosfeydd Cenhadol' a gynhelid yn cynnig llwyfan pellach i arddangos eu gwaith mewn modd gweledol a thrawiadol.

Serch hynny, nid yr ymddangosiadau personol hyn oedd prif gyfrwng y gohebu, ac er bod y gwaith hwnnw'n gyson ac yn dra effeithiol, nid oes amheuaeth mai'r prif lwyfan cyhoeddus i waith y Genhadaeth ydoedd ei gohebiaeth yn y wasg genhadol. Y wasg genhadol oedd prif wyneb cyhoeddus y Genhadaeth yng Nghymru, a thrwy gyfrwng ei thudalennau gwelwyd y cyfathrebu llawnaf a mwyaf cyson oddi wrth y gweithwyr ar y maes. O fewn y tudalennau hyn y ceir yr agoriad helaethaf i weithgarwch y Genhadaeth, a rhwng cloriau'r cyfnodolion hyn cawn ein tywys nid yn unig i ddeall nod a gwaith y Genhadaeth, ond cawn hefyd fynediad i fywyd y cenhadon eu hunain ar y maes.

Roedd y wasg genhadol yn cynnig cyfraniad arbennig i waith a datblygiad y Genhadaeth Dramor, a thros gyfnod yr anturiaeth gwelwyd y wasg yn datblygu'n gynyddol yn rhan greiddiol o'r gwaith. Drwy gyfrwng y cyhoeddiadau hyn y daeth yr achos cenhadol yn wirionedd byw, ac yn ganolog i fywyd y gynulleidfa Bresbyteriaidd Gymreig. Roedd dau brif gyhoeddiad drwy gyfrwng y Gymraeg a oedd yn gyfrifol am bresenoldeb y Genhadaeth yng Nghymru.³ Ar ei enedigaeth, cyfnodolyn *Y Drysorfa* a gynigiai'r llwyfan cyntaf i'r gwaith mewn print cyhoeddus.⁴ Cylchgrawn

² The Welsh Calvinistic Methodists' Foreign Mission, *General Regulations for the Guidance of the Directors and Missionaries. Adopted by the General Assembly held at Rhyl, May 25-27, 1897* (Salford, 1897).

³ Yr oedd cyfnodolion Saesneg yn cylchredeg yn ogystal, sef *The Treasury* - a oedd fwy neu lai yn gyfieithiad o'r *Drysorfa*, a *Glad Tidings* - cylchgrawn cyffelyb i'r *Cenhadwr*.

⁴ Sefydlwyd cyfnodolyn *Y Drysorfa* yng Nghymdeithasfa Caernarfon ym mis Medi 1830. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o Wasg Parry yng Nghaerllion ym mis Ionawr 1830, ac fe'i cyhoeddwyd yn fisol o dan yr enw yma, hyd nes yr unwyd ef â'r *Dysgedydd* - misolyn yr Annibynwyr - ym 1968, i ffurfio cylchgrawn cydenwadol newydd o'r enw *Porfeydd*. Gweler *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* t. 202-3. Am ymdriniaeth fanylach ar y cyfnodolyn a hanes y wasg Gymreig yn gyffredinol yn y cyfnod gweler Huw Walters, *Llyfryddiaeth Cylchgronau*

misol enwad y Methodistiaid Calфинаidd oedd *Y Drysorfa* ac ym 1847 gwelwyd cynnwys adran 'Y Cronicl Cenhadol' fel adran ar wahân o fewn *Y Drysorfa* er mwyn rhoi llwyfan penodol i ohebiaeth y Genhadaeth Dramor. O fewn yr adran hon gwelwyd adroddiadau rheolaidd ynghylch y gwaith cenhadol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag adroddiadau am weithrediadau'r enwad, newyddion crefyddol a thrafodaethau diwinyddol ac athrawiaethol eraill. Yr oedd yr adran, neu'r atodiad hwn, yn cael ei gyhoeddi fel 'cylchlythyr' ar wahân yn ogystal.

Yn ddiweddarach, gwelwyd cyhoeddi cyfnodolyn, neu gylchgrawn, gan yr Eglwys Bresbyteraidd yn benodol ar gyfer gohebiaeth y Genhadaeth Dramor, sef *Y Cenhadwr*. Argraffwyd y rhifyn cyntaf o'r *Cenhadwr* ym 1922 ac fe ymddangosodd yn fisol yn ddi-dor hyd 1974 gan gynnig llwyfan uniongyrchol hynod o werthfawr i'r Achos Cenhadol gerbron y gynulleidfa Gymreig. Gyda dyfodiad y cyfnodolyn hwn, cyflwynwyd y gwaith cenhadol mewn modd amrywiol drwy gyfrwng adroddiadau byr yn cyflwyno hanes datblygiadau a digwyddiadau penodol ar y maes. Roedd yn cynnig cyflwyniad i iaith, arferion a diwylliant y brodorion; portreadau o'r cenhadon eu hunain; ynghyd â defnydd cyson o ddeunydd ffotograffig a gyfrannai'n fawr tuag at adnabyddiaeth y darllynydd o'r gwaith a'r gweithwyr eu hunain ar y maes.

Bu'r *Cenhadwr* a'r *Drysorfa* yn offerynnau hynod o effeithiol a chwbl hanfodol i sicrhau ffyniant a datblygiad y Genhadaeth. Drwy gydol y rhifynnau, yr hyn a welir yw ymgais y Cyfundeb i fagu diddordeb y gynulleidfa yn yr Achos drwy gyflwyno'r maes, a cheisio dod â'r cyfan yn rhan o'u dychymyg, ac yn rhan o'u bywydau. Yr hyn sy'n drawiadol, ac sy'n ychwanegu trywydd diddorol iawn i ystyriaeth o'r cyhoeddiadau hyn, yw'r ffaith mai'r menywod a benodwyd yn genadesau a oedd yn gyfrifol am y mwyafrif helaeth o'r ysgrifau a gyhoeddwyd yn y naill gyfnodolyn a'r llall. Gyda phresenoldeb cynyddol menywod sengl fel cenadesau ar y maes cenhadol o'r 1890au ymlaen, gwelwyd presenoldeb cynyddol yng nghyfran eu gohebiaeth yn y wasg. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif ymddengys mai'r cenadesau oedd prif ohebwyr y Genhadaeth Dramor. Eu hargraffiadau a'u hymateb hwy i'r gwaith cenhadol a'u presenoldeb yn India oedd y rhan helaethaf o'r erthyglau a gyhoeddwyd yn y wasg genhadol. Geiriau a delweddau o enau'r cenadesau hyn oedd yr wyneb a gyflwynwyd i'r gynulleidfa gartref, ac wrth edrych yn fanylach ar eu hysgrifau, canfyddir fod llawer mwy ymhlyg yn eu geiriau nag adroddiadau arwynebol o'r gwaith yn unig. O fewn y llythyrau a'r erthyglau, ceir dim llai nag ymdreiddiad dwfn i fywyd a phrofiadau'r menywod eithriadol hyn, a'r cyfan wedi ei gyflwyno mewn modd cynnil, ond hynod o gydnaws a thrawiadol.

Roedd y cenadesau hyn yn ffigyrau eithriadol yn y cyfnod wrth iddynt dderbyn cyfleoedd a oedd ymhell y tu hwnt i'r hyn a oedd yn agored i'r fenyw yn gyffredinol yng Nghymru'r cyfnod.⁵ Trwy law'r Genhadaeth, plannwyd y cenadesau mewn swyddi o

Cymreig 1735-1850 (Aberystwyth, 1993); a Huw Walters, *Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig 1850-1900* (Aberystwyth, 2003).

⁵ Am ymdriniaeth gyffredinol ar hanes menywod yng Nghymru yn y cyfnod gweler Angela V. John (gol.), *Our Mothers' Land - Chapters in Welsh Women's History 1830-1939* (Caerdydd, 1991); Deirdre Beddoe, *Out of the Shadows - A History of Women in Twentieth-Century Wales* (Caerdydd, 2000); Deirdre Beddoe, *Back to Home and Duty: Women Between the Wars 1918-*

statws ar y maes cenhadol - yn athrawesau, yn nyrsys, yn fydwragedd ac yn weithwyr cymdeithasol; roedd gan y menywod hyn waith pwysig i'w gyflawni. Roeddent yn sefydlwyr ysgolion, ysbytai, a chartrefi i wragedd a phlant amddifad, yn ddiwygwyr cymdeithasol, ac yn rhan o gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch datblygiad a dyfodol y gwaith. Roeddent hefyd, wrth gwrs, yn efengylwyr - yn lledaenu'r gair o ddrws i ddrws, ac yn bregethwyr gerbron cynulleidfaoedd o ddynton a menywod, o bob oed a gallu - mewn capel, ac mewn gwasanaeth awyr agored. Dyma fenywod a enillodd i'w hunain statws cydnabyddedig o fewn cylch crefyddol caeth yr Eglwys Bresbyteriaidd, a hynny ddegawdau cyn bod y fath gyfleoedd yn datblygu i fenywod o fewn yr Eglwys yng Nghymru ei hun. Wrth gwrs, saif y ddadl nad yw'r menywod hyn i'w cymharu â'u cyfoedion yng Nghymru, gan mai 'dramor' y daeth y cyfleoedd hyn iddynt, ond eto, nid 'alltudion' oeddent. Y mae'r cenadesau yn perthyn i hanes Cymru gan mai yno y seillwyd ac y rheolwyd eu gwaith, ac roedd eu cysylltiad clòs â'r wlad trwy bresenoldeb a phrint yn cadarnhau mor ganolog oedd eu rôl yng Nghymru yn ogystal. Rhaid dod â hanes y Genhadaeth a'i gweithwyr yn ôl i brif ffrwd hanes Cymru, ac mae'r wasg genhadol, fel ag yr oedd yn nyddiau'r Genhadaeth ei hun, yn cynnig allwedd berffaith i ddilyn rhan o'r cyswllt hwnnw, ac yn cynnig cyfraniad arbennig yn yr achos hwn tuag at hanes menywod Cymru yn y cyfnod.

Wrth edrych yn benodol ar ysgrifau'r cenadesau o fewn y cyfnodolion hyn, cawn flas ar eu profiadau hwy dan glogyn y Genhadaeth Dramor. Gyda'u cyfraniad i'r rhifynnau hyn, gwelwyd mor ganolog oedd y cenadesau yn hanes y gwaith, ac mor allweddol ydoedd eu gohebiaeth er mwyn ennyn cefnogaeth a nawdd y gynulleidfa Gymreig. O fewn naratif yr ysgrifau, gellir canfod llais uniongyrchol y genhades, ac mae'r llais hwnnw'n llunio delwedd yn nychymyg y darllynydd o'r genhades ei hun, a'r hyn a gynrychiolai.

Cyflwyno'r maes cenhadol a'r gwaith ar y maes oedd prif bwrpas yr ohebiaeth yn y cyfnodolion hyn, gan ddod â Chymru ac India'n nes at ei gilydd, a sicrhau bod y maes cenhadol yn India yn ddarlun byw ac amlweddol ym meddyliau'r darllynydd Cymreig. Drwy gyfrwng ysgrifau'r cenadesau ceir cyflwyniad i'r daith gorfforol i India, a'r daith ddaearyddol drwy faes y Genhadaeth yn ei ehangder mewn arddull disgrifiadol a theimladwy, ac mae presenoldeb personol 'y genhades' yn amlwg o fewn y naratif. Ymateb y menywod hyn i'r byd newydd a brofwyd ganddynt a geir yn yr ysgrifau ar yr olwg gyntaf, gydag ymgais i gludo'r darllynydd i ryfeddod y byd hwnnw. Llais y 'dieithryn' sydd yma, wrth i'r menywod ddod wyneb yn wyneb â'u hamgylchfyd newydd.

Naid ddychmygol i wlad arall a gawn, wrth i'r cenadesau gludo'r darllynydd ar y daith enfawr honno i begwn arall y byd yn ddaearyddol, ac i begwn arall o ran ffordd o fyw a ffordd o feddwl. Ceir yma fynegiant o anferthedd y daith, a'r pryder ymysg y cenadesau wrth ymgymryd â thaith o'r fath mewn cyfnod pan nad oedd teithio'n rhwydd nac yn arfer cyffredin. I'r mwyafrif helaeth o'r cenadesau hyn, y daith i India oedd eu taith gyntaf i wlad dramor,⁶ ac mewn gwirionedd nid oedd ganddynt fawr o syniad o'r hyn

1939 (Llundain, 1989); Deirdre Beddoe, 'Women between the wars', yn T. Herbert & G. E. Jones (gol.), *Wales Between the Wars* (Caerdydd, 1990), tt. 129-160; Gareth W. Evans, *Education and Female Emancipation: The Welsh Experience* (Caerdydd, 1990).

⁶ Yn y cyfnod rhwng 1887 a 1930 yn benodol, o'r 48 o genadesau a benodwyd i wasanaeth

a fyddai'n eu hwynebu.⁷ Wrth droedio'r tir am y tro cyntaf, clywir llais y dieithryn, neu'r anturiaethwr, yng ngwaith y cenadesau wrth iddynt sylwi ar bopeth, a gwneud nodyn o bob rhyw fanylyn bychan o'u cwmpas. Roedd pob golygfa yn tanio eu synhwyrau, ac ymddengys yr ysgrifau fel cofnodion dyddiadurol wrth i'r cenadesau ddod i adnabod y wlad a'i rhinweddau. Roedd yr adnabyddiaeth hon yn greiddiol i'r genhades allu ymgartrefu ar y maes, ac roedd dealltwriaeth o'r amgylchfyd yn allweddol i allu gweithio ymysg y brodorion. Ynghyd â chynnig gwahoddiad i'r darlennydd yng Nghymru i gael golwg ar y wlad a'r genedl ddieithr honno a fyddai'n mynnu ei diddordeb, ei sylw, a'i chefnogaeth, rhaid cofio bod yr un dieithrwch yn wynebu'r cenadesau eu hunain, ac roedd yr ysgrifau hyn o'u heiddo'n adlewyrchiad gonest o ymateb y genhades i newydd-deb yr hyn a oedd o'i chwmpas. Roedd y genhades bellach yn rhan o'r byd a ddisgrifiai, ac o fewn yr ysgrifau gwelir ymgais y genhades i ddehongli ei sefyllfa, ac i gwestiynu ei hunan wrth iddi geisio ei lleoli ei hun o fewn y darlun amryliw hwnnw.⁸ Dyma a geir yn y dyfyniad canlynol o ysgrif gan Miss E.A. Roberts wrth iddi gyrraedd Sylhet a chreu disgrifiad byw o'r hyn a welai:

Tery y gwahaniaeth chwi ar unwaith, a dengys pa mor wahanol y rhaid meddwl a gweithredu ymhob peth perthynol i'r India. Mor wahanol yw y brif heol yn Sylhet i ddim a welir yng Nghymru! Masnachwyr a mân-werthwyr yn eistedd a'u gliniau draws ei gilydd ynghanol eu perlaysiau a'u grawn yn eu bythynnod bychain; prynwyr yn sefyll gerllaw a'u harian yn eu brethyn; brwydr geiriau yn myned ymlaen i geisio tynnu pris y nwyddau i lawr; bloedd i glirio yr heol i wneud ffordd i ryw berson o safle pwysig wedi ei ddilladu mewn dull Indiaidd, â gwisgoedd tanbaid amryliw; gorymdaith gyda drums ac udgyrn yn dwyn canopy o sidan ar bolion er ei ddal uwchben y priodfab yr hwn y maent yn myned i'w ymofyn; seirph-swynwr gyda nifer o bobl o'i gwmpas; dynion yn cyrcydu ar fin y ffordd i gael eu heillio. Mor dra dyddorol yr olwg ...⁹

Fel rhan o'r ymgais honno, difyr gweld y modd y mae cyfeiriadau at Gymru yn

y Genhadaeth, un ar ddeg yn unig a oedd wedi cael y profiad o fod mewn gwlad dramor. O'r rhain yr oedd pum cenhades wedi bod yn India - tair wedi eu geni yno yn ferched i un o genhadon cynnar y Genhadaeth; un yn ferch frodorol a apwyntiwyd yn genhades, ac un wedi treulio cyfnod byr yno ar ymweliad. Teithiau cymharol fyr mewn gwledydd Ewropeaidd oedd profiad y chwech arall.

⁷ Er bod y cenadesau a'r cenhadon gwrywaidd oll wedi darllen am y maes, ac wedi ymgylfarwyddo â'r gwaith drwy'r ohebiaeth yn y wasg, pregethau a gweithgareddau yn y capel a'r ysgol Sul, ac areithiau cenhadon ar ffyrlo, ychydig iawn o waith paratoi uniongyrchol a dderbynai'r cenhadon cyn iddynt ymadael am y maes. Er bod rhai cenadesau wedi treulio cyfnod mewn coleg ar gyfer hyfforddi cenhadon, hyfforddiant galwedigaethol oedd hwn er mwyn eu cymhwyso ar gyfer y gwaith. Nid oedd y Cyfundeb yn darparu unrhyw hyfforddiant o ran dealltwriaeth o'r wlad, ei phobl, ei diwylliant, a'i chrefyddau, ac nid oeddent hyd yn oed yn cael eu cymhell i fynd ati i ddysgu'r iaith frodorol hyd nes yr oeddent wedi cyrraedd y maes ei hun.

⁸ Ceir ystyriaeth gyffelyb yn Alison Blunt, *Travel, Gender and Imperialism: Mary Kingsley and West Africa* (London, 1994).

⁹ *Y Drysorfa*, Rhagfyr 1902, tt. 570-2.

ymddangos yn yr ysgrifau, fel yn yr enghraifft uchod. Wrth geisio denu'r darlennydd i mewn i'r ysgrifau, ac i fod yn rhan o'r anturiaeth, gwelir cyfeirio at Gymru, a chyfosod Cymru ag India mewn disgrifiadau lu sy'n cymharu'r cyfarwydd a'r hyn sydd eto'n anghyfarwydd. Roedd cyfeiriadau o'r fath yn fodd i ennyn y darlennydd i uniaethu â'r wlad ddieithr ac yn fodd i atgyfnerthu'r delweddau a grëid gan y cenadesau wrth iddynt gyflwyno'r wlad a'i thirwedd yn arbennig. Yr oedd hefyd yn fodd i'r cenadesau osod eu hunain o fewn y darlun a dod i delerau â'u bywyd newydd. Yn hyn o beth, yr oedd cyflwyno eu profiad i gynulleidfa ehangach yn cynnig cwmnïaeth o fath ar eu taith, ac yn atgof i'r darlennydd o fawredd y daith honno ar ran y cenhadon ac o faint y gagendor a oedd rhyngddynt.

Nid ar yr olwg gyntaf, nac ym mlynnyddoedd cyntaf eu gwasanaeth i'r Genhadaeth yn unig y gwelwyd y rhyfeddu a'r manylu yma ar y byd o'u cwmpas. Roedd bywyd y genhades yn ymddangos fel un anturiaeth fawr, a'r hyn a welid yn gyson yn y cyfnodolion oedd disgrifiadau o deithiau a phrofiadau, a golygfeydd o'r newydd a brofwyd gan y cenadesau wrth iddynt deithio'r wlad, a phrofi ei hynodrwydd. Yn yr ysgrifau hyn, roedd y cenadesau eu hunain yn cyflwyno'r cyfan yn anad dim fel teithwyr chwilfrydig. Argraff o 'lais y teithiwr' a geir wrth iddynt gyflwyno'r wlad a'i thirwedd, a'i phobl - gyda'u diwylliant, eu crefydd, eu credoau, a'u gwisgoedd a'u hymborth - mewn ffordd a oedd yn mynnu sylw'r darlennydd. Ceir yma gasgliad cyfoethog o ysgrifau ethnograffig, lle gwelir y genhades yn ymdreiddio i fywyd y wlad hon a'i threfniadaeth gymdeithasol. Ym mis Ionawr 1927, er enghraifft, ceir ysgrif gan Miss Hetty Evans, Karimganj, yn trafod trefn y castes a'r outcastes, gan gyflwyno amlinelliad manwl o'r outcastes traddodiadol - y rhai a elwid yn gyffredin - 'Y Namasudriaid'.¹⁰ Yn yr un flwyddyn ceir cyfres o ysgrifau diddorol gan Miss Dilys G. Edmunds ar alwedigaethau a threfn y castes - megis y barbwr Indiaidd, y pysgotwr Indiaidd, y crochenydd, a'r llythyr-gludwyr, ynghyd â lluniau o'r dynion wrth eu gwaith.¹¹

Er bod yr ysgrifau hyn yn enghreifftiau o ysgrifennu teithiol sy'n cyflwyno gwybodaeth ac yn ffeithiol o ran eu cynnwys, ceir yma ddisgrifio a chyflwyno mewn modd llenyddol, personol a theimladwy. Y mae'r casgliad rhyfeddol hwn o ysgrifennu teithiol yn enghraifft o arddull a chynnwys unigryw mewn llenyddiaeth Gymraeg yn y cyfnod dan sylw, ac o bosibl mewn unrhyw gyfnod arall yn ei hanes. Yr oedd gan rai, yn naturiol, ddawn lenyddol a oedd yn rhagori ar eraill a chanddynt y gallu i greu delweddau a chyflwyno awyrgylch mewn modd arbennig. Un o'r cenadesau hynny oedd Miss Laura Evans, fel ag a welir yn y darn canlynol wrth iddi ddisgrifio ei hamgylchfyd mewn modd trawiadol:

Deffroais gyda'r wawr; yr oedd yn llawn lleuad, fel na feddyliais mai y wawr oedd - clywn swm coed a bamboo yn llosgi a phobl yn gweiddi ac yn siarad; edrychais allan drwy y ffenestr, yr oedd yr awyr yn goch, meddyliais ar y cyntaf fod hanner y dref ar dân, ond deallais yn fuan mai cochni yr haul yn codi yr oeddwn yn ei wel'd, ac mai swm y bobl yn mwynhau eu hunain oeddwn yn ei glywed.¹²

¹⁰ *Y Cenhadwr*, VI, 1927, t. 15-16.

¹¹ *Y Cenhadwr*, 1927.

¹² *Y Drysorfa*, Mawrth 1914, tt. 140-2.

Ymateb personol ac onest y cenadesau i'r hyn a oedd o'u cwmpas sydd yn yr ysgrifau, a chyda'r chwilfrydedd a ymddengys yn eu disgrifiadau a'u delweddau, yr oedd y cenadesau yn cyflwyno eu hunain i'r gynulleidfa fel teithwyr yn gymaint ag fel cenadesau dros Grist. Taith o ddarganfod oedd hon i'r cenadesau, taith a ymestynnai'n hwy na'r daith gorfforol, ac roedd y daith honno'n dechrau o'r funud y troedient fwrdd y llong ar yr ymadawiad cyntaf o Gymru, gan barhau hyd at derfyn eu hoes.

Gwelir ymgais y cenadesau i gyflwyno'u canfyddiadau gerbron y gynulleidfa Gymreig drwy doreth o ysgrifau a mân nodiadau, gydag ymdrech i fod mor gywir ac mor fanwl â phosibl. Yn hyn o beth, diddorol yw gweld ymhlith yr ysgrifau gwreiddiol yn llawysgrif y cenadesau eu hunain, ymgais i fraslunio mewn pensil yr hyn y ceisient ei ddisgrifio, yn union fel y disgwylir ei ganfod mewn llyfr nodion gan deithiwr.¹³ Mewn llythyr personol o eiddo'r genhades Miss Katie Williams er enghraifft, wrth iddi gyrraedd India am y tro cyntaf a disgrifio ei thaith o Calcutta i'w gorsaf yn Sylhet, ceir ganddi lun o 'native hut' a llun o gwch a ddefnyddid gan y brodorion¹⁴ - roedd popeth mor newydd ac mor diddorol i'r cenadesau a'r darluniau hyn yn dangos brwdfrydedd yr anturiaethwraig ar ei thaith.

Yn ddiweddarach, gyda datblygiad technoleg, daeth defnydd o gamera yn gymorth mawr i'r cenhadon chwilfrydig, a chydag ymddangosiad *Y Cenhadwr*, gallai'r cenhadon amgáu lluniau i gyd-fynd â'u hysgrifau gan gynnig darlun a phrofiad mwy cyflawn i'r darllynydd. Ceir lluniau o'r maes a'i dirlun a'i adeiladau pwysig, a lluniau o'r cenhadon eu hunain wrth eu gwaith. Yn ogystal, ceir lluniau cyson o'r brodorion - yn cyfleu eu bywydau 'amrwd' a 'phaganaidd'; ynghyd â lluniau ohonynt yn sgil gwaith y cenhadon - megis lluniau o blant yn yr ysgolion cenhadol, cleifion yn yr ysbytai a thrigolion mewn gwasanaethau crefyddol. Roedd y lluniau'n fodd i bortreadu'r gwahaniaethau yn sgil dylanwad a llwyddiannau'r Genhadaeth, ac yn fodd i'r gynulleidfa gartref weld sgil-ffeithiau eu cyfraniadau hwy, megis trwy luniau o gleifion mewn ysbytai yn gorwedd ar welyau a gyfrannwyd gan unigolion o Gymru.¹⁵

Roedd y lluniau hyn yn gyfraniad gwerthfawr i ohebiaeth y Genhadaeth ac yn fodd o gadarnhau i'r darllynydd yr hyn yr oeddent yn ei ddarllen. Gyda'r casgliad o luniau, câi'r darllynydd fynediad i'r byd rhyfeddol a amgylchynai'r cenadesau, a chyfle i fyfyrto ar y ddelwedd o'r genhades eithriadol a oedd mor fentrus a dewr yn trigo o fewn y byd hwnnw.

¹³ Am drafodaethau pellach ar ysgrifau teithiol gweler Alison Blunt, *Travel, Gender, and Imperialism: Mary Kingsley and West Africa* (London, 1994); *Colonial discourses: Series 1 - Women, travel and empire. Part 1: Early travel accounts by women and women's experiences in India, Africa, Australasia and Canada* (Marlborough, 1999); Peter Hulme & Tim Youngs (gol.), *Cambridge Companion to Travel Writing* (Caergrawnt, 2002); James Duncan & Derek Gregory (gol.), *Writers of passage: reading travel writing* (Llundain, 1999).

¹⁴ CMA 27, 285 - Katie Williams - llythyr dyddiedig 7-11-1894.

¹⁵ Er enghraifft, gweler *Y Cenhadwr*, Rhif 3, Mawrth 1927, Cyfrol VI - gwelwyd llun o ddau wely a waddolwyd gan Mr David Davies, AS, Llandinam - 'Gwelyau yn Ysbyty Shillong', *Y Cenhadwr*, Cyfrol VI, Rhif 6, Mehefin 1927.

Nid oes amheuaeth fod y casgliad ffotograffig a geir yn nhudalennau'r wasg, ac yn y casgliad o archifau, yn gasgliad rhyfeddol o ran cyfnod ei gylchrediad yng Nghymru, a'i gynnwys yn gyfraniad amheuthun i ddealltwriaeth o waith y Genhadaeth a'i delwedd gyhoeddus, ac yn gyfraniad tuag at hanes y maes yn India ei hun trwy ei gofnod o gyfnod arbennig yn ei hanes.¹⁶

Roedd yr amgylchfyd ar y maes mor wahanol i'r hyn a oedd yn gyfarwydd i'r cenadesau hyd at hynny, a'r cyfnodolion yn amlygu'r gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ddau fyd. Wrth negodi a chyflwyno'r anghyfarwydd, ceir elfen o gyfosod y newydd â'r cyfarwydd, gyda Chymru'n cael ei defnyddio'n aml fel y gwrthbwynt.

Ar y cyfan, fodd bynnag, nid oedd angen defnyddio gwrthbwynt uniongyrchol i gwblhau'r darlun, gan fod y disgrifiadau eu hunain yn ddigon i'r darlennydd weld a phrofi'r gwahaniaethau sylfaenol hyn drosto'i hun, a hynny ar gefnlen lle roedd Cymru a Christnogaeth yn cynrychioli'r hyn oedd yn 'normal' o fewn y darlun. Dangosodd Edward Said fod yr elfen hon o gyflwyno gwlad, diwylliant a chymdeithas fel 'arall' yn ganolog mewn ysgrifau gan Ewropeaid wrth gyflwyno gwlad ddieithr, gan ei bod yn rhan o'r broses o ddangos Ewrop a'r Ewropeaid fel y pegwn 'normal' o'r darlun, gan gyfleu'r argraff annatod mai hwy oedd y dras oruchaf.¹⁷ Ymddengys y nodwedd hon yn gyson mewn cyfnodau o imperialaeth, gan fod y broses yma o osod gwlad a chenedl fel 'arall' yn fodd i'r wlad imperialaidd sefydlu a chyfiawnhau ei rheolaeth dros genedl goloneiddedig. Y mae Mary Louise-Pratt hefyd yn disgrifio'r patrwm o ddarlunio 'arfer a defod' gwlad ddieithr o fewn ysgrifennu teithiol drwy gyfosod arferion 'normal' y teithiwr gyda'r cyfatebol yn y wlad ddieithr, fel rhan o'r ymgais i 'gyfundrefnu'r gwahaniaethau'.¹⁸

Gellir priodoli'r syniadaeth yma i ysgrifau'r cenadesau hefyd i raddau wrth iddynt hwythau gyflwyno credöau, arferion a diwylliant y brodorion mewn dull cyffelyb. Yn yr un modd ag yr oedd yn rhaid i'r imperialydd gyfiawnhau ei waith drwy amlygu'r angen am ei ymyrraeth, yr oedd yn rhaid i'r Genhadaeth gyfiawnhau ei hymyrraeth a'i gweithgarwch gerbron ei chynulleidfa. Fel yr imperialydd, cofier mai gorchfygu

¹⁶ Y *Cenhadwr*, 1922-74. Gweler hefyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Archifau CMA, lle ceir casgliad o dros 300 o ddelweddau unlliw. Y mae'r mwyafrif ar ffurf sleidiau gwydr, tra bod eraill wedi'u cadw ar ffurf printiadau neu negatiffau. Yn ddiweddar, y mae rhai o'r delweddau ffotograffig wedi cael eu digideiddio. Ceir hefyd gasgliad diddorol o luniau yn perthyn i'r genhades Jane Helen Rowlands yn CMA HZ1/9/18-24. Am drafodaeth helaethach ar ffotograffiaeth y Genhadaeth, gweler Aled Jones, 'The transforming gaze: the photography of Welsh Christians in Sylhet 1890-1947', *Journal of the Asiatic Society of Bangladesh (Humanities)*, Rhagfyr 2004, tt. 253-267. Gweler hefyd Maria Antonella Pelizzari, *Traces of India: Photography, Architecture and the Politics of Representation 1850-1900* (Montréal, 2003).

¹⁷ Edward W. Said, *Orientalism* (Llundain, 1978).

¹⁸ Mary Louise-Pratt, 'Scratches on the Face of the Country; or what Mr Barrow saw in the land of the Bushmen', yn Henry Louis Gates Jr., (gol.), *'Race', Writing and Difference* (Chicago, 1986), t. 139 - 'normalizing discourse whose work is to codify difference, to fix the other in a timeless present where all "his" actions and reactions are repetitions of "his" normal habit'. Gweler hefyd Sara Mills, *Discourses of Difference - An analysis of women's travel writing and colonialism* (Llundain, 1991).

a gwyrddroi cymdeithas oedd nod y cenhadwr hefyd, a hynny drwy sefydlu Eglwys Fethodistaidd yn India 'ar eu llun a'u delw eu hunain'. Gorfoleddai'r Parchedig T. Charles Williams, M.A., ar dudalen flaen rhifyn cyntaf Y Cenhadwr ym mis Ionawr 1922 fod y Genhadaeth bellach wedi llwyddo gyda'r nod hwnnw.¹⁹

O fewn y cyfnodolion gwelir y cenadesau'n cyfiawnhau'r ymyrraeth hon drwy gyflwyno'r gynulleidfa i dristwch tywyllwch ac anwybodaeth y brodorion, a dangos y modd y gallai'r Genhadaeth 'achub' y trueiniaid yn eu hanobaith trwy eu harwain at Grist. Cyflwynwyd eithafion eu harferion paganaidd a'u credöau ofergoelus mewn modd a oedd yn 'profi' mai'r Genhadaeth yn unig a allai ddyfod â goleuni i'w bywydau - Cristnogaeth oedd yr allwedd i 'achub y byd'. 'Angen mawr yr India' oedd cael ei hennill i gorlan Crist:

'... Pan gaiff Duw ei le, fe lithra popeth arall i'w le yn naturiol ... Y mae ar yr India angen mwy o gariad - cariad o'r un natur â chariad yr Arglwydd Iesu. Y mae arni eisieu mwy o allu - dyma ei chri mawr - gallu gwleidyddol, ond ni ddaw gwir allu heb undeb, a Christ yw'r Unwr Mawr.²⁰

Yn ysgrifau'r cenadesau, amlygir yr elfen hon yn benodol mewn ystyriaethau ynghylch safle'r ferch yn y gymdeithas Hindwaidd neu Fwslemaidd, gyda'r gred sylfaenol mai Cristnogaeth yn unig a allai ryddfrenio'r menywod.²¹ Roedd Miss Elizabeth Williams yn fwy na pharod i farnu caethiwed y ferch o fewn y '(g)yfundrefn ddrwg' er mwyn arwain y darlennydd i sylweddoli bod angen am gludo 'ffordd yr Efengyl' i'w byd,²² ac yr un oedd neges Miss Katie E. Williams wrth sôn am y merched yr ymwelai hi â hwy yn y zenanas:

... y maent mor blentynnaidd a syml ... Nis gall neb ond yr Iesu eu codi i'w lle priodol; a dyma ydym ninnau yn ceisio ei wneyd trwy adael iddynt gael clywed am dano bob cyfleusdra a gawn.²³

Yma, ymddengys llais y goruchafol, llais y coloneiddiwr, neu'r imperialydd mewn ffordd yn ysgrifau'r cenadesau. Er na fyddai'r cyswllt hwn rhwng y Genhadaeth a'r Ymerodraeth wrth fodd pawb, yr oedd cyswllt anhepgor rhwng y naill a'r llall.²⁴

¹⁹ Y Cenhadwr, Ionawr 1922.

²⁰ Miss J. Helen Rowlands, Y Drysorfa, Mawrth 1920 ff. 115-117.

²¹ Am drafodaeth bellach ar y gred honno, gweler Margaret Stroebel, *European Women and the Second British Empire* (Indiana, 1991); Nupur Chaudhuri a Margaret Strobel (gol.), *Western Women and Imperialism: complicity and resistance* (Indiana, 1992). Gweler hefyd Fiona Bowie, Deborah Kirkwood a Shirley Ardener (goln.), *Women and Missions: Past and Present. Anthropological and Historical Perceptions* (Rhydychen, 1993).

²² Y Drysorfa, Chwefror 1891, t.78.

²³ Y Drysorfa, Ebrill 1897, ff. 191-2.

²⁴ Am drafodaethau pellach ar y cysylltiad rhwng cenadaethau ac imperialaeth gweler Brian Stanley, *The Bible and the Flag: Protestant Missions and British Imperialism in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Caerlyr, 1990); Andrew Porter, 'Cultural imperialism and Protestant missionary enterprise, 1780-1914', *The Journal of Imperial and Commonwealth History* (1997), 25/3, ff.367-91; Andrew Porter, 'Religion and Empire: British Expansion in the Long Nineteenth Century, 1780-1914', *The Journal of Imperial and Commonwealth History* 20/3; ff. 370-390.

Wedi'r cyfan, yr Ymerodraeth Brydeinig oedd wedi darparu'r ffordd i'r Genhadaeth allu sefydlu yn y wlad yn y lle cyntaf, a thrwy gyfnod ei gwasanaeth yn India, gwelwyd cydweithio rhwng y Genhadaeth a'r Llywodraeth drwy ddarpariaeth tir, a llety, ac ar brydiau gwmniaeth fel cyfeillion. I fwyafrif y brodorion, yr un oedd yr Ewropeaid beth bynnag eu 'rôl' yn yr Ymerodraeth, a diddorol gweld yn hynny o beth fod y cenadesau yn cael eu galw'n 'Mem Sahebs' yn union fel menywod eraill Ewropeaidd yn y wlad.²⁵ Gwelwyd hefyd nifer o genhadon a chenadesau yn derbyn medalau'r llywodraeth am wasanaeth nodedig i'r Llywodraeth - y Kaiser-I-Hind Medal, a gwelwyd y Gyfundeb ei hun yn clodfori llwyddiant y genhadon wrth eu derbyn.

Yr oedd safle'r cenhadwr yn ei hanfod yn un lled amwys wrth gwrs, gan nad oedd yn rhan uniongyrchol o'r gymdeithas imperialaidd, nac ychwaith yn rhan o'r gymdeithas frodorol.²⁶ O'r herwydd, gwelwyd y genhadon yn eu gosod eu hunain y tu mewn a'r tu allan i'r gymdeithas a'r diwylliant Ymerodraethol a brodorol fel ei golydd ar gyfnodau gwahanol. Serch hynny, roedd yr elfen o gyfiawnhau eu gweithgarwch drwy wahaniaethu rhwng trallod y brodorion, a'r rhagoriaeth y gallai'r Genhadaeth ei chynnig, yn ddiamheuaeth yn plethu i batrwm disgwrs imperialaidd. Y mae llais y coloneiddiwr, yr imperialydd goruchafol, i'w ganfod yn yr ysgrifau yn ogystal felly, er ei fod yn fwy amlwg o bosibl i'r darllenydd cyfoes. Er na fyddai darllenydd nodweddiadol y cyfnod hwnnw'n gwneud cysylltiad uniongyrchol â'r Ymerodraeth, nid oes amheuaeth nad yw llais y cennad pwerus a enillodd rym dan law yr Ymerodraeth yn adleisio'n eglur o fewn yr ysgrifau.

Serch hynny, nid amlygir y duedd i egsplottio a bychanu'r trigolion brodorol yn yr un modd gan y cenhadwr a'r imperialydd. Yn hytrach, yr hyn a geir yw cyflwyno i'r gynulleidfa yr her a wynebai'r cenhadon, yr hyn a geisient ei ddileu mewn ymgais i 'achub' y 'trueiniad' - a hynny er lles y genedl honno wrth gwrs. Roedd cyflwyno'r rhinweddau hyn yn fodd i dystio i'r gynulleidfa yr angen am eu cefnogaeth a'u nawdd, a'r gobaiith oedd y byddai'n arwain y darllenydd i ddeall dwyster bywydau anoleuedig y pagan a oedd 'yn byw yng nghaethiwed arferiad â phechod, heb unrhyw obaiith am ymwarded hyd nes y cânt rywun i ddyweyd wrthynt am gariad y Gwardedwr'.²⁷ Cyflwynid ffydd y Mwslim a'r Hindw, gyda'u defodau a'u credöau, mewn modd a oedd yn pwysleisio'r frwydr a wynebai'r cenhadon yn eu gwaith. Câi'r darllenydd ei atgoffa'n gyson o'r her a wynebai'r cenhadon, ac roedd cyflwyno rhinweddau neilltuol y wlad yn fodd o ennyn edmygedd y darllenydd o safiad y genhades, gan atgyfnerthu'r ddelwedd o'i dewrder.

Roedd elfen gref o bwysleisio rhwystrau ac anawsterau o fewn yr ysgrifau hyn i'w ddisgwyl ac yn arfer cyffredin mae'n debyg os yw'r ysgrifau i'w gosod o fewn, neu mewn cymhariaeth â, disgwrs disgwylidig y teithiwr benywaidd, gan fod y mynegiant

²⁵ Er enghraifft, gweler Miss Lilian Jones, *Y Drysorfa*, Chwefror 1915, t. 93.

²⁶ Gweler trafodaethau Deborah Kirkwood, 'Protestant Missionary Women: Wives and Spinsters'; Valentine Cunningham, 'God and Nature Intended You for a Missionary's Wife'; 'Mary Hill, Jane Eyre and Other Missionary Women in the 1840s' yn Bowie, Kirkwood ac Ardener (goln.), *Women and Missions: Past and Present. Anthropological and Historical Perceptions* (Rhydychen, 1993).

²⁷ Miss S.M. Dass, *Y Drysorfa*, Ebrill 1891, t. 158.

o ddewrder yn wyneb anhawster yn rhinwedd cyson mewn ysgrifennu teithiol gan fenywod.²⁸ Pwysleisid mawredd ac aberth y cenadesau wrth iddynt adael gwlad a chynefin, tylwyth a chyfaill, a hynny oll er mwyn achub 'trueiniaid' ym mhen arall y byd. O ganlyniad, ymddangosai'r genhades fel arwres gerbron ei chynulleidfa - yr hon a lwyddai i wynebu'r anawsterau â dewrder a gwrhydri, ac a lwyddai i oresgyn y sialens drwy ffydd a gofal Duw. Yr oedd y syniad hwn i'w ganfod yn gyson yn eu hysgrifau ac yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau o sefyllfaoedd o ddydd i ddydd, yn ogystal â disgrifiadau o'r anawsterau sylfaenol a wynebai cenhadwr ar y maes.

Câi'r darlennydd ei atgoffa'n gyson o ddewrder y cenadesau mewn sefyllfaoedd megis 'ystormydd rheibus a chwythai ymaith doau eu cartrefi', gyda diolch i'r Arglwydd am 'ddirfawr ymwarded' rhag difrod gwaeth;²⁹ neu wrth ddisgrifio teithiau drwy dir anghysbell lle trigai anifeiliaid peryglus. Er enghraifft, wrth ddisgrifio taith o bron i 250 o filltiroedd ar draws Bryniau Lushai yng nghwmni cenhades arall - Miss Katie Hughes - edrydd Miss Winifred Jones hanes eu 'taith luddedig' ar droed ac ar gefn ceffyl, drwy jungle a thros fryniau pan ddaeth anawsterau ar eu traws hwy, ac yma clywir llais yr anturiaethwr a'r teithiwr dewr. Wedi llwyddo i ddianc rhag ymosodiad gan fuwch wedi gwylltio 'a oedd yn cicio ac yn dechrau cornio o'u blaenau', rhaid oedd ceisio croesi afon garegog mewn rafft:

Yr oedd pedwar dyn yn tynnu y raft â'u holl nerth, ond yn methu ei symud.
O'r diwedd dyma fi yn tynnu fy 'sgidiau a fy sanau, a ffwrdd â fi i badlo; a
chyda hynny gwthiwyd yr afon yn nes i lawr, a dyma Miss Hughes yn glanio
yn iach ...

Beth oedd yna? Y fi, yng nghanol yr afon yn brwydro â'r cerrig! Mi gefais
dasg! Daeth y pennaeth ac un o'r dynion yn ôl i roi help llaw imi, ac mi es
innau drwodd yn iach ... Yr oedd pontydd ar yr afonydd eraill i gyd ond un;
pontydd sigledig iawn, ond aethom drostynt - mewn ffydd.³⁰

Roedd y cenadesau yn fenywod dewr a oedd yn barod i fentro a wynebu perygl.
Gwelwyd hwy'n teithio i ardaloedd lle nad oedd merched croenwyn wedi bod o'r blaen,
a hynny'n ddi-ofn ac yn ddewr. Dyna hanes Miss Ellen Hughes wrth deithio i bentref
Nongryllent yn Nosbarth Shillong, a'r daith yno yn anturiaeth ynddi'i hun:

Ar y ffordd gwelsom lawer o olion traed teigrod, y rhai a lechant y dydd
yn y llwyni gerllaw. Hefyd olion traed elephantiaid gwylltion, y rhai sydd
yn crwydro yn heidiau ar hyd y wlad yn yr haf, pan y mae y rice yn tyfu
ar y meusydd. Yr oedd ôl troed aml i elephant yn ddeunaw modfedd o
drawsfesur (diameter).³¹

Câi'r darlennydd ei atgoffa fod y cenhadon yn ffigyrau eithriadol wrth ildio eu bywydau

²⁸ Sara Mills, *Discourses of Difference*, tt. 140-1.

²⁹ Er enghraifft, gweler Miss E.J. Jones, *Y Drysorfa*, Hydref 1921.

³⁰ *Y Cenhadwr*, Mai 1932, tt. 86-9.

³¹ *Y Drysorfa*, Mehefin 1901, tt. 286-7.

yng Nghymru a chamu i wlad lle roedd y rhwystrau a'r anawsterau mor eang ac mor helaeth mewn bywyd bob dydd. Ymddengys fod tuedd yn y cyfnodolion i bwysleisio'r aberth a'r dewrder hwn a brofwyd gan y cenhadon, gyda mwyafrif y llythyrau a gyhoeddwyd yn deillio o'r Gwastadedd - lle wynebair cenhadon yr anawsterau mwyaf o ran ymlyniad crefyddol, gwrthwynebiad y brodorion, ac amgylchiadau byw llethol a heriol o ran hinsawdd a darpariaeth. Yn ogystal â'r dewrder llythrennol yn wyneb gwrthwynebiad y brodorion, a'r frwydr grefyddol, ceir pwyslais nodedig ar ddewrder eu hysbryd a chryfder eu ffydd a'u dyfalbarhad.

Darluniwyd y ffaith fod bywyd cenhades yn gallu bod yn eithriadol o unig, gyda'r cenadesau'n mynegi'n gyson faich 'trymder yr unigrwydd llethol'³² wrth iddynt weithio'n aml mewn ardal ar eu pen eu hunain, gyda'r cyswllt â chenhadon eraill ar y maes yn gallu bod yn ysbeidiol ac yn fylchog. Roedd yn fynegiant o unigrwydd corfforol, ond hefyd yn fynegiant o unigrwydd ysbrydol yn sgil absenoldeb unrhyw gwmniâeth Gristnogol. Mewn mynegiant o'r fath, ceir awgrymiadau o'r teimlad o hiraeth yn frith yn ysgrifau'r cenadesau - yr hiraeth am Gymru, am gyfaill a theulu; yr hiraeth am y cyfarwydd yng nghanol dieithrwch eu hamgylchfyd; a'r hiraeth am bresenoldeb Duw. Roedd hon yn frwydr, yn anturiaeth gorfforol, seicolegol ac ysbrydol i'r cenadesau, a'r darllenwyr yn cael eu hatgoffa'n gyson o'u safiad. Dyma'r argraff a geid mewn ysgrif gan Miss Shoshie Dass ym 1900, wrth iddi ddisgrifio natur ei bywyd a'i gwaith. Dywed fod y gwaith yn y zenanas yn '... waith caled a lled ddigalon' a'r 'hinsawdd yn orchfygol o boeth ... megis mewn ffwrn'. Roedd anawsterau'r gwaith yn her i'w ffydd a'i gobaith, ac yn ei hysgrif, roedd yn ymbil am weddïau eglwysi Cymru drosti a thros ei gwaith yn ei hunigrwydd ysbrydol:

...Yr ydym yn teimlo fod arnom angen tywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân; y mae y bobl yn swrth ac anystyriol, heb allu sylweddoli fod eu heneidiau yn gorwedd mewn marwolaeth a phechod. Ysbryd Duw yn unig a all eu deffro. Gweddïwch drosom a thros ein gwaith.

Y mae arnom fwy o angen nag erioed am weddïau taerion eglwysi Cymru. Bydd ein calon yn diffygio yn aml wrth weled anghrediniaeth a phechadurusrwydd y bobl.³³

Mynegiant o emosiwn y genhades a geir yn y cyfeiriadau hyn, gydag onestrwydd y genhades yn apelio at gydymdeimlad y darlennydd. Roedd y teimladau yn sicr yn ddidwyll, ond rhaid cofio fod mynegiant o'r fath gerbron cynulleidfa estynedig hefyd yn rhan annatod o'r ymgais i ddenu cefnogaeth y darllenwyr, ac yn gyfle i ymbil ar y darllenwyr i 'weddïo drostynt a thros y gwaith' ac i wneud eu rhan wrth gefnogi'r gwaith.

Dyma'r ddelwedd o'r 'genhades' nodweddiadol a gyflwynwyd gerbron y gynulleidfa yng Nghymru - y fenyw ddewr a ddangosai'r fath wroldeb wrth gyflwyno ei hunan i'r gwaith, a'i pharodrwydd rhyfeddol i aberthu cymaint er mwyn eraill er mor fawr oedd yr her a'i hwynebai. Hon oedd y fenyw a gynrychiolai'r angen i'r Eglwys gefnogi ei gwaith

³² Elizabeth Williams, *Y Drysorfa*, Awst 1908, tt. 383-4.

³³ *Y Drysorfa*, Rhagfyr 1900, t. 570.

a chyfrannu tuag at hwyluso ei gweithgarwch blaengar. Serch hynny, nid delwedd o fenyw wan yn ymbil am gydymdeimlad a thosturi sydd yma, ond yn hytrach ddelwedd o fenyw ddewr - 'arwres' i'w chefnogi a'i mawrygu. Ffigwr i'w hedmygu oedd y genhades yn y cyfnodolion hyn, ac roedd mynegiant o'i byd newydd o'i chwmpas - yn creu delwedd o fenyw eithriadol.³⁴ Ategwyd a phwysleisiwyd y ddelwedd hon o ffigwr y genhades fel merch fentrus mewn teyrngedau ac ysgrifau coffa, gyda'r genhades ei hun yn ymgorfforiad o rinweddau arwres.

Dyma felly, y 'genhades' a gyflwynwyd yn y wasg genhadol Gymreig, gyda'i llais ei hun a'r ddelwedd a grëwyd ganddi ac a atgyfnerthwyd gan eraill yn creu'r argraff mai ffigwr i'w hedmygu ydoedd. Roedd yn cynnig esiampl i'w darllenwyr - yn enghraifft o fenyw i'w chlodfori o fewn yr Eglwys ac ymhlith ei chynulleidfa, ac yn esiampl, yn 'fodel' i'w chyfoedion, yn arbennig y menywod yn eu plith. Roedd yn dangos ei gallu a'i chyrrhaeddiad, gyda'i mawredd wedi ei ddyrchafu mewn print a llun ar lwyfan cyhoeddus y genedl. Ni chât ei delwedd ei chyfyngu i'r wasg genhadol yn unig ychwaith, a gwelwyd ysgrifau, a phortreadau gan, a thros, y cenadesau yn gyson mewn papurau cenedlaethol ac mewn papurau lleol.³⁵

Roedd 'y genhades' yn deithiwr dewr nad oedd yn ofni'r anghyfarwydd fel dieithryn; roedd hi'n anturiaethwr o fath wrth ymchwilio'r tirlun newydd; ac yn ffigwr o statws goruchafol wrth 'achub' cenedl o'u tywyllwch. Dyma'r lleisiau a atseiniai yn ei hysgrifau a dyma'r delweddau a gyflwynai gerbron ei darllenwyr - roedd hi'n ffigwr rhyfeddol, ac yn 'eithriad' yn eu byd hwy. Serch hynny, nid eilun pellennig na 'model' y tu hwnt i gyrraedd ei chynulleidfa mo hon, canys er mor fawr oedd ei delwedd ger eu bron, roedd y genhades yn ffigwr real, ac yn cynrychioli'r hyn y gallai ei chynulleidfa ymestyn tuag ato a'i gyrraedd. Roedd hi'n symbol o allu'r ferch drwy law y Genhadaeth, ac yn symbol o'r boddhad a'r balchder mewnol y gallai ei chynulleidfa ei brofi. Roedd y genhades yn cynnig model newydd i'r ferch Gristnogol o fewn y gynulleidfa Fethodistaidd Galfnaid Gymreig, ac yn cynnig delwedd annisgwyl o ferch yn y wasg Gymreig o ystyried statws merch yn y cyfnod hwnnw, a'i delfryd gymdeithasol. Roedd y genhades yn cynnig her i ferched Cymru, gan ddangos iddynt yr hyn y gallant anelu at ymgyrraedd, fel a welir yng ngeiriau Miss E.A. Roberts, a hynny mor gynnar â Rhagfyr 1902:

Yn gyffredinol yr ydym dan yr argraff mai anghyhoedd yn unig yw bywyd merch i fod, fod ei gallu i'w ddefnyddio yn y cartref yn unig, ac mai eiddo'r meibion yw y dyledswydd cyhoeddus. Ond nid felly yn hollol y mae. Y mae gan ferch ei dyledswydd bersonol a chyhoeddus ... Gyda Christ y mae hon

³⁴ Jane Aaron, 'Slaughter and Salvation', yn *New Welsh Review* rhif 38, Hydref 1997, tt. 38-46. Gwelir Jane Aaron yn trafod y syniad hwn o'r cyfaredd a amgylchynai ffigwr y cenhadwr o fewn y diwylliant Gymreig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan awgrymu fod yr arwriaeth yn deillio o rôl y cenhadwr fel 'achubwr'.

³⁵ Gwelwyd cyhoeddi ysgrifau gan y cenadesau eu hunain, ynghyd ag ysgrifau a theyrnedau gan eraill i'w bywyd a'u gwaith mewn cyhoeddiadau cenedlaethol megis *Y Cymro*, *Y Faner*, *Y Goleuad*, a'r *Brython*, ac mewn cyhoeddiadau lleol megis *Yr Herald* yng Nghaernarfon, y *Rhedegydd* ym Mlaenau Ffestiniog a'r *Cloriannydd* ym Môn. Gwelwyd hefyd hanes y genhadaeth yn cyrraedd Cymry America drwy gyfrwng cyfnodolyn *Y Drych*.

yn allu mawr. Nid ydym ni ferched eto wedi dychmygu yr hyn allwn wneyd trwyddo ef ... Byddai yn dda iawn gennyf weled Canghenau y Chwirydd yn ymroi o ddifrif i'r gwaith gogoneddus hwn.³⁶

Roedd y genhades yn dangos y statws y gallai merched Cymru ei ennill yn enw'r Genhadaeth, ac yn tystio i'r profiadau a ddeuai i'w rhan yn sgil y gwaith. Dangosai'r teimlad o werth ac o gyflawniad y gallai merch ei ennill trwy gyfrannu at gymdeithas anghenus, a'r modd y byddai, yn sgil hynny, yn cael ei gwerthfawrogi a'i mawrygu'n gyhoeddus. Oedd, roedd yn rhaid bod yn fentrus ac yn ddewr, ac roedd yn rhaid bod yn barod i aberthu, ond roedd y budd a ddeuai yn fwy na'r gost. Câi'r genhades gyfle i deithio, ac i anturio ar gyfandir pellennig, a chyfle i 'achub' bywydau o ddyfnder eu trallod, a hynny gyda pharch, edmygedd a chefnogaeth cynulleidfa estynedig yn gefn iddi.

Safai'r cenadesau hyn yn gadarn ar y llwyfan cyhoeddus yng Nghymru fel ffigyrau i'w hedmygu a'u hefelychu, ac roedd y cylchgrawn i ferched Cymru - *Y Gymraes* - rhwng 1896 a 1934 yn fwy na pharod i gyflwyno'r cenadesau fel 'esiampol deilwng i ferched Cymru' wrth edmygu 'eu dewrder a'u gwrhydri moesol'³⁷ ac roedd presenoldeb y cenadesau hyn ar ei dudalennau blaen - yn union fel ag yr urddwyd Miss Florence Nightingale yn Nhachwedd 1910³⁸ - yn arwydd eglur o'u statws yng ngwydd y cyhoedd. Dyma ran o ysgrif tudalen flaen yn *Y Gymraes* yn Hydref 1897, yn mawrygu'r genhades Miss Annie Williams, Shillong, gan ryfeddu at ddewrder ei chalon pan 'ymwrolai yn erbyn anhawster':

... yr oedd Miss Williams wedi ei chynysgaeddu â galluoedd naturiol nodedig iawn at ei gwaith. Yr oedd yn dyner, addfwyn, gyfeillgar, ddiwyd, an-hunangar, yn llawn bywiogrwydd ac arabedd, yn ddewr, yn benderfynol, a diragrith ... yr oedd ganddi ffydd ddiysgog yn Nuw, ac yr oedd yn llawn o gariad at eneidiau. O! fel y byddem bron ag eiddigeddu wrth ei gweled...³⁹

Ymddangosai'r cenadesau fel ffigyrau eithriadol gerbron eu cynulleidfa, a'r cenadesau eu hunain a oedd yn gyfrifol am greu'r ddelwedd gyhoeddus honno drostynt eu hunain drwy'r delweddau a grëwyd ganddynt o'u hunain yn y wasg genhadol. Drwy lais y genhades, crëwyd delwedd yn nychymyg y gynulleidfa, a'r ddelwedd honno a ddefnyddiwyd yn fodel yn nhudalennau'r wasg. Hon oedd y ddelwedd a ysgogodd fenywod eraill i ddilyn ôl eu traed⁴⁰ a hon oedd y ddelwedd a alluogodd merched nid yn

³⁶ *Y Drysorfa*, Rhagfyr 1902, tt. 570-2.

³⁷ 'Cenadesau yn Ffrwyth y Diwygiad', *Y Gymraes*, Cyfrol XIII, Mawrth 1909.

³⁸ 'Miss Florence Nightingale (The Lady of the Lamp)', *Y Gymraes*, Cyfrol XIV, Tachwedd 1910.

³⁹ 'Miss Annie Williams, Shillong', *Y Gymraes*, Cyfrol I, Hydref 1897. Gweler hefyd - 'Ein Cenadesau - Miss Hughes, Shillong, gynt o Llanelwy', *Y Gymraes*, Cyfrol VII, Chwefror 1903; 'Miss Roberts y Genhades', *Y Gymraes*, Cyfrol XII, Gorffennaf 1908.

⁴⁰ Yng ngheisiadau'r cenadesau i ymuno â'r genhadaeth gwelir mor ddylanwadol fu'r wasg genhadol wrth ysgogi merched i ymgymryd â'r gwaith. Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Archifau CMA.

unig i ennill statws a rhyddid rhyngwladol drwy wasanaeth ar y maes, ond a ysgogodd o fewn y gymuned Gymreig drefniadaeth gyhoeddus swyddogol i fenywod o fewn yr Eglwys Bresbyteraidd Gymreig.

Gyda sefydlu Cymdeithasau'r Merched, a chynyddu eu gweithgarwch dros y blynyddoedd, darparwyd cymdeithas o ferched a chanddynt gyfle i wneud cyfraniad gwirioneddol drwy drefniadaeth swyddogol ar lefel leol, genedlaethol, a rhyngwladol.⁴¹ Mewn ymateb i apêl y cenadesau, gwelwyd menywod Cymru yn uno i ffurfio trefniadaeth swyddogol gyda'r nod uniongyrchol o sicrhau nawdd a chefnogaeth i'r cenhadon ar y maes, gan ymestyn eu llaw i gynorthwyo drwy amryfal ffyrdd. Dros amser gwelwyd mai'r menywod hyn oedd prif gefnogwyr, ac yn sgil hynny, prif gynhalwyr y Genhadaeth yng Nghymru, ac roedd hynny oll i'w briodoli yn anad dim i'r ysbrydoliaeth a'r arweiniad a gynigiwyd gan lais a delwedd y cenadesau rhyfeddol ar dudalennau'r wasg genhadol.

⁴¹ Sefydlwyd y gangen gyntaf yng Nghapel Fictoria, Crosshall St., ar 16 Mehefin 1881. Wedi hynny, gwelwyd sefydlu canghennau ledled capeli'r Methodistiaid Calfniaidd Gymreig.

Dr Diarmait Mac Giolla Chríost

Dinasyddiaeth, Bwrdd yr Iaith, a marchnata'r Gymraeg

GWERDDON

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyrol I, Rhif 1, Ebrill 2007 • ISSN 1741-4261

Dinasyddiaeth, Bwrdd yr Iaith, a marchnata'r Gymraeg

Dr Diarmait Mac Giolla Chríost

Crynodeb

Cynigir, yn yr astudiaeth gryno hon o ymagwedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG) tuag at farchnata'r iaith Gymraeg, fewnwelediad i'r ymdriniaeth ideolegol sydd wedi dylanwadu ar waith ByIG yn y blynyddoedd diwethaf. Gosodir yr astudiaeth yng nghyd-destun yr adolygiad arloesol gan Lywodraeth y Cynulliad o bolisi iaith Gymraeg a'r ddogfen bolisi allweddol a fu'n brif gynnyrch yr adolygiad unigryw hwnnw, sef *Iaith Pawb*. Adwaenir goblygiadau *Iaith Pawb* ar gyfer marchnata'r iaith Gymraeg. Trafodir y gwaith marchnata a gynhelir gan FyIG mewn perthynas â'i chynulleidfa - hynny yw, dinasyddion Cymru a chwsmeriaid gwasanaethau cyhoeddus trwy'r Gymraeg. Dadansoddir yr is-destun ideolegol sy'n nodweddu'r maes hwn o weithgarwch ByIG gan gyfeirio at y tyndra cysyniadol sydd yn ymhyg wrth y gwaith a chan awgrymu goblygiadau hynny wrth i Lywodraeth y Cynulliad baratoi i gymhathu ByIG.

Y Cyd-destun

Ers y 1980au hwyr y mae'r iaith Gymraeg wedi treiddio i sefydliadau llywodraethiant a gwladwriaeth yng Nghymru, ac yn neilltuol ym meysydd addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus, y system gyfreithiol a llywodraeth leol. O dan Ddeddf Diwygio Addysg (1988) mae'r iaith Gymraeg wedi'i chydabod fel pwnc craidd ac felly yn bwnc gorfodol ar gyfer disgyblion (5-16 oed) yn holl ysgolion Cymru yn y sector statudol. Tan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993) gosodwyd dyletswydd statudol ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ymdrin â'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cyfartaledd wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Hefyd dan y ddeddf hon sefydlwyd ByIG fel cwango, hynny yw fel asiantaeth y wladwriaeth yn gweithio mewn modd 'hyd braich' oddi wrth lywodraeth y dydd. Prif gyfrifoldebau ByIG oedd fel a ganlyn:

- Hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg
- Cynghori a dylanwadu ar faterion a wnelo â'r iaith Gymraeg
- Ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg
- Dosbarthu grantiau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg
- Cynnal gorolwg strategol o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

O'i sefydlu, mae ByIG, ar y cyfan, wedi llunio polisi iaith Gymraeg, a hynny mewn cydweithrediad â'r Swyddfa Gymreig, sef swyddfa llywodraeth ganolog y DU yng Nghymru. Mae ByIG wedi dilyn yr amcanion isod:

- Cynyddu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg

- Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg
- Cryfhau'r iaith Gymraeg fel iaith gymunedol
- Newid ymddygiad ieithyddol ac annog mwy o siaradwyr Cymraeg i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith (ByIG, 1996 a 2005).

Cafwyd cryn effaith ar bolisi iaith Gymraeg gan ddyfodiad llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a genedigaeth y corff etholedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ym 1999. Tan gytundeb llywodraeth ddatganoledig yn y DU symudwyd rhai o bwerau llywodraeth ganolog y DU, gan gynnwys rhai ym meysydd addysg a diwylliant, i'r llywodraeth a ffurfiwyd o'r CCC etholedig. Hefyd, gwnaethpwyd rhai o swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig yn atebol i'r corff hwnnw yn hytrach nag i lywodraeth ganolog y DU. Un o weithrediadau cychwynnol pwysicaf Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (LICCC) oedd cynnal adolygiad cynhwysfawr o bolisi iaith Gymraeg. Cwblhawyd y gwaith hwn gan LICCC yn 2002 a chafodd ffrwyth y gwaith ei gyhoeddi'n ddiweddarach mewn adroddiad yn dwyn y teitl *Iaith Pawb* (LICCC, 2003). Gosodwyd nifer o dargedau pwysig yn y ddogfen hon:

- Cynyddu, erbyn 2011, canran siaradwyr yr iaith Gymraeg 5 y cant o waelodlin Cyfrifiad 2001
- Rhwystro dirywiad cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith, ac yn neilltuoel y rheiny a chanddynt ganran o 70 y cant neu fwy o siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu canran y plant sy'n derbyn addysg gyn-ysgol cyfrwng Cymraeg
- Cynyddu canran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith
- Prif-ffrydio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys adrannau'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ond nid unrhyw gyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys holl gynghorau sir Cymru. Nid yw'n cynnwys unrhyw ymrwymiad o ran y sectorau preifat a gwirfoddol.

Trwy *Iaith Pawb* ymrwymodd LICCC i ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys mabwysiadu'r iaith Gymraeg fel thema lorweddol yng ngwaith CCC a chryfhau ByIG. Erbyn 2005-06 tyfodd ByIG nes bod ganddo staff o 70 o unigolion a chyllideb o tua £13 miliwn y flwyddyn, gan ddyrannu dros £6.5 miliwn mewn grantiau. Yn ei gryswth, mae *Iaith Pawb* yn ymrwymiad i sicrhau prif-ffrydio'r iaith Gymraeg yng ngwahanol feysydd bywyd cyhoeddus. Er enghraifft, sefydlodd y llywodraeth y 'Grŵp Trafod Iaith-Economi' yn 2002 dan ysgrifenyddiaeth *Menter a Busnes* ac mae hyrwyddo'r Gymraeg ym maes datblygiad economaidd i'w wireddu trwy raglenni amrywiol, megis:

- *Cyllid Cymru ccc, y Gronfa Benthyciadau Cymunedol, a'r Sefydliad Datblygu Cymunedol Ariannol, sy'n 'meithrin a chynnal agwedd fwy mentrus trwy roi nawdd a chefnogaeth busnes i amrywiaeth eang o unigolion, cwmnïau a mentrau cymunedol'* (LICCC, 2003: 23)

- *Strategaeth Cymru o Blaid Arloesi*, sydd 'at bwrrpas ymgynghori, yn ceisio hyrwyddo arloesedd, ymchwil a datblygiad, trosglwyddo technoleg a datblygu cynnyrch newydd' (LICCC, 2003: 23)
- *Potentia a Porth Busnes*, sy'n ceisio 'annog entrepreneuriaeth ymysg grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt', gan gynnwys siaradwyr Cymraeg (LICCC, 2003: 23)
- *Ffatri Fenter*, blaengaredd sy'n 'rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ifanc flasgu byd busnes eu hunain' (LICCC, 2003: 23)
- *Cwlwm Busnes*, gwefan sy'n darparu 'cyfleuster rhwydweithio busnes rhithwir ar gyfer siaradwyr Cymraeg' (LICCC, 2003: 23).

Ond fel y mae Williams (2004) eisoes wedi nodi, mae gwendidau'n perthyn i *Iaith Pawb*. Fel datganiad polisi mae rhethreg Iaith Pawb yn portreadu gweledigaeth ac uchelgais ar gyfer gwireddu Cymru ddwyieithog (Cymraeg-Saesneg) ond ei wendid yw nad yw'n manylu ar yr union ddulliau gweithredu, nac yn adnabod maint a ffynonellau'r adnoddau angenrheidiol, na'r ffyrdd o fonitro effeithiolrwydd gweithgarwch yn y maes.

Marchnata

Yn ei ddadansoddiad o *Iaith Pawb* mae Williams (2004) hefyd yn nodi y dylai polisi iaith effeithiol ddylanwadu ar ymddygiad ieithyddol ar draws yr ystod gyflawn o gyd-destunau sosio-economaidd. Mae marchnata'r potensial yn bwysig iawn yn hyn o beth. Ystyriai BylG ei strategaeth farchnata, a fabwysiadwyd yn dilyn *Iaith Pawb*, fel arf pwysig wrth newid ymddygiad ac agweddau ieithyddol (BylG, 2004a). Er enghraifft, mae BylG yn datgan y canlynol yn y strategaeth honno: 'Mae angen creu ymwybyddiaeth, hawlio sylw parhaus, ac yn bwysicach oll, mae angen sbarduno'r gynulleidfa i weithredu' (BylG, 2004a: 15.4). Mae hyn yn codi dau gwestiwn: Pwy yw'r gynulleidfa, a sut mae ysgogi gweithgarwch?

Ymddengys i'r cysyniad o'r cwsmer neu'r defnyddiwr fod yn ganolog i'r atebion i'r ddau gwestiwn allweddol hyn. Er enghraifft, man cychwyn (a man gorffen) y strategaeth farchnata yw'r dyfyniad canlynol gan Peter Drucker, gwrw rheolaeth busnes ac ysgolhaig yn y Claremont Graduate University yng Nghaliffornia, USA:

Marketing is so basic that it cannot be considered a separate function. It is the whole business seen from the point of view of its final result, that is, *from the customer's point of view* (myfi biau'r pwyslais).

Mae cyfeiriadau pellach at y cwsmer neu'r defnyddiwr mewn manau eraill yn y testun (er enghraifft yn y Cyflwyniad 1.1, 4.2.5, 14.6). Ar un pwynt mae'r strategaeth yn datgan y bydd delwedd gyhoeddus BylG, a hithau'r Gymraeg o safbwynt bywyd cyhoeddus, yn cael eu pensaernïo ar sail y berthynas rhwng y Gymraeg a'r cwsmer: 'Yn y pen-draw, bydd y brand yn cael ei adeiladu gan staff y Bwrdd, yr aelodau a phrif bartneriaid sy'n trosglwyddo profiad positif i'r cwsmer' (BylG, 2004a: 4.2.4). Mewn rhan arall o'r strategaeth honnir bod marchnata yn ganolog i'r gwaith o wireddu amcanion BylG

a hynny y tu hwnt i faterion a wnelo â'r ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Gymraeg. Eto, mae'r berthynas rhwng yr iaith a'r cwsmer yn allweddol i hynny:

Mae llwyddiant Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyflawni targedau iaith Pawb yn dibynnu ar allu'r Bwrdd i adnabod ei gwsmeriaid yn well, gan gyfleu negeseuon pendant fydd yn cwrdd â'i anghenion yn fwy effeithiol. Mae adeiladu perthynas hir dymor a buddiol gyda'r cwsmer yn greiddiol i'r strategaeth farchnata. (BylG, 2004a: Adran 16)

Mewn cyfweiliad â'r ymchwilydd eglurwyd hyn ymhellach gan swyddog o FylG. Cynigiodd fod marchnata sy'n ymwneud â 'chael, cadw a thyfu cwsmeriaid ... dod o hyd i ffyrdd o greu gwerth i'r cwsmer ... dyw e/hi ddim am werthu ond am adeiladu cysylltiadau â chwsmeriaid'. Mae'r ymagwedd hon yn amlwg yn arferion marchnata BylG. Mae'r deunydd sy'n gysylltiedig â 'Phecyn Croeso (*Welcome Pack*) Symud i Gymru (*Moving to Wales*)' yn enghraifft o hyn. Pecyn croeso wedi'i anelu'n benodol at fewnfudwyr ydyw, gyda gwefan ddwyieithog yn gysylltiedig ag ef, sef www.symudigymru.com / www.movingtowales.com. Yn y pecyn disgrifir lle'r iaith Gymraeg yn y gymdeithas Gymreig fel a ganlyn:

Today public organisations, national and international companies, small businesses and voluntary organisations provide more and more of their services through the medium of Welsh *and do so as a mark of good customer service* (myfi biau'r pwyslais). (BylG, d.d.: 3)

Mewn rhan arall o'r un ddogfen disgrifir goblygiadau statudol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn yr un ffordd, hynny yw mewn perthynas â'r cwsmer:

The Welsh Language Act 1993 places a duty on the public sector to treat Welsh and English on an equal basis when providing services to the public in Wales. The local authorities and many other employers now call for a bilingual workforce. The ability to work bilingually is a valuable additional skill and viewed as a *sign of good customer service* (myfi biau'r pwyslais). (BylG, d.d.: 5)

Yn ei strategaeth mae BylG wedi adnabod (3.4) nifer o grwpiau targed o fewn y gynulleidfa hon o gwsmeriaid ieithyddol. Y grwpiau pwysicaf yw'r grŵp 18-35 oed, gan gynnwys defnyddwyr y Gymraeg a'r sawl nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg, a'r sector economaidd, preifat. Mae BylG yn hawlio gwerth canfyddiedig y Gymraeg fel cyfrwng o fantais sosio-economaidd fel arf marchnata ar gyfer y ddau grŵp targed yma (e.e. Adran 7). Mae BylG yn ystyried cyrraedd siaradwyr Saesneg a dysgwyr yr iaith Gymraeg fel amcan pwysig iawn. Mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol yng Nghymru ac felly mae Williams (2004) yn gywir wrth iddo adnabod agweddau'r mwyafrif Saesneg eu hiaith tuag at y Gymraeg fel mater cwbl allweddol mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu math cadarn o ddwyieithrwydd. Mae Williams (2004) hefyd yn adnabod y maes hwn fel un lle mae'r bwlch rhwng rhyngwethreg a gweithred yn adroddiad *Iaith Pawb* yn eithriadol o amlwg.

Mae strategaeth farchnata ByLG yn adnabod ei bod yn rheidrwydd i ymdrin â'r gynulleidfa Saesneg trwy gyfeirio at ddwy ymgyrch Saesneg eu hiaith (Adran 16.1). Anelwyd yr ymgyrch *Workplaylive* at siaradwyr Saesneg a dysgwyr yr iaith Gymraeg yn benodol a hynny er mwyn 'raise interest in the language and make them aware of the benefits of using Welsh' (ByLG, 2004b). Seiliwyd yr ymgyrch, a oedd yn cynnwys hysbysebion ar y sianel deledu cyfrwng Saesneg *ITV1 Wales* ac ar drafndiaeth gyhoeddus a gwefan arbennig (www.workplaylive.org), ar ganlyniadau arolwg marchnad a gomisiynwyd gan FylG. Ar yr un pryd cynhaliwyd wythnos thematig 'Dysgu Cymraeg - *Learn Welsh*' gan y sianel deledu cyfrwng Cymraeg, Sianel Pedwar Cymru (S4C) gan gyd-fynd ag ymgyrch traws-farchnata rhwng ByLG ac S4C trwy raglen gylchgrawn yn seiliedig ar y profiad o ddysgu Cymraeg, sef *Cariad@iaith*. Mae gwefan yr ymgyrch neilltuol honno'n arloesol yn yr ystyr nad yw'n fwiadol, yn ei diwyg, yn gysylltiedig â ByLG. Hynny yw nid yw 'brand' ByLG yn amlwg ar y deunydd ac felly nid yw'r cwsmer o reidrwydd yn cysylltu ByLG â'r ymgyrch. Mae'r pellter hwn yn glir mewn ymgyrchoedd eraill hefyd, yn neilltuol y rheiny sydd wedi'u hanelu at yr ifainc, fel yr ymgyrchoedd yn nodi Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Gŵyl Santes Dwynwen - gŵyl y cariadon yng Nghymru - a hynny trwy anfon e-gerdyn o'r wefan www.swsus.org neu'r ymgyrch *I'm a Welsh Virgin*, cyfeiriad at y profiad ieithyddol o ymdrin â'r Gymraeg am y tro cyntaf. Bwriad y gwaith hwn o gysylltu'r Gymraeg â 'brandiau' eraill megis grwpiau cerddoriaeth bop, chwaraeon, neu unigolion enwog yw rhoddi i'r iaith rhyw ymdeimlad o fod yn **cool** (Adrannau 9 & 10) wrth ymbellhau oddi wrth ddelweddau sy'n gysylltiedig ag awdurdod arferol awdurdodau statudol.

Y Cwsmer a'r Dinesydd

Gwelir yr unig gyfeiriad at hawliau ieithyddol yn strategaeth farchnata ByLG yn yr atodiad i'r strategaeth, dan yr adran *Gwerthoedd y Bwrdd*. Datgenir yno: 'Bydd y Bwrdd bob amser yn parhau hawliau a safbwyntiau siaradwyr ieithoedd heblaw am y Gymraeg'. Mae hyn yn codi nifer o faterion pwysig sy'n ymwneud â'r cysylltiadau cymhleth rhwng yr iaith Gymraeg a syniadau ynghylch y genedl, y wladwriaeth, a dinasysddiaeth yn y cyd-destun Cymreig. A chwaraeir rôl yn y cyd-destun hwn gan gynllunio delwedd y Gymraeg trwy farchnata. Hynny yw, mae marchnata yn ymarfer ideolegol ac o ganlyniad mae gan weithgaredd farchnata gyfraniad neilltuol i'w wneud at ymdriniaeth iaith yn y gymdeithas.

Mae'r modd y lleolir hawliau ieithyddol yn strategaeth farchnata ByLG yn cadarnhau pwynt cyffredinol a godwyd gan Williams mewn perthynas â maes polisi iaith Gymraeg ehangach. Noda yn ei ddadansoddiad o adroddiad *Iaith Pawb*, 'the absence of a language rights approach' (Williams, 2004: 1). Ymddengys i'r gorolwg cryno hwn ar ymagwedd ByLG at farchnata gadarnhau honiad a wnaed gan sylwebwyr eraill (e.e. Williams a Morris, 2000) fod ByLG wedi mabwysiadu ymdriniaeth neo-ryddfrydol. Hefyd, cofnoda Williams fod *Iaith Pawb* yn 'replete with neo-liberal assumptions' (2004: 6) a bod ByLG wedi defnyddio dulliau marchnata yn hytrach nag ymagwedd ddeddfwriaethol mewn perthynas â pholisi ynghylch y sector preifat wrth gyflwyno tystiolaeth fel rhan o adolygiad polisi iaith Gymraeg LICCC (Williams, 2004: 9). O bosibl, mae absenoldeb hawliau ieithyddol ar ei amlycaf ym maes datblygiad economaidd, a'r sector preifat yn neilltuol. Daw Williams i'r casgliad canlynol:

The Welsh Language Board has adopted a position which is antithetical to more legislation, preferring that additional monies be expended on marketing and supporting Welsh within the private sector. Specific initiatives would include a sector-by-sector promotional campaign to increase the use of Welsh in, for example, retailing, banking and insurance, sport and leisure. Detractors would argue that this represents a thin patina of bilingualism and does not come close to honouring the presumed rights of Welsh-speaking workers or customers at the heart of the Welsh economy. (Williams, 2004: 24)

Mae ystod eang o aelodau'r gymdeithas Gymreig yn gyfrifol am yr ymdriniaeth o'r iaith Gymraeg, yn ogystal â rhai sydd ag ymagweddau gwahanol iawn i ymagwedd ByIG a LICCC tuag at yr iaith. Mae rhai siaradwyr Cymraeg o fewn y mudiad iaith Gymraeg am symud yr ymdriniaeth i gyfeiriad ôl-drefedigaethol ac adfywiad yr hunaniaeth genedlaethol Gymreig yn y Gymru wedi'r datganoli (e.e. Dafis, 2004). Sylwa Williams fod y prif grwpiau o fewn y mudiad iaith Gymraeg, megis Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Chymuned, yn rhoi llais i 'a deep-seated resentment that Welsh speakers are devoid of fundamental rights, given that language rights in Wales pertain to institutional services rather than to absolute rights as individual citizens' (Williams, 2004: 12). Yn absenoldeb yr hawliau fe wêl y grwpiau hyn barhad y gorffennol trefedigaethol. Nodweddir eu hymdriniaeth hwythau yn rhannol gan barhad yr ymwybyddiaeth o fygythiad y meddwl trefedigaethol i'r iaith Gymraeg (e.e. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 2004 a Chymuned, 2005). Yn ôl Phillips, mae'r syniad o Gymru fel endid trefedigaethol wedi mwynhau cryn sylw ymhlith siaradwyr Cymraeg, er enghraifft:

The idea that Wales has been colonized has been a central theme in Welsh-language politics for many years ... The semantics of the 'language struggle' discourse has been particularly loaded with references to colonisation, from the description of Whitehall policy as 'colonial policy', to the ironic labelling of the Secretary of State for Wales as the 'governor general' ... To many Welsh speakers in particular, therefore, the terms 'post-devolution Wales' and 'postcolonial Wales' are synonymous. (Phillips, 2005: 101 & 103)

Nid yw daliadau neo-ryddfrydol ac ôl-drefedigaethol yn bartneriaid ideolegol naturiol ac, yn wir, mae gan y berthynas rhwng ByIG, ar y naill law, a mudiadau megis Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Chymuned, ar y llaw arall, ei thensiynau, er bod cadeirydd presennol a sawl un o gyn-gadeiryddion ByIG wedi bod yn aelodau blaenllaw iawn o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Os caiff y ddeialog sydd rhwng y gwahanol fathau hyn o ymdriniaethau eu mewnnoli i FyIG, yna mae hefyd ar fin ei ymsefydliadoli ymhellach wrth i weinyddiaeth Lafur LICCC benderfynu ym mis Hydref 2004 y dylai ymdoddi ByIG ym mheirianwaith y Cynulliad yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, fe ystyria LICCC mai un o swyddogaethau'r llywodraeth yw ByIG. Er enghraifft, yn adroddiad *Iaith Pawb* adwaenir ByIG fel asiantaeth LICCC ar gyfer hyrwyddo a marchnata'r iaith Gymraeg. Cadarnheir hyn yn y strategaeth farchnata a fabwysiadwyd gan FyIG ar gyfer 2004-6 ac mae ByIG yn nodi: 'Mae *Iaith Pawb* yn sôn bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n galed, trwy gyfrwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i farchnata a hyrwyddo'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd Cymru.' Wedi dweud hynny, mae pryderon

ByIG ynghylch yr ymdoddi hwn wedi'u mynegi'n gyhoeddus. Dadleuwyd bod manteision mewn gweithredu hyd braich oddi wrth y llywodraeth ac yn neilltuol wrth geisio cynnal consensws gwleidyddol ar yr iaith Gymraeg (Huws, 2004).

Mae cyd-destun ehangach eto yn perthyn i'r bwriad o integreiddio ByIG i Lywodraeth y Cynulliad. Uchelgais cynnar iawn y weinyddiaeth gyntaf yn y Cynulliad (clymblaid Llafur-Rhyddfrydol) oedd terfynu bywyd sawl cwango - cynnyrch y polisiâu neo-ryddfrydol a ddilynwyd gan y gwahanol lywodraethau Ceidwadol yng Nghymru yn ystod y 1980au a'r 1990au. Mae gan y diwygiad cyfyngedig hwn ym maes llywodraethiant yng Nghymru, yn ôl Williams, oblygiadau neilltuol i bolisi iaith. Ac yn hyn o beth, mae gan adroddiad *laith Pawb* y potensial o fod yn bwynt allweddol wrth newid cyfeiriad ac athroniaeth polisi iaith Gymraeg a'r berthynas rhwng yr iaith a'r wladwriaeth yng Nghymru; er enghraifft:

It is important to recall that *laith Pawb* is a strategic statement of policy; it is not a detailed language-planning document. I have treated it as a statement of doctrine which derives implicitly from a new form of governance related to the communitarian social state. This approach accepts the irreversibility of the neo-liberal reforms of the 1980s, but wishes to inject into them some elements of social solidarity and community. The State is modeled in a more positive way than in neo-liberalism, but the emphasis is now on partnership - between central and local and between public and private - as well as on subsidiarity. This partnership arrangement is best seen in terms of language and governance in the National Assembly for Wales's conception of the triangular relationship between the Welsh Language Board, its various sponsored partners, such as the National Eisteddfod, the Urdd, the Mentrau Iaith and the general public. (Williams, 2004: 6)

Ceir gwrthyferbyniad arwyddocaol o ran termau rhwng ByIG, sy'n disgrifio y defnyddwyr allweddol fel 'cwsmeriaid', a LICCC, sy'n cyfeirio at ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fel 'dinasyddion'. Er enghraifft, mewn darlith gyhoeddus a draddodwyd ym Mhrifysgol Caerdydd, mynegodd Rhodri Morgan, Prif Weinidog LICCC, ei awydd i weld y berthynas rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a'r cyhoedd yn nhermau 'co-operation' yn hytrach nag edrych ar ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus fel 'consumers' (Morgan, 2004). Mae'r tensiwn sydd ar waith yma yn perthyn yn uniongyrchol i faes hawliau ieithyddol a llywodraethiant, yn ôl Loughlin a Williams, a hynny mewn ffordd neilltuol, sef:

Considerations of post-sovereign interaction in the Europeanization of public affairs render formal language planning increasingly difficult. This is because the post-Enlightenment notions of inclusive citizenship are breaking down in the face of market segmentation and apparent consumer empowerment. This leads to a basic tension between commonality and fragmentation, between the basic needs of state socialization, including communicative competence in state-designated languages, and the reality of individual choices and the community-orientation of many interest groups. (Loughlin a Williams, ar y gweill: 22)i

Diwedd glo

Mae cynulleidfa'r iaith Gymraeg, o safbwynt marchnata, yn gorff rhanedig. Adlewyrchir hyn yn ymdriniaeth amrywiol aelodau'r gymdeithas wrth ymwneud â materion ieithyddol ar wahanol lefelau. Mae strategaeth farchnata ByIG yn cydnabod peth o'r amrywiaeth ond y mae bylchau. Hefyd, mae'r consensws gwleidyddol, sydd wedi bod dan bwysau ers datganoli, yn debygol o gael ei erydu ymhellach wrth i'r broses wleidyddol yng Nghymru barhau i esblygu a chael ei diffinio mewn perthynas â materion neilltuol Cymreig, gan gynnwys yr iaith. Mae'r gwaith o gynllunio ieithyddol yn debygol o ddod yn fwyfwy anodd a gwleidyddol wrth i ystyr ac arwyddocâd y gwahanol ymdrechion i godi statws yr iaith Gymraeg adleisio mewn gwahanol ffyrdd trwy'r gynulleidfa honno. A hanfod y tensiynau fydd ynghlwm wrth y broses honno yw'r union werthoedd sy'n diffinio'r iaith Gymraeg ar gyfer y gynulleidfa, sef y wladwriaeth a'r genedl Gymreig.

Llyfryddiaeth

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2005), *Dyfodol y Gymraeg: Cynllun strategol 2005* (Caerdydd, ByIG)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004a), *Strategaeth farchnata 2004/5-2005/6* (Caerdydd, ByIG)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, (2004b), www.bwrdd-yr-iaith.org.uk, 'Work Play Live ...Use Welsh' (Caerdydd, ByIG, 6 Medi 2004)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996), *Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg* (Caerdydd, ByIG)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Pecyn Croeso* (Welcome Pack) *Symud i Gymru* (Moving to Wales) (Caerdydd, ByIG, d.d.)

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2004), www.cymdeithas.com, neges heb deitl wedi'i hanfon gan Dewi Jones, 19 Mai 2004. Dyddiad yr aed at y wefan: 22 Mehefin 2005

Cymuned (2005), www.cymuned.org, 'Mewnfudo Ia, Gwladychu Na!', neges wedi'i hanfon gan Aran, 16 Chwefror 2005. Dyddiad aed at y wefan: 22 Mehefin 2005

Dafis, C., *Migration, identity and development*, *Agenda 2004*, 4-7 (2004)

Huws, M., *Diwygio'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad*, llythyr oddi wrth Meri Huws, Caerdydd, ByIG, at Rhodri Morgan, Prif Weinidog, LICCC (17 Medi 2004)

Loughlin, J. a Williams, C.H.W., (ar y gweill), 'Language and governance: the intellectual inheritance', yn Williams C.H., (gol.), *Language and governance* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)

Morgan, Rh., *Public services: looking to the future for Wales*. *BBC Wales Regeneration Lecture* (Prifysgol Caerdydd, 7 Hydref 2004)

Phillips, D., (2005), 'A new beginning or the beginning of the end? The Welsh language in a postcolonial Wales', yn J. Aaron & C. Williams (goln.), *Postcolonial Wales*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, tt.100-113.

Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (LICCC), *Iaith Pawb. Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog. A national action plan for a bilingual Wales* (Caerdydd, LICCC, 2003)

Williams, C.H.W., 'Iaith Pawb: the doctrine of plenary inclusion', *Contemporary Wales* 17, (2004),1-27

Williams, G. a Morris, D., *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

Dr Enlli Thomas

Natur prosesau caffael iaith gan blant: marcio cenedl enwau yn y Gymraeg

GWERDDON

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyrol I, Rhif 1, Ebrill 2007 • ISSN 1741-4261

Natur prosesau caffael iaith gan blant: marcio cenedl enwau yn y Gymraeg

Dr Enlli Thomas

Crynodeb

Un o'r elfennau mwyaf trawiadol ynghylch y broses o gaffael iaith gan blant yw pa mor rhwydd a didrafferth yr ymddengys eu meistrolaeth, nid yn unig o ran cyflymder datblygu geirfa gynhyrchiol - yr arwydd amlycaf fod iaith ar waith - ond hefyd o ran datblygu gramadeg - y set o reolau unigryw a chymhleth hwnnw sy'n sail i bob iaith. Un enghraifft dda o system gymhleth sy'n cael ei meistrolu'n gynnar ac yn gymharol ddiymdrech mewn nifer o ieithoedd yw'r system 'genedl enwi gramadegol'. System yw hon ble y dosrennir pob enw'n fypwyl (mwy neu lai) i un o ddau (neu fwy) o ddsbarthiadau yn seiliedig ar eu cenedl gynhenid. Nid oes a wnelo nodweddion biolegol (rhyw) ddim â'r dosraniad hwn. Mae i bob enw genedl, yn enw am wahanol unigolion, anifeiliaid, a gwrthrychau byw a difwyd. System ramadegol yw hi ble y dosrennir enwau i un o'r categorïau cenedl, weithiau yn ôl nodweddion strwythurol y mae aelodau enwol o'r un genedl yn eu rhannu neu yn ôl eu hymddygiad mewn cyd-destunau arbennig. Mae i'r naill genedl fel y llall ei set o farcwyr cenedl ei hun, a thrwy ddefnyddio'r holl elfennau sy'n perthyn i'r un genedl â'r enw ceir cytundeb cenedl ar draws elfennau ieithyddol.

Wrth gaffael iaith rhaid dod i adnabod pa elfennau o'r iaith sy'n cytuno ac yn cydymddangos mewn cyd-destunau cenedl arbennig: rhaid nodi'r berthynas rhwng 'ffurf' y gair a 'gweithred' y gair hwnnw o fewn yr iaith os am fod â gwybodaeth (neu ddealltwriaeth) gynhyrchiol o'r system. Rhaid i unrhyw elfen gystrawennol gael ei hamlygu'n glir ac yn amlwg fel hyn os yw plant am ei dysgu'n didrafferth ac effeithiol (Lieven, 1997). Ond nid yw hygyrchedd mapio 'ffurf-weithrediad' pob system genedl yn amlwg bob tro. Mae i bob iaith ei heithriadau, ond tra bo i rai ieithoedd giwiau dibynadwy a chlir am genedl ei henwau, nid oes i eraill giwiau mor amlwg a chlir.

Gwahanol systemau - gwahanol batrymau

Nid pob iaith sy'n gwahaniaethu rhwng cenedl ramadegol; ceir rhai, megis Tsieinëeg (Vigliocco a Franck, 1999) a Saesneg, sydd ond yn dangos cenedl 'naturiol' neu 'genedl semantaid', neu yr hyn y cyfeirir ato ambell waith fel 'cenedl gysyniadol' (conceptual gender) (gweler Vigliocco a Franck, 1999). Ceir eto eraill heb unrhyw fath o ddsraniad o ran cenedl, er enghraifft Perseg Cyfoes (Peinovich, 1979) a Ffinneg, ble y defnyddir yr un ffurfiau gramadegol wrth gyfeirio at unigolion o'r naill ryw a'r llall. Mewn ieithoedd o'r fath, ni ellir gwahaniaethu o ran cenedl ond ar gyfer enwau sy'n dynodi pobl ac anifeiliaid y gellir yn hawdd eu gwahaniaethu ar sail rhyw.

Mewn ieithoedd ac iddynt systemau cenedl gramadegol, mae'r dull o gategoreiddio enwau yn ôl cenedl yn gwbl wahanol. Fel y crybwyllwyd uchod, cyfeirir 'cenedl' at gategori 'gramadegol' enwau yn unig, ac nid o gwbl at ryw gwrthrych y cyfeirir. Ys

dywed Griffiths a Jones (1995), wrth gyfeirio at y system genedl enwi yn y Gymraeg: 'it is misleading and unfortunate that the labels masculine and feminine have to be used . . . It would be just as logical to classify nouns as red nouns and green nouns, or as round nouns and square nouns' (t. xii). (Er hynny, nid damwain yw'r ffaith fod y genedl 'gwrywaidd' gan amlaf yn cynnwys enwau am wrywod, a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â gwrywod, a'r genedl 'benywaidd' fel rheol yn cynnwys gwahanol enwau am fenywod, ac am wrthrychau sy'n draddodiadol gysylltiedig â benywod.) I nodi rhai enghreifftiau amlwg o'r berthynas rhwng cenedl a gramadeg (nid 'rhyw'), er bod merched yn 'naturiol' fenywaidd, mae *mädchen* 'geneth' yn ramadegol niwtral yn Almaeneg (Matthews, 1997), tra bo *cailín* 'geneth' yn ramadegol wrywaidd mewn Gaeleg (Dinneen, 1938). Ac er y gall babanod fod yn naturiol wrywaidd neu fenywaidd, defnyddir *babi* yn ramadegol wrywaidd yn y Gymraeg.

Mewn ieithoedd a chanddynt systemau cenedl enwi gramadegol, ymrennir enwau yn fenywaidd/gwrywaidd (ac weithiau, yn ddibynol ar yr iaith - niwtral) yn ôl pa nodweddion ieithyddol y maent yn eu rhannu gydag aelodau eraill o'r un categori. Yn ddibynol ar sut mae'r iaith yn 'dangos' cenedl enwau, mae'r aelodau o'r un categori yn cymryd yr un banodau, ffurfiau ansoddeiriol, rhagenwau, rhifolion, a.y.b. fel ei gilydd, ac mae'r ffurfiau hynny'n wahanol i'r rhai a gymerir gan aelodau o'r categori(au) arall (e.e. Frigo a McDonald, 1998). Yn yr enghreifftiau canlynol o'r Sbaeneg, mae'r holl eitemau'n cytuno o ran cenedl:

1. *La mesa redonda* 'y + bwrdd (benywaidd) + crwn'
2. *El anillo redondo* 'y + modrwy (gwrywaidd) + crwn'

Yn yr enghraifft gyntaf rhagflaenir *mesa* (benywaidd) 'bwrdd' gan y fannod fenywaidd *la*, a dilynir yr un enw gan yr ansoddair wedi ei farcio gan ei ffurf fenywaidd - *redonda*; mae pob eitem, felly, yn cytuno o ran cenedl. Yn yr ail enghraifft rhagflaenir *anillo* (gwrywaidd) 'modrwy' gan ffurf wrywaidd y fannod *el* a dilynir yr enw gan yr ansoddair wedi ei farcio ar gyfer ei ffurf wrywaidd - *redondo*. Mae'r dewis o ffurf i gyd-fynd â'r enw yn seiliedig ar gytuned (ond mae eithriadau ym mhob iaith). Yn Sbaeneg, os yw'r enw'n fenywaidd (e.e., yn enw sy'n diweddu gydag *-a*, sydd 96.3 y cant o'r amser yn fenywaidd - Teschner a Russell, 1984), bydd yn cymryd *-a* ar y fannod bendant ac ar y rhan fwyaf o ansoddeiriau. Yn yr un modd, os yw'r enw'n cymryd *la* fel ei fannod bendant, bydd hefyd yn cymryd *una* fel ei fannod amhendant; mae enw sy'n cymryd y ffurfiau hyn felly yn fenywaidd. Yn yr un modd, os yw'r enw'n cymryd *el* fel bannod bendant, bydd hefyd yn cymryd *un* fel bannod amhendant. Bydd yr enwau hyn, felly, gan amlaf yn wrywaidd.

Yn hynny o beth, drwy farcio cenedl enw yn y ffordd yma, gellir sefydlu rhyw fath o gytuned rhwng elfennau o'r frawddeg - rhyw fath o 'gytgord morffo-gystrawennol' (Gathercole, 1995), sydd, yn ôl rhai, yn cynorthwyo'r gwrandawr wrth ganolbwyntio ar y nifer o gyfeiriadau a geir mewn disgwrs cymhleth (e.e., Bates, Devescovi, Hernandez, a Pizzamiglio, 1996), ac yn hyrwyddo rhyw fath o 'gadw gafael' ar y berthynas rhwng elfennau o'r frawddeg, o fewn yr un frawddeg a thu hwnt i ffiniau'r frawddeg (Vigliocco a Franck, 1999). Ond dim ond un iaith yw hon. Mae gwahaniaethau traws-ieithyddol o ran patrymau 'amlygu' ac 'arddangos' cenedl yr enw - e.e., yn ddibynol ar yr

iaith gellir dangos cenedl ar ffurfdroadau enwol mewn gwahanol gyflyrau, o ran siâp neu derfyniadau, terfyniadau ansoddeiriau, o ran yr elfennau sy'n marcio'r lluosog, mewn elfennau sy'n marcio cytundeb berfol, neu mewn gwahanol setiau o ragenwau cyd-gyfeiriadol (Maratsos, 1983). Tra bo i rai ieithoedd setiau eithaf clir o 'reolau' sy'n helpu siaradwr i ddewis cenedl yr enwau, ac adnabod patrymau cytundeb o fewn y gystrawen o'i herwydd, nid oes i eraill reolau mor eglur a chlr sy'n hyrwyddo'r adnabyddiaeth o genedl enw o ran nodweddiion arbennig yr enw. Er hynny, mae plant yn parhau i gaffael y systemau hyn. Bwriad y papur hwn yw cyflwyno ymchwil rhagarweiniol sy'n disgrifio caffaeliad plant o system genedl enwi hynod gymhleth: y system genedl enwi yn y Gymraeg.

Y system genedl enwi yn y Gymraeg

Fel pob iaith Geltaidd, mae'r system genedl enwi yn y Gymraeg yn un gymhleth iawn. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei chysylltiad â'r system dreiglo, sef proses sy'n sbarduno newidiadau morffosegol i elfennau blaen geiriau (gweler Thomas, 2001, am drafodaeth). Er mai proses seicolegol yw'r treigladau (seicolegol gan fod y broses yn terfynu mewn newid seicolegol) cânt eu sbarduno gan ffactorau geirfaol, morffolegol, a chystrawennol (Tallerman, 1990; Willis, 1990).

Mae tri math o dreigladau yn y Gymraeg. Tan amgylchidau'r treigladau meddal (TM) ceir y cyfnewidiadau seicolegol canlynol: /p/→/b/, /t/→/d/, /k/→/g/, /b/→/v/, /d/→/ð/, /t/→/l/, /r/→/r/, /m/→/v/ a diddymir /g/ ac yn fwy diweddar (mewn rhai tafodieithoedd) cyfnewidir /tj/ i /dʒ/. Y TM sy'n effeithio'r nifer mwyaf o synau ac sy'n cael ei sbarduno gan y nifer mwyaf o gyd-destunau geirfaol a chystrawennol. Tan amgylchidau'r treigladau trwynol (TT) ceir y cyfnewidiadau seicolegol a ganlyn: /p/→/m/, /t/→/n/, /k/→/ŋ/, /b/→/m/, /d/→/n/, /g/→/ŋ/. Tan amgylchidau'r treigladau llaes (TL), newidir /p/ i /f/, /t/ i /θ/, /k/ i /x/, ac ychwanegir /h/ o flaen llafariadau (ac mewn rhai ardaloedd, newidir /m/ a /n/ i /m̥/ a /n̥/ ar ôl ei). Sbardunir y gwahanol brosesau treiglo gan wahanol eitemau a chyd-destunau ieithyddol (gweler, e.e., Ball a Müller, 1992). Gall y sbardunwyr hyn fod yn eitemau geirfaol (arddodiaid, rhagenwau ansoddeiriol, cysyllteiriau, a.y.b.) neu yn gyd-destunau gramadegol (e.e., gwrthrych y ferf). Ar yr wyneb, gellir dadlau bod hon yn system a chanddi reolau eithaf clir: mae iddi nifer o sbardunwyr sy'n rhaid eu hadnabod, ac mae'r rheiny'n sbarduno un o dri math o broses treiglo. Gwaith y plentyn yw adnabod pa sbardun sy'n sbarduno pa dreigladau yn y mewnbyn ieithyddol y mae'n ei dderbyn, a chynhyrchu'r treigladau hwnnw yn ei allbyn ieithyddol ei hun. Ond nid yw'r broses mor syml â hynny mewn gwirionedd. Ni ellir dadlau bod mapio 'ffurf-weithrediad' y system yn amlwg nac yn eglur, am nifer o resymau, megis y canlynol (gweler Thomas, 2001, am drafodaeth gyflawn):

1. Mae'n effeithio nifer fechan o synau yn unig (/p, t, k, b, d, g, t, r, m/ + llafariadau + /tj/).
2. Ni threiglir /t/ a /r/ ym mhob cyd-destun ar gyfer y TM (e.e., ar ôl yn traethiadol, ar ôl y ffurfiau cymharol *mor* a *cyn*, a'r adferf *pur* - gweler Thomas, 1996, a Thorne, 1993).
3. Ni threiglir pob /g/ ar ddechrau benthyciadau (Thomas, 1996; Ball a Müller, 1992; Awbery, 1986b; Tallerman, 1987).

4. Nid oes setiau cyflawn o sbardunwyr (e.e., nid yw pob arddodiad yn sbarduno treigladd).
5. Nid yw pob sbardun yn sbarduno'r un treigladd bob tro. Ceir yr hyn a elwir yn 'dreigladd cymysg' ble y sbardunir TLI ar /p, t, k/ a TM ar /b, d, g, t, r, m/ ar ôl y geirynnau negyddol *ni* a *na*, y cysylltair *oni* a'r geiryn *oni* (Thomas, 1996; King, 1993).
6. Nid yw pob siaradwr yn gyson yn ei (d)defnydd o'r treigladdau.

Marcio cenedl

Yn y Gymraeg mae cenedl gair yn cael ei amlygu'n rhannol drwy ddefnydd treigladdau. Treiglir enwau benywaidd yn feddal ar ôl y fannod ac *un* (*cath*; *y gath*, *un gath*), a threiglir ansoddeiriau sy'n goleddfu enw benywaidd hefyd yn feddal (*y gath fawr ddu* < *mawr, du*). Sylwer nad yw'r ffurfiau gwrywaidd yn treiglo'n feddal yn y cyd-destunau hyn (*ci*; *y ci*, *un ci*; *y ci mawr du*). Ond nid yw pethau mor syml â hyn. Nid y genedl fenywaidd yn unig sy'n gysylltiedig â'r TM. Mewn rhai cyd-destunau, mae pob gair sy'n treiglo'n feddal yn treiglo'n feddal ar ôl sbardun (e.e., ar ôl set gaeëdig o arddodiaid). Mewn cyd-destunau eraill mae'r genedl wrywaidd hefyd yn cael ei harddangos drwy ddefnydd o'r TM. Mae'r ansoddair meddiannol (homonymaidd) *ei* yn sbarduno TM ar y gair sy'n ei ddilyn os yw'r meddiannydd yn wrywaidd (*ei gar* < *car*), ac yn sbarduno'r TLI (neu ddim treigladd) ar air sy'n ei ddilyn os yw'r meddiannydd yn fenywaidd (*ei char* < *car*; *ei blodyn* < *blodyn*). Mae hyn yn wir am enwau am bobl, anifeiliaid a gwrthrychau difywyd (e.e., *roedd gan y lorri dwll yn ei tho* - gan mai to y *lorri* sydd dan sylw, y *lorri* - enw benywaidd - yw'r meddiannydd ac felly defnyddir y TLI).

Eto, fel a drafodwyd ar gyfer y system dreiglo yn gyffredinol, ac yn ychwanegol i'r hyn a danlinellwyd eisoes fel elfennau sy'n cymhlethu'r system, mae i'r system genedl enwi yn y Gymraeg ei heithriadau anhydraidd, megis y canlynol (gweler hefyd Thomas, 2001, a Gathercole, Thomas, a Laporte, 2001):

1. Ni threiglir enwau unigol benywaidd sy'n dechrau â /t/ a /r/ ar ôl y(r) (e.e., y rhaw; y llaw) (Evans, 1981; Hughes, 1984, Thorne, 1993; Williams, 1980; Watkins, 1993; Ball a Müller, 1992). (Er hynny, mae tuedd i siaradwyr gynhyrchu'r treigladd yn y cyd-destun hwn yn yr iaith lafar - e.e., Thomas, 1996; Awbery, 1986b.) Ni threiglir y synau hyn ychwaith ar ôl y rhifolyn *un* (Hughes, 1984; Evans, 1981; Thomas, 1996).
2. Ni wahaniaethir rhwng y ddwy genedl yn y ffurfiau lluosog, dim ond yn y ffurfiau unigol.
3. Ni ellir ond dangos cenedl drwy dreigladd ar y ffurfiau hynny sy'n gallu treiglo. Mae nifer o ffurfiau nad ydynt yn treiglo, a gellid yn hawdd beidio â marcio eu cenedl o fewn y cyd-destunau hynny - e.e., mae 'fffenest' ac 'ysgol' yn fenywaidd a 'ffrwyth' ac 'ysbyty' yn wrywaidd. Waeth beth yw eu cenedl, cedwir eu ffurfiau cysefin wedi'r fannod: 'y ffenest' (benywaidd), 'y ffrwyth' (gwrywaidd), 'yr ysgol' (benywaidd), 'yr ysbyty' (gwrywaidd). Mae'n bosib, wrth gwrs, i'r ffurfiau hyn gyd-ymddangos ag ansoddair sy'n gallu treiglo (e.e., 'y ffenest ddu'), ond gallant yn hawdd gyd-ymddangos gyda ffurf nad yw'n treiglo hefyd (e.e., 'y ffenest (benywaidd)

newydd', cymharer ag 'y ffrwyth (gwrywaidd) newydd'). Gellir gweld sut y gall hyn gymhlethu'r system ymhellach, o safbwynt y plentyn sy'n ceisio caffael yr iaith.

4. Ni threiglir 'bach' fel ansoddair ar ôl enwau benywaidd bob amser mewn rhai tafodieithoedd yn y gogledd. (Gellir dadlau nad ansoddair mo'r defnydd o 'bach' ym mhob achos o ddiffyg treigladd, ond, yn hytrach, bachigyn. Er hynny, mae'r mewnbwn ieithyddol y mae'r unigolyn yn ei dderbyn yn gamarweiniol, ac yn gymhlethu'r system. Gweler Astudiaeth 1 isod.)
5. Nid yw pob sbardun yn sbarduno'r un treigladd bob tro: $ei + TM = gwrywaidd$, $ei + TLI = benywaidd$.
6. Nid yw pob siaradwr yn gyson yn ei (d)defnydd o'r treigladdau i farcio cenedl. Yn wir, honnwyd bod y system yn dirywio mewn rhai ardaloedd tafodieithol. Yr hyn a nodwyd yw bod gwahaniaeth mawr rhwng defnydd oedolion hŷn ac oedolion ifanc o'r system mewn ardaloedd sydd ar y ffin â Lloegr (gweler Jones, 1998, am drafodaeth ynghylch siaradwyr Rhosllannerchrugog a Rhymni, a Thomas a Gathercole, 2005, am ddata gwrthyferbyniol o ogledd Gwynedd).

O ystyried y dasg o adeiladu 'system' reolaidd allan o'r myrdd hwn o afreoleidd-dra, digon yw dweud y bydd patrwm caffael y system yn y Gymraeg yn eithaf gwahanol i batrymau caffael rhai o'r ieithoedd hynny sydd ac iddynt ddulliau marcio cenedl llawer iawn mwy tryloyw.

Ymchwil ar gaffael systemau cenedl enwi gan blant

Mae ymchwil ddiweddar yn dangos bod plant yn sylwi ar gysondebau o fewn y systemau cenedl enwi y maent yn eu dysgu: maent yn gallu llunio system yn seiliedig ar reol sy'n cysylltu siâp ffonolegol yr enw â'r elfennau eraill sy'n cytuno, ac yn gwneud hynny'n ifanc iawn (Popova, 1973; Maratsos, 1983; Mills, 1986a; Levy, 1983a, 1983b; MacWhinney, 1978; Karmiloff-Smith, 1978, 1979; Martines a Shatz, 1996; Brisk, 1976; Cain, Weber-Olsen, a Smith, 1987; Smoczyńska, 1985). Er enghraifft, mae plant sy'n dysgu Almaeneg yn dod i ddeall y system genedl (eithaf cymhleth) drwy ganolbwyntio ar y rheoleidd-dra yn y system (Mills, 1986a, 1986b; Mulford, 1985). Mae plant sy'n dysgu Sbaeneg yn gwneud defnydd o reoleidd-dra'r diweddiadau (megis yr -o a'r -a) yn gynnar iawn (e.e., Martinez a Shatz, 1996; Pérez-Pereira, 1991a). Mae plant sy'n dysgu Ffrangeg yn talu sylw i siâp ffonolegol yr enwau, ar draul gwybodaeth semantaidd (Karmiloff-Smith, 1978, 1979), a phlant sy'n dysgu Hebraeg yn gwneud defnydd o reoleidd-dra ffonolegol y system (Levy, 1983a, 1983b). Hyd yn oed mewn Pwyleg, sydd â system gyflyrol gymhleth iawn, dangosodd Smoczyńska (1985) fod cytundeb o ran cenedl gyda'r ffurfiau unigol yn cael eu caffael yn ifanc iawn, o ganlyniad, mae'n debyg, i'r ffaith fod terfyniadau cyflyrol Pwyleg yn ddigon rheolaidd (ac yn fwy rheolaidd nag mewn iaith fel Rwsieg, sydd system genedl debyg, ond llai rheolaidd).

Mae canlyniadau traws ieithyddol o'r fath yn cynnig tystiolaeth eithaf cadarn fod plant yn ymateb i'r dasg o gaffael y system genedl enwi yn ôl nodweddion arbennig y system y maent yn ei dysgu. Gellid disgwyl, felly, bod patrymau dysgu plant sy'n dysgu systemau gwahanol yn datblygu'n wahanol: 'whether a child initially acquires a given category

by a phonological, semantic, pragmatic, or syntactic procedure will usually depend on the predominant patterns in the input' (Karmiloff-Smith, 1979, t. 235), a: 'the course of acquisition (for English and German) is linked closely to the structural properties of the language concerned' (Mills, 1986b, t. 31). Yn dilyn hyn, dadleuir y bydd y plant hynny sy'n dysgu systemau cymhleth ble nad oes reolau amlwg am genedl enwau yn dibynnu ar rywbeth ehangach na rheoleidd-dra'r system er mwyn ei chaffael yn llwyddiannus. Gall hyn gynnwys dibyniaeth ar nodweddion semantaidd yr enwau. Yn wir, pan gyflwynwyd cyfres o enwau ffug a oedd yn cynnwys rhai ciwiau posib ar gyfer cenedl i blant a oedd yn dysgu Islandeg, dangosodd Mulford (1983, 1985) fod y plant yn gallu adnabod cenedl enwau am bobl yn amlach nag am anifeiliaid a phobl. Honnai Mulford (1985) fod hynny oherwydd nad yw'r -a derfynol mewn enwau Islandeg yn giw mor rheolaidd ar gyfer dynodi'r genedl fenywaidd â'r -e yn Almaeneg, efallai, gan ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddynodi elfennau eraill o'r gystrawen. (Er hynny, honnodd Pérez-Pereira (1991b), wedi ailddadansoddi'r data, fod plant ymchwil Mulford wedi talu mwy o sylw i'r ciwiau ffurfiol na'r hyn a honnai Mulford yn wreiddiol.)

Ymchwil ar y Gymraeg

Mae'r dystiolaeth hyd yma, felly, yn honni bod plant, pan ydynt yn ifanc iawn, yn dysgu'r system genedl enwi drwy arsylwi nodweddion ffurfiol y system, a'u bod yn gwneud hynny'n effeithiol iawn. Ond, pan fo ciwiau morffo-seinegol y system yn rhai amwys, gall nodweddion rhyw gwrthrych y cyfeirair gynorthwyo'r plentyn wrth y gwaith o farnu cenedl yr enw. Fel a eglurwyd yn gynharach, mae'r modd y dangosir cenedl enw yn y Gymraeg yn dra gwahanol i'r hyn a geir mewn ieithoedd eraill. Oherwydd diffyg rheoleidd-dra'r system yn y Gymraeg, mae'n debyg y bydd plant sy'n dysgu'r Gymraeg yn dibynnu ar rywbeth ehangach na strwythur ieithyddol y system. Yn wir, ac yn debyg iawn i ganlyniadau Mulford (1985), mae ymchwil diweddar gan Gathercole, Thomas, a Laporte (2001) a Gathercole a Thomas (2005) wedi dangos bod plant rhwng 5 a 9 oed sy'n siarad Cymraeg yn adnabod cenedl enwau gwir am bobl 87.2 y cant o'r amser gyda dau giw o'i gymharu ag enwau am anifeiliaid (57.1 y cant) a gwrthrychau (54 y cant). Sylwer hefyd fod perfformiad ar enwau anifeiliaid yn symud oddi wrth y lefel siawns (yn nes at 60 y cant na 50 y cant). Gall hyn fod yn arwydd fod gwybodaeth am natur biolegol gwrthrych yr enw rhywsut yn 'agor y ffordd' tuag at y genedl ramadgeol yn nes ymlaen yn natblygiad y system.

Mae'r astudiaethau sydd wedi eu cynnal ar ddatblygiad y system dreiglo ymhlith plant, ac mewn marcio cenedl yn benodol, yn brin iawn, yn enwedig o ran astudio'r iaith lafar. Er hynny, mae'r hyn sydd eisoes ar gael yn llunio patrwm rhagarweiniol ynglŷn â defnydd ac adnabyddiaeth plant o'r treigladau, fel a ganlyn:

- (i) Honnir nad yw rhannau o'r system dreiglo wedi eu meistroli gan blant 5 oed (Bellin, 1984, 1988), plant 8 oed (Ogwen a Jenkins, 1978), neu hyd yn oed gan blant 11 oed (Hatton, 1988), sy'n awgrymu mai proses hirhoedlog yw'r broses o gaffael y system. Mae hyn yn wir am blant Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. Honnir ymhellach, drwy ddata ar y Llydaweg (Stephens, 1996) a'r Aeleg (O'Baoill, 1992), fod plant yn dechrau drwy ddysgu un ffurf ar gyfer pob enw. Awgryma hyn y gall plant

fod yn ymateb i'r dasg o ddysgu'r system dreiglo drwy ddysgu am natur un eitem ar y tro - proses ddysgu dameidiog.

- (ii) Ceir awgrym fod plant 14 oed yn ymwybodol, yn ysgrifenedig o leiaf, o farcio cenedl ar yr enw ac mewn ansoddeiriau (Jones, 1992), a'u bod yn marcio'r genedl berthnasol dros 80 y cant o'r amser yn y cyd-destunau hynny. Dywed hefyd fod plant 10 i 11 oed yn perfformio'n well gyda rhifolion nag ansoddeiriau, ac yn perfformio ar eu hisaf gyda threfnolion pan ydynt mewn perthynas â chenedl (Jones a Jones, 1984). Mae'n debyg hefyd fod plant yn dangos meistrolaeth o reolau treiglo cenedl yn y Gymraeg a'r Lydaweg ar yr un pryd â rheolau treiglo nad oes a wnelo â chenedl (gweler Jones, 1992, a Stephens, 1996).
- (iii) Mae'n debyg mai'r TM sy'n cael ei ddefnyddio'n fwyaf cyson. (Mae hyn yn cydfynd â data ar oedolion - gweler e.e., Watkins, 1993; Ball, 1988). Ceir sôn hefyd fod rhai sbardunwyr yn cael eu caffael yn gynharach ac yn haws nag eraill, o fewn, ac ar draws y gwahanol dreigladau (gweler, e.e., Hatton, 1988).
- (iv) Gall math ac amllder y mewnbwn ieithyddol ddwyn dylanwad ar ddefnydd rhai plant o'r treigladau. Mae'r plant hynny sy'n derbyn Saesneg yn unig yn y cartref yn llai cynhyrchiol gyda rhai sbardunwyr na'r rhai hynny o gartrefi ble y siaredir Cymraeg (Hatton, 1988; Bellin, 1988; Gathercole, Thomas, a Laporte, 2001; Gathercole a Thomas, 2005). Wedi dweud hynny, gall rhai siaradwyr ail iaith berfformio'n well na siaradwyr iaith gyntaf ar rai o'r sbardunwyr llai cyson (e.e., yn + TT), a hynny, mae'n debyg, oherwydd y math o ddysgu - mae plant ail iaith yn aml yn dysgu'r ffurfiau hyn mewn awyrgylch dosbarth ble pwysleisir y defnydd 'cywir' o'r system; mae siaradwyr brodorol, ar y llaw arall, yn dysgu am y sbardunwyr hyn mewn cyd-destunau mwy naturiol, ac yn ymateb i arferion llafar eu tafodiaith (e.e., defnydd o'r TM/ffurf gysefin yn lle'r TT ar ôl yn - e.e., yn *Gaernarfon*; gweler Davies, 1982).
- (v) Mae perfformiad plant yn newid yn ôl y math o brawf (e.g., Davies, 1982; Hatton, 1988) a steil cyfathrebu (e.g., Bellin, 1988). Hynny yw, mae plant yn perfformio'n wahanol pan ydynt mewn tasgau sy'n annog eu defnydd neu'n mesur eu dealltwriaeth o'r iaith ffurfiol i'w gymharu â thasgau sy'n annog neu'n mesur iaith naturiol.
- (vi) Mae honiadau fod plant yn ymateb yn well ar eitemau geirfaol 'brodorol' nag ar fenthyciadau (Bellin, 1988; cf. Stephens, 1996). Er mai ar ddau eitem yn unig y cafwyd yr effaith yma, os dyna yw'r duedd yn gyffredinol, gall olygu un o ddau beth: (1) fod y plant yn dysgu un ffurf arbennig ar gyfer rhai eitemau; neu, (2) nad yw benthyciadau'n ymdoddi i'r system yn gyflawn.

Yn y papur hwn, disgrifir dwy astudiaeth a gynhaliwyd er mwyn adnabod patrymau caffael y system genedl ramadegol yn y Gymraeg. Er mwyn cael syniad o ddefnydd naturiol plant (ac oedolion) o'r system, casglwyd data o'u defnydd iaith mewn sefyllfa rhannol naturiol drwy ofyn iddynt adrodd stori. Er mwyn cael syniad o natur dealltwriaeth y siaradwyr o'r system ei hun (y cytundeb ar draws elfennau o'r gystrawen a chryfder ciwiau ieithyddol o ran 'ffurf' a 'gweithred' yr enw), cynhaliwyd cyfres o arbrofion byr yn

cynnwys enwau am wrthrychau difywyd yn unig. Un ffordd o astudio natur dealltwriaeth plentyn o'r system yw trwy greu sefyllfaoedd ieithyddol 'newydd' ble mae'n rhaid i'r plentyn ddefnyddio enw newydd (neu enw ffug) mewn cyd-destun ieithyddol ble mae'n rhaid marcio cenedl yr enw. Gellir newid strwythur yr enw ffug fel bod ganddo nodweddion sy'n perthyn i'r naill genedl neu'r llall, neu newid ymddygiad yr enw mewn gwahanol gyd-destunau, a cheisio annog y plentyn i ddefnyddio'r un enw mewn cyd-destun arall ble mae'n rhaid i'r plentyn farcio cenedl yr enw fel bo'r gystrawen yn cytuno. Dull yw hwn o ddod â'r prosesau niwroieithyddol mewnol i'r wyneb. Mae ymchwil blaenorol (e.e., MacWhinney, 1978; Karmiloff-Smith, 1978, 1979; Levy 1983a, 1983b; Mulford, 1983, 1985) wedi defnyddio'r union dull hwn, ac wedi dangos, yn gyffredinol, fod plant yn defnyddio'r ciwiau ffurfiol (diwedd yr enw, y dewis o fannod, y math o ansoddair) yn fwy na'r wybodaeth fiolegol, sydd, mewn ambell i astudiaeth, wedi cytuno ac anghytuno â chenedl ramadegol y gair. Drwy gynnal astudiaethau o ddefnydd a dealltwriaeth plant (ac oedolion) mewn sefyllfa rhannol-naturiol ac arbrolfol, llwyddwyd i lunio darlun rhagarweiniol o batrwm caffael y system gan blant.

ASTUDIAETH 1: Defnyddio'r system ar lafar

Cyfranwyr

Plant

Ymrannwyd 45 o blant i bedwar grŵp oed. Roedd grŵp 1 yn cynnwys plant 4½ oed ($N = 11$, ystod = 4;1 i 5;5 oed, cyfartaledd = 4.9 oed). Roedd grŵp 2 yn cynnwys plant 6 oed ($N = 11$, ystod = 5.9 i 6.7 oed, cyfartaledd = 6.1 oed). Roedd grŵp 3 yn cynnwys plant 7½ oed ($N = 12$, ystod = 6.9 i 7.9 oed, cyfartaledd = 7.2 oed). Roedd grŵp 4 yn cynnwys plant 9 oed ($N = 11$, ystod = 8.3 i 9.7 oed, cyfartaledd = 8.9 oed). Roedd pob plentyn yn mynychu un o ysgolion Ynys Môn neu un o ysgolion ardal Bangor. Derbyniwyd llythyrau caniatâd oddi wrth pob rhiant ynghyd â holiadur yn disgrifio cefndir iaith y plentyn a'i riant/rieni. Roedd pob rhiant (namyn dau) yn honni fod y mewnbwn ieithyddol yng nghartref eu plentyn yn 100 y cant Cymraeg (ac 80 y cant yn y ddau achos arall).

Oedolion

Gwirfoddolodd 30 o oedolion, rhwng 16 a 60+ mlwydd oed, i gymryd rhan. Roeddynt oll yn siarad Cymraeg fel mamiaith ac wedi cael eu magu ar aelwydydd ble y siaradwyd Cymraeg rhwng 80 y cant a 100 y cant o'r amser. Roedd pob un yn frodor o Ynys Môn neu o ardal Bangor ac wedi ymgartrefu yno ar hyd eu hoes. Ymrannwyd yr oedolion i dri grŵp: grŵp 1 yn cynnwys oedolion rhwng 16 a 30 oed ($N = 8$, ystod = 17 i 25 oed, cyfartaledd = 20 oed); grŵp 2 yn cynnwys oedolion rhwng 31 a 50 oed ($N = 10$, ystod = 32 i 49 oed, cyfartaledd = 38 oed); a grŵp 3 yn cynnwys oedolion 51+ oed ($N = 12$, ystod = 52 i 60+ oed, cyfartaledd = 56 oed).

Disgrifiad o'r dasg

Crëwyd cyfres o 28 o luniau i ddisgrifio stori (gweler Ffigwr 1). Camp y cyfranwyr oedd disgrifio'r hyn a welwyd yn y lluniau ar lafar fel stori. Crëwyd y stori o'r newydd (yn hytrach na defnyddio stori oedd yn bodoli eisoes) fel bod modd rheoli'r math a'r nifer o enwau y gellid eu targedu yn y stori.



Ffigwr 1

Er mwyn creu stori naturiol, dewiswyd llunio stori a fyddai'n adlewyrchu'r 'digwyddiadau' arferol a geir mewn straeon plant (gweler Berman a Slobin, 1994, t. 20):

1. *Arwr a'i gyfaill*. Roedd y stori'n cynnwys dau arwr - bachgen (gwrywaidd) a merch (benywaidd) - a'u cyfaill, y gath (benywaidd).
2. *Problem*. Thema'r stori oedd diwrnod golchi dillad. Ond, chwythodd y gwynt y dillad (cymysgedd o enwau gwrywaidd a benywaidd) oddi ar y lein.
3. *Ymdrech i gywiro'r broblem*. Rhedodd y bachgen, y ferch a'r gath drwy'r pentref a'r fferm gyfagos i geisio dal y dillad, gan gasglu'r eitemau hynny a ddaeth i gysylltiad â gwahanol bethau (cymysgedd o enwau am wrthrychau byw a difwyd gwrywaidd a benywaidd) ar hyd eu taith.
4. *Datrys y broblem yn llawen*. Gyda chymorth rhai o'r cymeriadau y daethant ar eu traws (cymysgedd o enwau gwrywaidd a benywaidd am endidau byw a difwyd), casglodd y plant yr holl eitemau o ddillad ynghyd yn eu basged (benywaidd), gyda'r fam yn llawenhau am eu bod wedi dychwelyd yn saff.

Bwriedwyd cynnwys niferoedd cyfartal o enwau gwrywaidd a benywaidd, a chymysgedd o enwau am bobl, anifeiliaid, a gwrthrychau difwyd fel yr enwau targed yn y stori. Roedd yr enwau hynny a dargedwyd yn dechrau gyda'r synau canlynol: /p,

t, k, b, d, g, t, r, m/ (gweler Graff 1). (O dro i dro nid oedd modd cydbwyso'r niferoedd yn llwyr yng nghyd-destun y stori gan nad oedd rhai mathau o enwau yn bodoli yn y Gymraeg - e.e., nid oedd modd dod o hyd i enw benywaidd am anifail yn cychwyn gyda /p/ - heblaw am 'pioden' a fyddai'n fwy tebygol o gael ei alw'n 'aderyn' - y gellid bod wedi ei ddefnyddio.) Er mwyn creu digon o gyfleoedd i'r siaradwyr gynhyrchu enwau ar ôl y fannod, gwnaed ymdrech ymwybodol i ailadrodd y cymeriadau a gwrthrychau targed dro ar ôl tro er mwyn hybu defnydd o'r fannod bendant ('Mae'r ci wedi dal y bais' yn hytrach na 'Mae ci wedi dal pais'). Nid oedd modd sicrhau bod enghreifftiau penodol o bob cysyniad ansoddeiriol syml (e.e., bach a mawr, tew a thenau) yn ganolog i'r stori heb ehangu'n anorfod ar hyd y stori. Er mwyn annog defnydd o rai ansoddeiriau, sicrhawyd fod y stori'n un lliwgar, gan gynnwys digon o enghreifftiau o wrthrychau ac/neu anifeiliaid 'piws', 'pinc', 'coch', 'brown', 'du', 'glas', 'gwyn'/'gwen', 'gwyrd'/'gwerdd', 'llwyd', a 'melyn'/'melen'.

Cyfarwyddiadau

Gwelwyd pob plentyn (ac oedolyn) yn unigol. Cyn i'r plant ddechrau adrodd eu stori, dangoswyd iddynt sut oedd gwneud hynny trwy i'r ymchwilydd adrodd stori 'Tedi yn y sŵ' wrthynt mewn cyfres o ddau lun. Roedd pob enw ac ansoddair y cyfeiriwyd ato yn y stori yn cychwyn gyda sŵn na ellid ei dreiglo yn y cyd-destunau a gynhyrchwyd (e.e., *sebra, jiràff, neidr, hippopotamws, eliffant; jiràff smotiog, sebra streipiog*).

Wedi clywed y stori, gofynnwyd i'r plentyn a hoffai o/hi adrodd ei stori ei hun. Cyflwynwyd iddo/iddi'r stori, a gofynnwyd iddo/iddi ddechrau gydag 'Un tro . . . ' er mwyn annog arddull dweud stori. Wedi iddo/iddi orffen, diolchwyd iddo/iddi a derbyniodd o/hi anrheg fechan am ei g/chyfraniad.

Gofynnwyd i bob oedolyn adrodd y stori fel pe buasai'n adrodd stori i blentyn. Recordiwyd pob sesiwn (gyda'r plant a'r oedolion) ar recordydd fideo fel bod modd trawsgrifio'r straeon wedi i'r sesiwn ddod i ben.

Y Canlyniadau


Dulliau sgorio'r data

Nodwyd pob defnydd o'r ffurfiau *bannod + enw targed* ac *enw + ansoddair*. Dadansodwyd y ddau strwythur ar wahân. Disgrifir, yn gyntaf, y canlyniadau ar gyfer defnydd o'r *fannod + enw targed*, cyn trafod y canlyniadau ar gyfer defnydd o'r *enw + ansoddair* wedi hynny.

Bannod + enw

Ar gyfer pob defnydd o enw targed benywaidd (gweler Graff 1), rhoddwyd sgôr o 1 bob tro y treiglwyd /p, t, k, b, d, g, m/ a phan na threiglwyd /t/ a /r/ ar ôl y fannod. Ar gyfer pob defnydd o enw targed gwrywaidd (gweler Graff 1), rhoddwyd sgôr o 1 bob tro y cynhyrchwyd enw gwrywaidd yn ei ffurf gysefin ar ôl y fannod. (Derbyniwyd nifer o enwau yn ychwanegol i'r enwau targed yng Ngraff 1. Dadansodwyd ymatebion y siaradwyr i'r holl enwau ar wahân i'r dadansoddiadau ar gyfer yr enwau targed yn

unig. Fodd bynnag, gan i'r canlyniadau arddangos yr un tueddiadau, adroddir ar y canlyniadau ar gyfer yr enwau targed yn unig fan hyn.)




Graff 1

Dadansoddiwyd y data drwy ddefnyddio mesur ystadegol cymysg *Analysis of Variance* (ANOVA), ble yr ystyriwyd Math o Enw (byw, difywyd), Cenedl (gwrywaidd, benywaidd), ac Oed (4½ oed, 6 oed, 7½ oed, 9 oed, ac oedolion) fel newidynnau annibynnol. Oherwydd natur y data, lluniwyd y sgorau drwy gyfrifo'r nifer o weithiau y cynhyrchwyd yr enw yn ei ffurf briodol wedi'r fannod allan o gyfanswm y defnydd o'r strwythur y + enw ar gyfer y naill genedl, a chan nad oedd cyfanswm enghreifftiau o'r strwythur am fod yn gyfartal i bawb, rhaid oedd trawsnewid y data trwy ddefnyddio trawsnewidiadau *arcsine*.

Dangosodd y canlyniadau effaith arwyddocaol ar gyfer Cenedl ($F(1, 54) = 86.222$, $p < .001$), Oed ($F(4, 54) = 8.232$, $p < .001$), ac Oed x Cenedl ($F(4, 54) = 4.041$, $p < .01$). Nid chafwyd effaith arwyddocaol ar gyfer Math o Enw ($F(1, 54) = .409$, $p > .05$).

Cafwyd effaith arwyddocaol ar gyfer cenedl oherwydd fod pawb, ar gyfartaledd, wedi ymateb yn well gyda'r enwau gwrywaidd *Cyfartaledd (C) = .98*, *Gwtriad Safonol (GS) = .110* na chyd a'r enwau benywaidd ($C = .75$, $GS = .305$). O edrych ar ganlyniadau'r plant a'r oedolion ar wahân, gwelir bod y plant wedi treiglo'r ffurfiau benywaidd 60 y cant - sy'n uwch na'r lefel siawns - tra bod yr oedolion wedi gwneud hynny 88 y cant o'r amser.

Mae Graff 2 yn dangos patrymau'r data yn ôl oed.



Graff 2

Er mwyn darganfod lleoliad yr effaith arwyddocaol ar gyfer oed, dadansoddwyd y data ymhellach trwy ddull *post hoc* sy'n caniatáu cymariaethau ar draws sgorau cyfartaledd. Datgelwyd bod yr oedolion ($C = .942$, $GS = .155$) wedi perfformio'n well na'r plant 6 oed ($C = .728$, $GS = .369$) ($F(1, 54) = 15.978$, $p < .001$) a'r plant 9 oed ($C = .749$, $GS = .309$) ($F(1, 54) = 22.489$, $p < .001$). O edrych yn fanylach ar y rhyngweithiad arwyddocaol rhwng oed a chenedl, gwelir nad oedd yr ymateb gwahaniaethol rhwng oedrannau yn bodoli ond pan oeddent yn ymateb i enwau benywaidd. Gweler Graff 2.

Gyda'r ffurfiau benywaidd, dangosodd prawf *post hoc* fod yr oedolion wedi ymateb yn arwyddocaol well na'r plant 6, 7½ a 9 oed (Student Newman Keuls, $p < .05$). (Nid oedd gwahaniaeth rhwng perfformiad oedolion a phlant 4½ oed, ond mae'n debyg fod hynny oherwydd na chynhyrchodd y plant ieuengaf fawr o esiamplau y gellid eu dadansoddi.)


O fewn y set o enwau benywaidd, roedd dau enw - 'cwningen' a 'tylluan' - yn dueddol o ymddwyn yn wahanol i'r gweddill gan rai o'r oedolion. Cynhyrchodd dau o'r oedolion 'y ddylluan', gan awgrymu'r defnydd o 'dylluan' (yn hytrach na 'tylluan') fel ffurf gysefin. Cynhyrchodd oedolyn arall 'yr wningen' ddwywaith yn ystod ei stori, gan eto awgrymu'r defnydd o 'gwningen' (yn hytrach na 'cwningen') fel ffurf gysefin yr enw. (Mae treigladau dwbl o'r fath wedi eu nodi eisoes yn Thomas, 1984, a Thomas, 1996.)

Ni chafwyd unrhyw sôn am ganlyniadau arwyddocaol yn ymwneud â'r math o enw (byw/difywyd). Hynny yw, roedd tuedd i bawb ymateb yn yr un ffordd i enwau benywaidd am bobl, anifeiliaid a gwrthrychau difywyd fel ei gilydd, ac i ymateb yn yr un ffordd i enwau gwrywaidd am bobl, anifeiliaid a gwrthrychau difywyd fel ei gilydd.

Enw + ansoddair

Yn gyffredinol, ni chynhyrchwyd llawer o enghreifftiau o'r strwythur *enw + ansoddair* yn ystod y straeon. Oherwydd hynny, dadansodwyd *pob* defnydd o ansoddair ar ôl enw - yn lliwiau, meintiau, a.y.b. - a chynhwyswyd y rhai hynny a oleddfai'r enwau targed ac enwau eraill fel ei gilydd. Oherwydd prinder enghreifftiau o ansoddeiriau gan blant, nid oedd modd ymrannu'r newidynnau i gynnwys Math o Enw fel newidyn yn y dadansoddiadau ystadegol. Cynhaliwyd yr ANOVA, felly, i gynnwys Oed (4½ oed, 6 oed, 7½ oed, 9 oed, ac oedolion) a Chenedl (gwrywaidd, benywaidd) fel newidynnau annibynnol.


Eto, gwelwyd prif effaith arwyddocaol ar gyfer Oed ($F(4, 40) = 3.518, p < .05$). Gweler Graff 3.



Graff 3

Dangosodd dull *post hoc* sy'n caniatáu cymariaethau ar draws sgorau cyfartaledd fod yr oedolion wedi perfformio'n well na'r plant 9 oed ($F(1, 40) = 4.657, p < .05$) a 7½ oed ($F(1, 40) = 8.615, p < .01$), a pherfformiodd y plant 6 oed yn well na'r plant 9 oed ($F(1, 40) = 5.154, p < .05$) a'r plant 7½ oed ($F(1, 40) = 8.011, p < .01$).


Gwelwyd hefyd effaith arwyddocaol rhwng perfformiad yr ymatebwyr i'r ddwy genedl ($F(1, 40) = 25.276, p < .001$). Gweler Graff 4.



Graff 4

Dengys y data fod y cyfranwyr yn cynhyrchu ffurf gysefin ansoddeiriau sy'n goleddfu enwau gwrywaidd bron yn ddiuedd, tra bod y defnydd o'r treigladd meddal ar ôl enwau benywaidd yn anghyson.

O edrych yn fanwl ar y data, datgelwyd bod un eitem eirfaol yn gwrthod treigladd yn gyson ar ôl enwau benywaidd; yr eitem hon oedd 'bach', a ddefnyddiwyd yn bennaf i oleddfu enwau am bobl ac anifeiliaid. Yn ddiddorol iawn, roedd tuedd i'r plant dreiglo 'bach' llawer iawn mwy na'r oedolion: treiglwyd 'bach' rhwng 0 y cant a 84.62 y cant o'r amser yn adroddiadau'r plant a rhwng 0 y cant a 42.1 y cant o'r amser yn adroddiadau'r oedolion. Gan fod y plant wedi cynhyrchu 'bach' yn amlach nag unrhyw ansoddair arall yn eu hadroddiadau, nid oedd modd ailgyfrifo'u data gan eithrio'u defnydd o 'bach'. Fodd bynnag, roedd modd ailgyfrifo defnydd yr oedolion o'r ansoddeiriau gan eithrio 'bach', ac o ganlyniad, gwelir cynnydd yn y defnydd o'r TM ar 'bach' pan yn goleddfu enwau benywaidd (gweler Graff 5).



Graff 5

Crynodeb: Astudiaeth 1

Mae'n amlwg, o'r data, fod y mewnbwn ieithyddol y mae plant yn ei dderbyn oddi wrth rai siaradwyr yng ngogledd-orllewin Gwynedd ac Ynys Môn yn eithaf cyson ar y cyfan o ran marcio cenedl enwau yn y Gymraeg. Er hynny, mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cysondeb marcio'r ffurfiau gwrywaidd a'r ffurfiau benywaidd, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn iaith y plant. Er bod yma dystiolaeth fod plant yn gallu marcio'r genedl fenywaidd yn y cyd-destunau hyn - yn aml yn uwch na lefel siawns - maent eto i gyrraedd lefel yr oedolion, hyd yn oed yn 9 oed. Gall yr anghysondebau o ran marcio'r ffurfiau benywaidd yn y mewnbwn fod yn rhannol gyfrifol am natur hirhoedlog caffaeliad o'r system gan blant. Ond nid yw hynny'n annisgwyl. Er mwyn marcio'r genedl fenywaidd yn y cyd-destunau *bannod + enw ac enw + ansoddair*, rhaid gweddnewid y ffurfiau benywaidd drwy broses ieithyddol gymhleth. Er mwyn marcio'r ffurfiau gwrywaidd nid oes rhaid gwneud dim ond cadw ffurf gysefin yr enw. Wrth farcio'r genedl fenywaidd, y duedd oedd treiglo'r enw wedi'r fannod, a phan na wnaed hynny, y duedd oedd cadw ffurf gysefin y gair. Gellir dadlau, efallai, pan na threiglir y ffurfiau benywaidd yn y cyd-destunau hyn, fod y siaradwyr yn methu gwahaniaethu rhwng y ffurfiau gwrywaidd a benywaidd, a bod y system, o ganlyniad, yn dirywio. Yn yr un modd, os yw'r system yn barod yn dirywio, fel a awgrymir mewn data o ardaloedd llai Cymreig - e.e., Jones, 1998 - gellir dadlau nad yw'r plant yn gwahaniaethu rhwng y naill genedl a'r

llall o ganlyniad i'r dirywiad yn y system. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg fod dirywiad yn digwydd yn nhafodiaith y siaradwyr yn yr ymchwil hon. Anaml iawn y marciwyd y ffurfiau gwrywaidd gyda threigladau perthnasol i'r ffurf fenywaidd gan y plant a'r oedolion. Pe byddai'r cyfranwyr yn ymateb ar lefel siawns, yna byddai enghreifftiau lu o'r treigladau meddal ar y ffurfiau gwrywaidd a'r ansoddeiriau i farcio'r gwrywaidd i'r un graddau ag efo'r ffurfiau benywaidd. Ond nid felly yn y data yma. Cafwyd cysondeb mewn defnydd o'r ffurfiau cysefin mewn perthynas â'r genedl wrywaidd, a chafwyd ymdrech i gynhyrchu'r TM mewn perthynas â'r genedl fenywaidd yn yr un cyd-destun.

Yn wahanol i'r disgwyl, efallai, o ystyried gwaith blaenorol ar y Gymraeg (e.e., Gathercole a Thomas, 2005; Gathercole, Thomas a Laporte, 2001) ac ar ieithoedd eraill a chanddynt systemau llai rheolaidd o ran marcio cenedl (e.e., Mulford, 1985), ni welwyd gwahaniaeth rhwng ymateb y siaradwyr i enwau am endidau byw ac am endidau difywyd o ran eu gallu i farcio'u cenedl. Nid oedd y ciw semantaidd posib am ryw gwrthrych y cyfeirair felly i'w weld yn cyfrannu tuag at ddealltwriaeth plant nac oedolion am genedl yr enw dim mwy na gwybodaeth sy'n ymwneud ag enwau am wrthrychau difywyd.

Yn olaf, darganfuwyd, o'r data, fod un eitem geirfaol - 'bach' - yn gwrthsefyll treigladau ar ôl enw benywaidd, a hynny'n fwyaf aml yn iaith yr oedolion. Mae hynodrwydd yr eitem hon wedi ei drafod eisoes gan eraill (e.e., Thorne, 1993; Thomas, 1996; Griffiths a Jones, 1995; a Thomas, 2001). Drwy edrych ar nodweddion arbennig yr eitem mewn cymhariaeth ag ansoddeiriau eraill, gellir gweld bod 'bach' yn ymddwyn fel rhyw fath o fachigyn i nifer o siaradwyr yng ngogledd-orllewin Gwynedd ac Ynys Môn. Pan y'i defnyddir felly yn hytrach nag fel ansoddair traddodiadol, bydd y rheol 'treiglo/dim treiglo' yn llai perthnasol. Gall llwyddiant y plant i dreiglo 'bach' yn y cyd-destun benywaidd fod o ganlyniad i'w defnydd cyffredinol o 'bach' fel ansoddair. Ond, yn raddol bach, drwy gynefino ag arferion tafodieithol eu cymuned, bydd eu defnydd o 'bach' fel bachigyn yn cynyddu, gan ymddangos yn ei ffurf gysefin yn eu hiaith.

Drwy dderbyn casgliadau'r astudiaeth hon, gellir dadlau, yn wahanol i ieithoedd eraill, nad yw plant yn dangos meistrolaeth arwynebol o'r system gymhleth hon yn y Gymraeg, hyd at safon yr oedolion, hyd yn oed pan maent yn 9 oed. Er hynny, mae'n amlwg fod plant yn gwahaniaethu rhwng y ddwy genedl gan mai'r ffurfiau benywaidd yn unig sy'n cael eu marcio drwy dreigladau, er nad yw hynny'n gyson. Ond yr hyn na ellir ei gasglu o ddata o'r fath yw beth yw *natur* dealltwriaeth plant o'r system - pa un ai ydynt yn dysgu'r system yn systemataidd drwy lunio system haniaethol gymhleth ynteu'n dysgu am rannau o'r system fesul eitem. Crëwyd Astudiaeth 2 yn arbennig er mwyn astudio hyn drwy arsylwi gallu siaradwyr i ddefnyddio ciwiau cyd-destunol er mwyn penderfynu ar genedl enw.

ASTUDIAETH 2: Natur dealltwriaeth siaradwyr o'r system

Cefndir i'r astudiaeth

Yma, adroddir ar ganlyniadau pedwar prawf a ddaw o astudiaeth fwy a gynlluniwyd yn bwrpasol er mwyn astudio gallu plant i dalu sylw i'r gwahanol giwiau ar gyfer adnabod

cenedl enwau yn y Gymraeg. (Gweler Thomas, 2001, am drafodaeth lawn.) Roedd pob prawf yn cynnwys geiriau gwir a geiriau ffug. Roedd hanner y geiriau gwir yn enwau benywaidd a'u hanner yn enwau gwrywaidd. Cyflwynwyd hanner y geiriau ffug fel enwau benywaidd a'u hanner fel enwau gwrywaidd yn ôl y ciw. (Gweler Ffigwr 2 am enghreifftiau o wrthrychau ffug.)



Ffigwr 2


Tasg y plentyn oedd cynhyrchu'r un enw a gyflwynyd iddo/iddi, ond mewn cyd-destyn cenedl gwahanol i'r un a gyflwynwyd, neu gynhyrchu ffurf gydefn yr enw. Isod ceir disgrifiad o bob un o'r profion ar wahân (sylwer bod profion 1,2,3 a 4 isod yn cyfateb i brofion 3,4,5 a 6 yn Thomas, 2001 ac yn Gathercole, Thomas a Laporte, 2001):

Prawf ciw 1: y + enw → enw + ansoddair

Bwriad Prawf 1 oedd annog defnydd o'r strwythur **enw + ansoddair** ar ôl clywed yr enw ar ôl y fannod. Hynny yw, cyflwynwyd yr enw drwy gyfeirio at lun ar gerdyn, a dweud, er enghraifft, 'Ar y cerdyn yma, fedri di weld y **gadair**?' a thasg y plentyn oedd gorffen ail frawddeg drwy gynhyrchu'r ansoddair: 'Dyma lun cadair **c/goch**'.

Prawf ciw 2: enw + ansoddair → y + enw+ ansoddair

Yn y prawf hwn, cyflwynwyd i'r plentyn y strwythur *enw + ansoddair* mewn cysylltiad â llun (e.e., 'Mae Mair wedi colli **cadair goch**.'). Tasg y plentyn oedd ymateb i'r ail lun fel a ganlyn: 'Ond 'naeth hi gael hyd i'r **gadair d/ddu** ar ei gwely'. (Gweler Ffigwr 3 am enghraifft o'r prawf.)



Ffigwr 3

Byddai ymatebion y plant i brofion 1 a 2 yn dangos i ba raddau y mae plant yn gwneud defnydd o'r ciwiau parod yn yr iaith i benderfynu cenedl enw.

Prawf 3: y + enw → enw

Ym Mhrawf 3 ceisiwyd annog y plant i gynhyrchu ffurf gysefin yr enw wedi iddynt glywed yr enw mewn cyd-destun cenedl. Yma, cyflwynwyd yr enw ar ôl y fannod ('Ar y cerdyn yma fedri di weld **y gadair**?') a thasg y plentyn oedd dweud 'Dyma lun **c/gadair**'.

Prawf 4: y + enw + ansoddair → enw

Ym Mhrawf 4 cyflwynwyd y fannod + enw + ansoddair i'r plentyn (e.e., 'Ar y cerdyn yma fedri di weld **y gadair goch**?') a thasg y plentyn oedd ateb 'Dyma lun **c/gadair**'.

Crëwyd Profion 3 a 4 er mwyn gallu arsylwi i ba raddau y mae plant ac oedolion yn ymwybodol o ffurf gysefin yr enw, neu'n gallu darogan ffurf gysefin yr enw o'i gyd-destun cenedl, ac yn sylwi ar gyd-destun treigladol enwau benywaidd.

Eitemau geirfaol

Yn Thomas (2001) lluniwyd y profion i gynnwys eitemau geirfaol gwir a ffug yn dechrau gyda /p, t, k, b, d, g, f, r, m/, a /n/ ac /f/ fel eitemau rheoli. Fodd bynnag, yn y cyd-destunau *bannod + enw* ac *enw + ansoddair*, ceir bod rhai o'r synau hyn, pan maent ar flaen enw neu ansoddair, yn gweithredu fel ciw amlwg am genedl enw tra bod eraill yn gweithredu fel ciwiau llai amlwg. Er enghraifft, o gyflwyno enw ffug yn dechrau gyda /b/ ar ôl y fannod, nid oes modd dweud a yw'r gair yn air gwrywaidd (heb ei dreiglo - megis 'y bwrdd') neu'n air benywaidd yn dechrau gyda /p/ sydd wedi ei dreiglo i /b/ (megis 'y bêl'). Yma, adroddir yn unig ar y dadansoddiadau o'r eitemau hynny y gellir yn hawdd eu hadnabod fel aelodau o un genedl neu'r llall yn y cyd-destunau hyn. Yn hynny o beth, yr eitemau a ganlyn yn unig a ddadansoddwyd ym mhob prawf:

Profion 1 a 3

Eitemau benywaidd:

y + /ð/ (e.e., gwir: 'y ddaear', 'y ddol', 'y ddeilen'; ffug: 'y ddarrig', 'y ddigan', 'y ddabir')

y + /v/ (gyda /b/- fel ei ffurf gysefin - e.e., 'y fwyell', 'y fased', 'y flanced', 'y faniar', 'y felem', 'y fligior')

y + /v/ (gyda /m/- fel ei ffurf gysefin - e.e., 'y faneg', 'y fodrwy', 'y fellten', 'y fedan', 'y faben', 'y fallt')

Eitemau gwrywaidd:

y + /p/ (e.e., 'y papur', 'y plât', 'y popty'; 'y pibot', 'y pwfr', 'y peglan')

y + /t/ (e.e., 'y to', 'y tân', 'y tecell', 'y tesol', 'y tarin', 'y taber')

y + /k/ (e.e., 'y clo', 'y crys', 'y cleddyf', 'y cwgel', 'y cabir', 'y cellig')

y + /m/ (e.e., 'y mynydd', 'y morthwyl', 'y map', 'y mafur', 'y magl', 'y merin')

Profion 2 a 4

Eitemau benywaidd:

/p/, /t/, /k/, /b/, /d/, /g/, /m/ + ansoddair lliw wedi ei dreiglo (e.e., enw + 'binc')

Eitemau gwrywaidd:

/p/, /t/, /k/, /b/, /d/, /g/, /m/ + ansoddair heb ei dreiglo (e.e., enw + 'pinc')

O gynllunio'r profion yn bwrpasol, roedd modd gofyn y canlynol:

- (i) I ba raddau mae plant yn talu sylw i'r ciwiau a'u defnyddio er mwyn penderfynu cenedl enw?
- (ii) A yw cyfuniad o giwiau yn fwy defnyddiol nag un ciw?
- (iii) A oes un ciw yn fwy defnyddiol nag eraill?
- (iv) Os yw cenedl yn nodweddiadol gynhenid enwau, a fydd y plant yn perfformio'n well pan fyddant yn ieuengach ar brofion sy'n cynnwys y ffurf enwol yn hytrach na'r ffurf ansoddeiriol?

Yn gyffredinol, dylai plant berfformio'n well ar eitemau sy'n cynnwys enwau gwir nag enwau ffug o fewn pob prawf. Fodd bynnag, os yw'r plant yn datblygu system haniaethol sy'n seiliedig ar reolau, yna fe ddylai eu perfformiad ar y ffurfiau ffug wella gydag oed a phrofiad.

Cyfranwyr

Plant

Ymrannwyd 48 o blant i bedwar grŵp oed. Roedd grŵp 1 yn cynnwys plant 4½ oed ($N = 12$, ystod = 4.0 i 5.5 oed, cyfartaledd = 4.9 oed). Roedd grŵp 2 yn cynnwys plant 6 oed ($N = 12$, ystod = 5.7 to 6.7 oed, cyfartaledd = 6.2 oed). Roedd grŵp 3 yn cynnwys plant 7½ oed ($N = 12$, ystod = 6.9 i 7.9 oed, cyfartaledd = 7.2 oed). Roedd grŵp 4 yn cynnwys plant 9 oed ($N = 12$, ystod = 8.3 i 9.7 oed, cyfartaledd = 8.9 oed). Roedd bob plentyn yn mynychu'r ysgol un ai ar Ynys Môn neu yn ardal Bangor, ac yn dod o gefndir Cymraeg.

Oedolion

Arbrofwyd 15 o'r 30 o oedolion a gymerodd ran yn Arbrawf 1. Dewiswyd 5 oedolyn allan o bob un o'r 3 grŵp oedran (grŵp 1 = rhwng 16 a 30 oed, cyfartaledd = 20 oed; grŵp 2 = rhwng 31 a 50 oed, cyfartaledd = 38 oed; a grŵp 3 = 51+ oed, cyfartaledd = 53 oed).

Y Canlyniadau


Dadansoddwyd y data drwy ddefnyddio ANOVA ble yr ystyriwyd Cenedl (gwrywaidd, benywaidd), Prawf (Prawf 1, 2, 3, 4), Math o Enw (gwir, ffug) ac Oed (4½ oed, 6 oed, 7½ oed, 9 oed, ac oedolion) fel newidynnau annibynnol. Rhoddwyd marc o 1 pan farciwyd y ffurf yn addas i'r genedl a marc o 0 pan na farciwyd y ffurf yn ôl cenedl gynhenid neu'r genedl a farciwyd gyda'r ciw.

Dangoswyd y prif effeithiau arwyddocaol canlynol yn y data: Cenedl ($F(1, 46) = 816.366$, $p < .001$), Math o Enw ($F(1, 46) = 60.592$, $p < .001$), Prawf ($F(3, 138) = 7.565$, $p < .001$), ac Oed ($F(4, 46) = 2.652$, $p < .05$). Datgelwyd hefyd ryngweithiadau arwyddocaol rhwng Math o Enw x Cenedl ($F(1, 46) = 13.471$, $p < .001$), Prawf x Cenedl ($F(3, 138) = 28.956$, $p < .001$), Cenedl x Oed ($F(4, 46) = 23.053$, $p < .001$), Prawf x Math o Enw x Cenedl ($F(12, 138) = 5.554$, $p < .001$), a Prawf x Cenedl x Oed ($F(12, 138) = 6.460$, $p < .001$). Golygai'r effeithiau hyn y canlynol:

- (i) Roedd y siaradwyr i gyd yn perfformio'n well, yn gyffredinol, ar ffurfiau gwrywaidd na benywaidd.
- (ii) Roedd y siaradwyr i gyd yn perfformio'n well, yn gyffredinol, ar enwau gwir nag enwau ffug.
- (iii) Roedd tuedd i'r cyfranwyr berfformio'n well ar brofion a oedd yn annog defnydd o'r enw ar ôl y fannod na'r ansoddair ar ôl yr enw gan fod tuedd i ordefnyddio'r TM ar ansoddeiriau fel bod perfformiad ar eitemau benywaidd yn uchel ond yn isel ar eitemau gwrywaidd.
- (iv) Roedd yr oedolion yn perfformio'n well, yn gyffredinol, na'r plant ar y ffurfiau benywaidd gwir (ond yn tueddu i ordreiglo'r ansoddeiriau ar ôl enwau gwrywaidd yn fwy na'r plant ieuengaf), ond nid oedd gwahaniaeth rhwng yr oedolion a'r plant ar y ffurfiau ffug.

(Gweler Thomas, 2001, am drafodaeth lawn o'r canlyniadau hyn.)

Gellir gweld rhai o'r effeithiau hyn yn y rhyngweithiad canlynol a ddangosir yng Ngraff 6 (Math o Enw x Cenedl x Oed ($F(4, 46) = 2.933, p < .05$)).



Graff 6

Crynodeb: Astudiaeth 2

Mae'n amlwg, o'r data, nad yw plant nac oedolion yn meddu ar ddealltwriaeth gynhyrchiol o'r system cenedl enwi yn y Gymraeg. Yn benodol, nid oedd unrhyw un o'r ciwiau a gyflwynwyd yn helpu siaradwyr i farcio'r genedl mewn cyd-destun cenedl enwi gwahanol.

Trafodaeth a chasgliadau cyffredinol

Un o'r honiadau mwyaf blaengar ymysg ymchwil ar genedl enwi yw fod plant yn sylwi ar nodweddion ffurfiol y system er mwyn penderfynu ar genedl enw (e.e., MacWhinney, 1978; Karmiloff-Smith, 1978, 1979; Böhme a Levelt, 1979; Levy, 1983a, 1983b; Mills, 1986a; Cain, Weber-Olsen, a Smith, 1987; Martinez a Shatz, 1996), a hynny, gan amlaf, pan fo plant yn dysgu systemau tryloyw sydd â mapio ffurf-gweithrediad eithaf amlwg. Mae'r data ar y Gymraeg yn groes i'r honiadau hyn am y rhesymau canlynol:

Yn gyntaf, roedd sgorau cyfartaledd ar gyfer yr enwau benywaidd yn Astudiaeth 2 yn isel iawn ($C = .258$). Mae perfformiad o'r fath yn awgrymu nad oedd y plant yn gweld yr wybodaeth ffurfiol a oedd yn dynodi cenedl enwau yn ddefnyddiol. (Roedd canlyniadau'r oedolion yr un mor isel - $C = .585$ - ond yn nes at lefel siawns.)

Yn ail, ni pherfformiodd y plant na'r oedolion yn gynhyrchiol iawn efo'r enwau ffug. Hynny yw, ni lwyddodd y plant na'r oedolion i farcio cenedl y geiriau ffug (a'r enwau benywaidd yn benodol). Eto, mae hyn yn awgrymu nad oedd y ciwiau a gyflwynwyd o ddefnydd i'r plant wrth ddyfalu cenedl enw. Hyd yn oed pan ddadansodwyd yn unig yr eitemau hynny nad oedd yn amwys o ran ciw, roedd perfformiad yr oedolion yn dal ar lefel siawns ($C = .517$). (Er hynny, roedd hyn yn gynnydd o'u perfformiad pan ddadansodwyd yr holl eitemau, gan gynnwys y rhai amwys, yn Thomas, 2001 - roedd $C = .323$ bryd hynny.) Mae hyn yn awgrymu bod yr oedolion yn gwneud mwy o ddefnydd o'r ciwiau anamwys na'r ciwiau amwys. Ond nid oedd fawr o gynnydd ym mherfformiad y plant ar draws y ddau set o ddadansoddiadau, gan awgrymu nad oedd y ciwiau anamwys hyd yn oed yn fawr o gymorth wrth ddyfalu cenedl y ffurfiau ffug.

Cwestiwn arall sydd wedi ei ofyn yng ngŵydd ymchwil ar genedl enwi yw i ba raddau mae plant yn dibynnu ar wybodaeth all-ieithyddol (h.y. rhyw biolegol gwrthrych y cyfeirair) er mwyn penderfynu cenedl yr enw. Mae'r ymchwil hyd yn hyn yn honni nad yw plant yn talu fawr o sylw i giwiau o'r fath, gan fod y ciwiau ieithyddol yn llawer iawn mwy defnyddiol mewn nifer o ieithoedd. Fodd bynnag, pan mae'r iaith ac iddi system genedl gymhleth, gall gwybodaeth semantaidd fod yn ddefnyddiol weithiau (e.e., Mulford, 1985). Gan fod y system yn y Gymraeg yn gymhleth iawn, mae'n dilyn ei bod yn bosib y bydd y plant yn gweld ciwiau semantaidd o ddefnydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth rhwng enwau am endidau byw a gwrthrychau difwyd yn Astudiaeth 1, felly nid oes unrhyw dystiolaeth fod plant yn talu sylw i nodweddion rhyw y cyfeireiriau wrth ddyfalu cenedl enw.

Cwestiwn arall a ofynnir yw, a yw un cyd-destun cenedl yn fwy defnyddiol fel ciw nag un arall. Mae ymchwil blaenorol yn awgrymu bod plant yn dysgu marcio enwau am eu cenedl cyn eu bod yn marcio cenedl gydag ansoddeiriau. Mae'n anodd ateb y

cwestiwn hwn ar sail y data presennol, gan fod prinder enghreifftiau o'r ansoddeiriau - namyn 'bach' - yn adroddiadau storïol y plant yn Astudiaeth 1. Mae'r data o Astudiaeth 2 yn anos byth i'w ddehongli. Roedd tuedd i orgynhyrchu TM ar ansoddeiriau yn gyffredinol, efallai oherwydd tuedd i orgywiro eu hynganiadau o dan amgylchiadau arbrol. Oherwydd hynny, roedd perfformiad ar y ffurfiau benywaidd yn uchel (gan fod angen treiglo'r ansoddair yn y cyd-destun benywaidd) a pherfformiad ar y ffurfiau gwrywaidd yn isel (gan nad oedd angen treiglo'r ansoddair yn y cyd-destun gwrywaidd). Roedd hyn yn wir yn nata'r plant a'r oedolion. Efallai bod y duedd i ordreiglo'r ansoddair yn dilyn ffactorau yn ymwneud ag amllder ffurfiau yn yr iaith. Gan fod yr ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl yn traethiadol, e.e.: 'mae hi yn wlyb < gwlyb;' 'mae o yn goch < coch', gall fod y plant yn clywed yr ansoddair ar ôl yn fwyaf aml - ble mae pob ansoddair yn treiglo. Cefnogir hyn gan y ffaith na welwyd gorestyniad o'r TM ar yr enwau gwrywaidd wedi'r fannod - dim ond ar yr ansoddeiriau.

Un darganfyddiad cyson yn y llyfryddiaeth ar genedl enwi yw bod plant yn dysgu marcio cenedl enwau gwir neu 'naturiol' erbyn eu bod tua 3 oed (e.e., Clark, 1985; Mulford, 1985; Levy, 1983a, 1983b). Nid yw'r data o'r astudiaeth hon yn cefnogi hyn, fodd bynnag. Yn gyffredinol, dengys yma fod yr oedolion yn perfformio'n well na'r plant ar y cyfan. Er hynny, roedd y plant 9 oed yn perfformio'n debyg i'r oedolion, sy'n awgrymu bod datblygiad cynyddol gydag oed ymysg oedrannau'r plant. Ond ni welwyd cynnydd gydag oed o ran perfformiad ar y ffurfiau ffug, fodd bynnag.

Yr hyn y mae'r data yn ei awgrymu, yn y pen draw, yw nad yw'r system Gymraeg yn system haniaethol, seiliedig ar reolau i blant. Nid yw plant i'w gweld yn talu sylw i nodweddion ffurfiol y sytem: nid yw'r cyd-destunau *bannod + enw nac enw + ansoddair* yn giwiau defnyddiol iawn i'r plant. Mae'n debyg, felly, fod y broses o gaffael iaith gan blant yn aros ar lefel fwy arwynebol, gyda phrosesu ar lefel fanylach - eitem fesul eitem. Ceir tystiolaeth i gefnogi'r syniad fod plant yn ymateb i'r gamp o ddysgu iaith mewn modd mwy tameidiog o astudiaethau diweddar yn edrych ar forffoleg berfol yn bennaf (e.e., Gathercole, Sebastián, a Soto, 1999; Braine, 1976; Clark, 1974, 1982; Bloom, Lifter, a Hafitz, 1980; Shirai ac Andersen, 1995; Pizzuto & Caselli, 1993, 1994; Rubino a Pine, 1998; Tomasello, 1992, 2000) ond hefyd ar gyfer ystod o gystrawennau gramadegol (e.e., Lieven, Pine, a Baldwin, 1997; Pine a Lieven, 1993, 1997; Pine, Lieven, a Rowland, 1998). Mae'r astudiaethau hyn yn cytuno bod defnydd cynnar o eitemau ieithyddol arbennig yn gyfyngedig. Er enghraifft, ymdrinnir â berfau fel eitemau geirfaol unigol, a rhaid dysgu am eu hymddygiad fesul un (Tomasello, 2000). Mae'r data o'r astudiaethau ar y Gymraeg yn awgrymu datblygiad tebyg ar gyfer cenedl ramadegol: gall fod y plant yn cychwyn drwy ddysgu'r system yn arwynebol, drwy ddysgu'r gwahanol ddulliau marcio cenedl ar gyfer pob enw yn unigol. Dônt i gaffael gwybodaeth fwy haniaethol gydag oed a phrofiad, ond dim ond lle mae'r system yn ddiawys.

Casgliad

Mae'r data o'r ddwy astudiaeth yn awgrymu nad yw gwybodaeth plant Cymraeg o'r system cenedl enwi yn y Gymraeg mor gynhyrchiol ag eiddo plant yn dysgu ieithoedd eraill. Nid yw plant Cymraeg wedi meistrolï'r system erbyn eu bod yn 9 oed. Nid oedd gwybodaeth semantaidd yn ddefnyddiol er mwyn penderfynu cenedl enwau, ac nid

oedd modd dweud yn iawn a oedd un math o giw yn fwy defnyddiol fel ciw nag un arall gan fod tuedd i'r cyfranwyr orddefnyddio'r TM ar ansoddeiriau yn ystod y profion. Ni lwyddodd plant nac oedolion i ddangos eu bod yn talu sylw i'r ciwiau ar gyfer cenedl yr enwau pan oeddent yn delio ag enwau ffug. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r plant yn dysgu system drwy lunio darlun haniaethol o'r iaith.

Pan fo iaith a chanddi system cenedl enwi gymhleth sy'n cael ei marcio gan brosesau morffo-ffonolegol amwys, mae caffaeliad o'r system yn hir ac yn estynedig. Bydd cwrs y dysgu'n amrywiol, ac yn debygol o adlewyrchu dulliau dysgu llai systemataidd.

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r awdur ddiolch i Ymddiriedolaeth Ymchwil Prifysgol Cymru Bangor ac i gwmni *Bookland* am noddi'r ysgoloriaeth a gyllidodd yr ymchwil, ac i'r Athro V.C. Gathercole am ei chynngor arbenigol ar y gwaith. Diolch hefyd i'r holl blant, rhieni, ysgolion, ac oedolion a gyfrannodd tuag at yr ymchwil.

Llyfryddiaeth

Awbery, G. M., (1986a), 'Moves towards a simpler, binary mutation system', yn H. Andersen (gol.), *Sandhi phenomena in the languages of Europe, Trends in Linguistics, Studies and Monographs*, 33, (Berlin, Mouton de Gruyter).

Awbery, G. M., (1986b), *Pembrokeshire Welsh: A Phonological Study* (Caerdydd, Amgueddfa Werin Cymru)

Ball, M. J., (1988), 'Variation in mutation - where do the variable rules go?' yn Ball, M. J., (gol.), *The use of Welsh: A contribution to sociolinguistics* (Clevedon, Multilingual Matters)

Ball, M. J., a Müller, N., (1992), *Mutation in Welsh* (Llundain, Routledge)

Bates, E., Devescovi, A., Hernandez, A., a Pizzamiglio, L., 'Gender priming in Italian', *Perception & Psychophysics*, 58, 7 (1996), 992-1004

Bedore, L. M., (1998), *The effect of inflectional variation on fast mapping of verbs*, traethawd doethurol nas cyhoeddwyd, Purdue University

Bellin, W., (1984), 'Welsh phonology in acquisition', yn Ball, M. J., a Jones G. E., (gol.), *Welsh phonology* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)

Bellin, W., (1988), 'The development of pronunciation', yn Ball, M.J., (gol.), *The use of Welsh: A contribution to sociolinguistics* (Clevedon, Multilingual Matters)

Berman, R.A., ac Armon-Lotem, S., (1998), 'How grammatical are early verbs?' papur a gyflwynwyd yn Colloque International de Besançon sur l'Acquisition de la Syntaxe, Besançon, Ffrainc, Tachwedd, 1995

- Berman, R. A., a Slobin, D. I., (1994), *Relating events in narrative: A cross-linguistic developmental study* (Hillsdale, N.J., Erlbaum)
- Bloom, L., Lifter, K., a Hafitz, J., (1980), 'Semantics of the verbs and the development of verb inflection in child language', *Language*, 56 (1980), 366-412
- Böhme, K., a Levelt, W., (1979), 'Children's use and awareness of natural and syntactic gender in possessive pronouns', papur a gyflwynwyd mewn Cynhadledd ar Ymwybyddiaeth Ieithyddol a Dysgu Darllen, Victoria, Canada (1979)
- Braine, M., (1976), 'Children's first word combinations', *Monographs of the Society for Research in Child Development*, 41
- Brisk, M. E. (1976), 'The aquisition of Spanish gender by first grade Spanish-speaking children', yn Keller, G.D., Teschner, R.V., a Viera, S., (gol.), *Bilingualism in the bicentennial and beyond* (New York, Bilingual Press)
- Cain, J., Weber- Olsen, M., a Smith, R., (1987), 'Acquisition strategies in a first and second language: Are they the same?' *Journal of Child Language*, 14 (1987), 333-52
- Clark, R., (1974), 'Performing without competence', *Journal of Child Language*, 1 (1974), 1 - 10
- Clark, R., (1982), 'Theory and method in child language research: Are we assuming too much?' yn Kuczaj, S., (gol.), *language development, I, Syntax and semantics* (New Jersey, Erlbaum, 1982)
- Clark, E., (1985), 'The acquisition of Romance, with special reference to French', yn Slobin, D. I., (gol.), *The crosslinguistic study of language acquisition*, I (Hillsdale, N.J., Erlbaum)
- Davies, D. G., (1982), *Treiglo a throi: Agweddau ar dreigladau trwynol a llaes plant ysgol yn Nyfed*, traethawd meist'r nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru
- Dineen, P. S., (1938), *Irish-English dictionary for the use of schools* (Dublin, M. H Gill and Son, Ltd)
- Evans, H. M. (1981), *Sylfeini'r Gymraeg* (Llandysul, Gwasg Gomer)
- Frigo, L., a McDonald, J. L., (1998), 'Properties of phonological markers that affect the acquisition of gender-like subclasses', *Journal of Memory and Language* 39 (1998), 218-45
- Gathercole, V. C. M., (1995), 'Gender marking in Spanish: Linguistic versus sociological determinants of feminine form in words for humans', yn Kachra, Y., a Bouton, F., (gol.), *Gender, language, and power: Special issue of studies in the linguistic sciences*, 25 (2) (1995), 49-76
- Gathercole, V. C. M., Sebastián, E., a Soto, P., (1999), 'The early acquisition of Spanish verbal morphology: Across-the-board or piecemeal knowledge?' *International Journal of Bilingualism* III, 2 a 3 (1995), 133-82

Gathercole, V.C.M, a Thomas, E.M., (2005), 'Minority Language Survival: Input Factors Influencing the Aquisition of Welsh', yn Cohen, J., McAlister, K.T., Rolstad, K., a MacSwan, J., (goln.), *Proceedings of the 4th International Symposium on Bilingualism* (Somerville, Massachusetts, Cascadilla Press)

Gathercole, V. C. M., Thomas, E. M., a Laporte, N., (2001), 'The acquisition of gatical gender in Welsh', *Journal of Celtic Language Learning*, VI, (2001), 53-87

Griffiths, B., a Jones, D. Glyn, (1995), *Geiriadur yr Academi* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)

Hatton, L., (1988), 'The development of the nasal mutation in the speach of schoolchildren', yn Ball, M. J., (gol.), *The use of Welsh: A contribution to sociolinguistics* (Clevedon, Multilingual Matters)

Hughes, J. E., (1984), *Canllawiau iaith a chymorth sillafu* (Bethesda, Gwasg Ffrancon).

Jones, Bob Morris, (1992), *Linguistic performance and language background: A study of pupils in Welsh-medium schools* (Aberystwyth, Y Ganolfan Astudiaethau Addysg)

Jones, M. C., (1998), *Language obsolescence and revitalization: Linguistic change in two sociolinguistically contrasting Welsh communities* (Oxford, Clarendon Press)

Karmiloff-Smith, A., (1978), 'The interplay between syntax, semantics, and phonology in language aquisition processes' yn Campbell, R., a Smith, P. (goln.), *Recent advances in the psychology of language* (New York, Plenum Press)

Karmiloff-Smith, A., (1979), *A functional approach to child language* (Cambridge, Cambridge University Press)

King, G., (1993), *Modern Welsh: A comprehensive grammar* (Llundain, Routledge)

Levy, Y., (1983a), 'It's frogs all the way down', *Cognition*, 15 (1983), 75-93

Levy, Y., (1983b), 'The acquisition of Hebrew plurals: The case of the missing gender category', *Journal of Children Language*, 10 (1983), 107-22

Lieven, E., Pine, J., a Baldwin, G., (1997), 'Lexically-based learning and early grammatical development', *Journal of Child Language*, 24 (1997), 187-220

MacWhinney, B., (1978), 'The acquisition of morpho-phonology', *Monograph of the Society of Research in Child Development*, 43, 1-2 Serial no. 174 (1978)

Maratsos, M. P., (1983), 'Some current issues in the study of language acquisition', yn Mussen, P., (gol.), *The handbook of child psychology*, III (New York, Wiley)

Martinez, I. M., a Shatz, M., (1996), 'Linguistic influences on categorization in preschool children: A crosslinguistic study', *Journal of Child Language*, 23 (1996), 529-45

Matthews, P.H., (1997), *The concise dictiorary of linguistics* (Oxford University Press)

- Mills, A. E., (1986a), *The acquisition of gender: A study of English and German* (Berlin, Springer-Verlag)
- Mills, A. E., (1986b), 'Acquisition of the natural-gender rule in English and German', *Linguistics*, 24 (1986), 31-45
- Mulford, R., (1983), 'Semantic and formal factors in the comprehension of Icelandic pronoun gender', *Papers and Reports on Child Language Development*, 22 (1983), 83-91
- Mulford, R. (1985), 'Comprehension of Icelandic pronoun gender: Semantic versus formal factors', *Journal of Child Language*, 12, 443-54
- Mulford, R., a Morgan, J. L., (1983), 'On learning to assign gender to new nouns in Icelandic', papur a gyflwynwyd yn the Ninth Annual Minnesota Regional Conference on Language and Linguistics, Minneapolis, Mai 13-14, 1983
- Ó Baoill, D., (1992), 'Developmental stages in the acquisition of Irish phonology and initial mutations', yn D. Ó Baoill (gol.), *Insealbhú na Gaeilge mar chéad teanga. The Acquisition of Irish as a first language* (Dulyn, IRAAL)
- Ogwen, E., a Jenkins, H.E., (1978), *Dysgu darllen: iaith a diddordebau plant* (London and Basingstoke, Schools Council Publications, Macmillan Education Ltd).
- Peinovich, M. P., (1979), *Old English noun morphology: A diachronic study*, *North-Holland Linguistic Series*, 41 (Amsterdam, 1979)
- Pérez-Pereira, M., (1991a), 'The acquisition of gender: What Spanish children tell us', *Journal of Child Language*, 18 (1991), 571-90
- Pérez-Pereira, M., (1991b), 'Semantic versus formal theories of gender acquisition: a criticism of Mulford's study', *Archives de Psychologie*, 59 (1991), 3-16
- Pine, J., a Lieven, E., (1993), 'Reanalysing rote-learned phrases: Individual differences in the transition to multi-word speech', *Journal of Child Language*, 20 (1993), 551-71
- Pine, J., a Lieven, E., (1997), 'Slot and frame patterns in the development of the determiner category', *Applied Psycholinguistics*, 18 (1997), 123-138
- Pizzuto, E., a Caselli, M. C., (1993), 'The acquisition of Italian morphology: a reply to Hyams', *Journal of Child Language*, 20 (1993), 707-12
- Pizzuto, E., a Caselli, M. C., (1994), 'The acquisition of Italian verb morphology in a cross-linguistic perspective', yn Levy, Y., (gol.), *Other Children, other languages: Issues in the theory of language acquisition* (Hillsdale, N.J., Erlbaum) 137-87
- Popova, M.I., (1973), 'Grammatical elements of language in the speech of pre-preschool children', yn Ferguson, C. A., a Slobin, D. I., (goln.), *Studies of child language development* (New York, Rinehart and Winston, Inc)
- Rubino, R., a Pine, J., (1998), 'Subject-verb agreement in Brazilian Portuguese: What low error rates hide', *Journal of Child Language*, 25 (1998), 35-60

- Shirai, Y., a Andersen, R. W., (1995), 'The acquisition of tense-aspect morphology: A prototype account', *Language*, 71 (1995), 743-62
- Smoczyńska, M., (1985), 'Acquisition of Polish', yn Slobin, D. I., (gol.), *The cross linguistic study of language acquisition*, 1 (Hillsdale, N. J., Erlbaum)
- Stephens, J., (1996), 'The acquisition of mutations in Breton', *Lesser used languages: Project work in Progress*, 1, (Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd)
- Tallerman, M., (1987), *Mutation and the syntactic structure of modern colloquial Welsh*, traethawd doethurol nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru.
- Tallerman, M., (1990), 'VSO word order and consonantal mutation in Welsh', *Linguistics*, 28-1 (1990), 389-416
- Teschner, R. V., a Russell, W. M., (1984), 'The gender patterns of Spanish nouns: An inverse dictionary-based analysis', *Hispanic Linguistics*, 1 (1984), 115-32
- Thomas, E. M., (2001), *Aspects of Gender Mutation in Welsh*, traethawd doethurol nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru Bangor
- Thomas, E. M., a Gathercole, V. C. M., (2005) 'Obsolescence or survival for Welsh in the face of English dominance?', yn Cohen, J., McAlister, K. T., Rolstad K., a MacSwan, J., (goln.), *Proceedings of the 4th International Symposium on Bilingualism* (Somerville Massachusetts, Cascadilla Press)
- Thomas, P. W., (1984), 'Variation in South Glamorgan consonant mutation' yn Ball, M. J., a Jones, G. E., (goln.), *Welsh Phonology* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)
- Thomas, P. W., (1996), *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)
- Thorne, D., (1993), *A comprehensive Welsh grammar* (Oxford, Blackwell)
- Tomasello, M., (1992), *First verbs: A case study of early grammatical development* (Cambridge, Cambridge University Press)
- Tomasello, M., (2000), 'Do young children have adult syntactic competence?' *Cognition*, 74 (2000), 209-53
- Vigliocco, G., a Frank, J., (1999), 'When sex and syntax go hand in hand: Gender agreement in language production', *Journal of Memory and Language*, 40 (1999), 455-78
- Watkins, T. A., (1993), 'Welsh', yn Ball, M. J., & Fife, J., (goln.), *The Celtic languages* (Llundain, Routledge)
- Williams, S. J., (1980), *A Welsh grammar* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)
- Willis, P., (1990), 'The initial consonant mutations in the Brythonic Celtic languages', yn Bendix, E. H., (gol.), *Theses of linguistics*, the New York Academy of Sciences

Cyfranwyr

Mike Pearson

Hyfforddwyd Mike Pearson ym maes archaeoleg. Dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain bu'n arloesi mewn agweddau blaengar tuag at berfformiad, o safbwynt theori, addysg, dogfennu ac arfer y grefft, yng Nghymru a thu hwnt. Bu'n Gyfarwyddwr Artistig Theatr Labordy Caerdydd o 1973 tan 1980 a Brith Gof, o 1981 tan 1997. Yna gweithiodd gyda Mike Brookes i'r grŵp Pearson/Brookes, gan greu, yn fwyaf diweddar, weithiau aml-safle mewn cyd-destun dinesig.

Ef, gyda Michael Shamks, yw cyd-awdur *Theatre/Archaeology* (Routledge 2001); teitl ei fonograff sydd ar fin ymddangos yw *'In Comes I': Performance, Memory, and Landscape* (Gwasg Prifysgol Exeter, 2006). Ar hyn o bryd y mae'n athro ym maes astudiaethau perfformio yn Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Gwennan Mair Schiavone

Magwyd Gwennan ym mhentref Pandy Tudur, ym Mro Cernyw. Wedi derbyn ei haddysg yn Ysgol Gynradd Bro Cernyw ac Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy, aeth ymlaen i Brifysgol Cymru Aberystwyth, gan dderbyn gradd BA Astudiaethau Cymru Fodern yn 2003. Yn dilyn ennill Ysgoloriaeth Ymchwil Uwchraddedig Aberystwyth, dechreuodd ar ei doethuriaeth ymchwil arfaethedig sy'n edrych ar weithgarwch menywod fel rhan o Genhadaeth Dramor yn Eglwys Bresbyteraidd Gymreig yng ngogledd-ddwyrain India, gan ganolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1887 ac 1930.

Y mae ei thraethawd yn edrych yn benodol ar gefndir y cenadesau a'u gwaith ar y maes cenhadol, gan ystyried yr ymateb i'w gwaith o du'r gynulleidfa yng Nghymru, ac yn arbennig felly'r gynulleidfa fenywaidd a ddangosodd ddiddordeb a chefnogaeth neilltuol at yr Achos Cenhadol.

Diarmait Mac Giolla Chríost

Mae Dr Diarmait Mac Giolla Chríost, a benodwyd yn Ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn 2004, yn frodor o Iwerddon ac yn awdurdod ar leiafrifoedd ieithyddol a chynllunio ieithyddol. Mae'n arbenigwr ar sefyllfa'r iaith Wyddeleg. Mae ei ddiddordebau ymchwil eraill yn cwmpasu nifer i feysydd, gan gynnwys natur y bethynas rhwng iaith a gwerthdaro, o berspectif cymharol, Ewropeaidd, ac, yn ogystal, iaith yng nghyd-destun y ddinas, a hynny o berspectif cymharol a rhyngwladol.

Ef yw awdur *Language, Identity and Conflict* (Routledge, 2003), *The Irish Language in Ireland* (Routledge, 2005), a *Language and the City* (Palgrave Macmillan, yn y wasg). Mae ganddo nifer o gyhoeddiadau eraill ym meysydd y gwyddorau cymdeithasol, daearyddiaeth, hanes a chymdeitheg iaith. Mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Ddaearyddiaeth Frenhinol (FRGS) ac yn Gymrawd o'r Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol (FRHistS).

Enlli Thomas

Wedi graddio mewn seicoleg yn 1996, cafodd Dr Enlli Thomas y cyfle i astudio ymhellach a dilyn cwrs ôl-radd. Derbyniodd ddoethuriaeth mewn seicoleg (Ph.D.) yn 2001 am waith ymchwil yn olrhain sut y mae plant Cymraeg yn dysgu elfennau arbennig o dreiglo yn eu ym tebyg dan arweiniad yr Athro Ginny Gathercole, yn dilyn datblygiad iaith plant sy'n dysgu Cymraeg dan amgylchiadau ieithyddol gwahanol.

Y mae bellach yn dysgu yn Ysgol Seicoleg, Prifysgol Cymru, Bangor ac yn gyfrifol am hybu addysg Gymraeg o fewn yr Ysgol, yn ychwanegol at addysgu myfyrwyr yn Saesneg. Mae ei gwaith ymchwil presennol yn parhau i edrych ar gaffaeliad plant o strwythurau cymhleth yn y Gymraeg, a defnydd a natur dealltwriaeth a phrosesu oedolion o'r un strwythurau yn y Gymraeg. Y mae hefyd ar fin cychwyn prosiect newydd a gyllidwyd gan yr ESRC yn astudio effeithiau gwybyddol dwyieithrwydd ar hyd yr oesau.

Tu hwnt i ymchwil o'r fath, mae elfen ymarferol i'r gwaith ac y mae Dr Thomas eisoes yn y broses o ddatblygu dulliau asesu iaith plant yn y Gymraeg ar y cyd â'r Athro Gathercole, a rhagbrawf niwroseicolegol Cymraeg ar gyfer asesu dementia ar y cyd â Dr Linda Clare, yr Athro Bob Woods, a Dr Eleri Jones.

GWERDDON

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyfrol I, Rhif 1, Ebrill 2007 • ISSN 1741-4261

ISSN 1741-4261



9 1771741 426008